# Y DINESYDD

Ebrill / Mai 2023
Rhifyn Dwbl

Papur Pobl Caerdydd a'r Fro

Rhif 477 £2





# Pen-blwydd Hapus 50 oed

# 1973 - 2023

# Y DINESYDD

**Golygydd:**
**Hefin Mathias**

***Golygydd Mehefin***
***Miranda Morton***

Cyfraniadau erbyn **27 Mai** at:
miranda.morton@virginmedia.com
07713 765692

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Tanysgrifiadau:
Gwilym Dafydd (dros dro)
eirianagwilym@gmail.com
4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd, CF14 7EJ
029 20657108

Prif Ddosbarthwr:
Arthur Evans
Yr Eglwys Newydd.
aloevans@icloud.com
029 20623628

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Serol Print, Castell-nedd
Cysodydd: Dr Eirian Dafydd

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol
gan
Lywodraeth Cymru

Y Cyfryngau Cymdeithasol
Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd


# Y Dinesydd yn 50 oed

## Y diolchiadau
Fel y gwelwch mae'r atodiad yn un sylweddol a diolch yn fawr i nifer o enwau digon cyfarwydd ar hyd y degawdau am hel atgofion diddorol a phersonol parthed eu cysylltiadau â'n papur bro neu gylchgrawn fel mae mwy yn ei alw y dyddiau hyn.

## Casglu hen rifynnau
Fel soniais yn ddiweddar, nid yw'r casgliad o'r hen rifynnau yn gyflawn yn Llyfrgell Cathays. Ond diolch i Eluned Edwards, Llandaf, am drosglwyddo rhifynau 1-7, 1973, a hynny mewn cyflwr syndod o dderbyniol.

Yna pan aeth Eirian a fi i Aberystwyth, 21-23 Mawrth, i gynrychioli'r *Dinesydd* yng nghyfarfod blynyddol y papurau bro yn Llety'r Parc ger Llanbadarn Fawr – roedd cynrychiolwyr 30 papur bro yno. Amser cinio daeth Owena Williams, chwaer y diweddar Cen 'Cartŵn' Williams draw â set o hen gopiau ei brawd – y mwyafrif o rifynau 10 – 348, un neu ddau ar goll. Diolch iddi am ei chymwynas wrth alw heibio. Wedi derbyn yr holl gopiau ychwanegol hyn, hyderaf y bydd modd sicrhau set gyflawn o'r Dinesydd rhifynau 1 – 477 yn ddiogel yn Llyfrgell Cathays maes o law.



*Gwilym, Owena a Wil*

## Cwis Dinesydd 50 2023
Yr her yn rhifyn mis Mawrth, tudalen 23, oedd ateb 10 cwestiwn. Ddaeth dim atebion i law! Roeddwn yn synnu braidd oherwydd mae rhai ohonoch fel Alun Guy wedi darllen pob rhifyn ers mis Ebrill 1973! Felly cewch gyfle arall rhwng nawr a diwedd mis Mai. Mae'r atebion i gwestiwn un, saith ac wyth yn y rhifyn hanesyddol cyntaf ac ar gael i bawb ar dinesydd.cymru.

## Y Pwyllgor
Efallai bydd haneswyr papurau bro y dyfodol yn 2033 neu 2043 yn holi pwy tybed oedd aelodau'r Pwyllgor ym mlwyddyn dathlu'r 50. Cynhaliwyd pwyllgor yn nhŷ Arthur Evans, y prif ddosbarthwr ar nos Iau, 2 Mawrth, 6.30 - 8.45. Nid yw ein pwyllgorau fel arfer yn parhau am ddwy awr a chwarter!

Yno hefyd roedd Manon Phillips (is-gadeirydd), Brid Price, Janet Wilde (ysgrifennydd), Wyn James, John Hayes (aelod newydd), Yvonne Heynes, Eirian a Gwilym Dafydd (cadeirydd y noson). Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Iestyn Davies (hysbysebion) a Huw Roberts (trysorydd).

## Cyfarfod Blynyddol
Cynhelir pwyllgor a chwrdd blynyddol ar nos Iau, 8 Mehefin am 6.00 a 7.30 o'r gloch. Am fanylion pellach cysylltwch ag eirianagwilym@gmail.com

*Gwilym Dafydd (Cydlynydd Y Dinesydd rhifyn dathlu'r 50)*

# Colofn Natur

## *Y Wernen*



### Gethin Jenkins-Jones

"Pa fis yw dy ffefryn di, Geth?" Cwestiwn sy'n cael ei ofyn o bryd i'w gilydd, yn enwedig wrth drafod byd natur. Mae fy ateb yn unfath pob tro: "Ebrill". Mae arwyddion pendant bod y gwanwyn wedi cychwyn o'r diwedd yn rhoi llawer o foddhad i mi, a dwi'n siŵr y byddai llawer ohonoch chi'n cytuno! Un o arwyddion mwyaf amlwg y tymor yw'r gwyrddni cynyddol, sy'n wythnosol yn rhoi mwy a mwy o liw i'r byd o'n hamgylch. Felly i newid pethe ychydig, heddiw ni fyddaf yn ffocysu ar aderyn neu anifail, ond ar blanhigyn. Fy hoff goeden - y wernen.



Mae'r mwyafrif o'r coed mewn unrhyw gynefin, yno un ai oherwydd tyfiant naturiol neu o ganlyniad i gael eu plannu. Mae'n wir fod rhai yn fwy hoff o dyfu mewn llefydd efo pH asidig neu'n alcalïaidd, ond ar y cyfan nid oes angen amodau pendant arnynt i fyw. Fodd bynnag, mae'r wernen yn eithriad i'r rheol, gan ei bod ond yn fodlon tyfu mewn llefydd efo digonedd o un adnodd penodol - dŵr. Mae hon yn goeden ein hafonydd, nentydd, llynnoedd, a chorsydd, ac yno mae yn medru dominyddu'r canopi a thyfu lan at ugain metr. Ar ddiwedd y gaeaf lan at gychwyn y gwanwyn gallwch ei hadnabod gan ei chenawon, sy'n borffor cyn iddynt flaguro, a phan mae'r dail yn tyfu fe fyddwch yn gweld pant ar bennau'r dail, sy'n rhoi edrychiad gweddol debyg i galon werdd.



Mae gan y goeden yma hanes pwysig a diddorol. Ar ddiwedd yr Oes Iâ, hon oedd un o'r coed cyntaf i ddychwelyd ac, yn wahanol i lawer o goed eraill, llwyddodd i gyrraedd Iwerddon cyn i'r wlad droi'n ynys. Y rheswm am bwysigrwydd y wernen yw ei bod yn un o'r ychydig goed sy'n medru cymryd nitrogen o'r awyr a'i droi'n ddeunydd biolegol, diolch i'r bacteria *Frankia alni* sy'n byw yn ei gwreiddiau. O ganlyniad, daeth y pridd yn fwyfwy ffrwythlon, gan helpu coed eraill i ymledu a goroesi yma cyn i Brydain ddod yn ynys ei hun. Dros y canrifoedd wedyn daeth yn gyffredin yn enwedig yng Nghymru, diolch i'r hinsawdd wlyb. Bellach rydym wedi colli nifer fawr ohonynt wrth i ni ddraenio'r tir dros y canrifoedd, felly mae'r rhai sydd gennym heddiw yn arbennig o werthfawr. Hyd yn oed heddiw, mae'r coed sydd ar ôl yn helpu coed eraill o'u hamgylch, gan ddarparu mwynau iddynt mewn amseroedd caled trwy rwydwaith o ffwng sy'n cysylltu i wreiddiau ei chymdogion.

Mae'r wernen wedi bod yn ysbrydoliaeth i ddiwylliant Celtaidd dros y blynyddoedd. Yng Nghymru credir taw hon oedd hoff goeden y tylwyth teg, ac roedd pobl yn ei hoffi oherwydd, yn y Mabinogi, gwnaeth Brân ddefnyddio tarian o wernen wrth frwydro (siŵr o fod gan fod cleddyfau yn medru bod yn sownd yn y pren yma yn gymharol rwydd). Yn Iwerddon, fodd bynnag, nid oedd pobl yn edrych arni mor hael. Wrth dorri gwernen mae'r pren yn troi'n oren tywyll, gan roi edrychiad tebyg i waedu, felly credir bod hyn yn arwydd o anlwc wrth basio'r goeden.

Fel byddech yn disgwyl, mae gan y goeden yma'r gallu i wrthsefyll pydredd mewn dŵr, felly dros y canrifoedd rydym wedi defnyddio'r pren i wneud nifer o adnoddau, yn enwedig cychod bach a chyfarpar llifddor. Er ein bod yn defnyddio metel ar gyfer y mwyafrif o'r fath bethau heddiw, mae'r wernen yn parhau i fod yn ddefnyddiol i ni. Nid yn unig mae'r goeden yn cynnal llu o fioamrywiaeth (fel trychfilod, mwsoglau, cennau a ffyngau sy'n cynnal ein hecosystemau), mae'n bosib bydd y dail (ar ôl iddynt bydru) o ddefnydd fel gwrtaith i fyd ffermio'r dyfodol. Mae hyn yn edrych yn opsiwn fwyfwy apeliol a chynaliadwy nawr bod prisiau gwrtaith synthetig confensiynol yn cynyddu. Mae ymchwil i weld dichonoldeb y fath newid yn digwydd ar hyn o bryd gan Brosiect Gwrtaith Gwyrdd Lluosflwydd, ac rydw i yn argymell pob un ohonoch i ddysgu mwy am y prosiect bendigedig yma ar-lein.

Mae ecoleg, hanes, a deunyddiau'r wernen yn ei gwneud yn un o fy hoff blanhigion. Y tro nesaf y byddwch yn cerdded ar lan afon Taf, edrychwch allan am y goeden yma. Rydym yn lwcus i'w chael yn ein plith!

# Merched y Wawr Bro Radur

Cyflwynwyd ein gwestai ar Ddydd Gŵyl Dewi gan un ddaeth yn ffrind iddi hanner can mlynedd yn ôl yng Ngholeg Prifysgol Aberystwyth, lle'r oedd y Dr Sylvia Prys Jones yn astudio'r Gymraeg a Gwen Emyr yn dilyn cwrs hanes. Cyn cyrraedd Aberystwyth doedd Sylvia erioed wedi adnabod neb oedd yn siarad Cymraeg yn naturiol fel iaith gyntaf! Ymhen blynyddoedd daeth hi yn Diwtor Iaith, yn Bennaeth Cyfieithu Academaidd Prifysgol Bangor ac ym 1998 roedd yn gyd-awdur *The Encyclopedia of Bilingualism* gyda'r Athro Colin Baker.

Ganwyd Sylvia yn Sheffield. Pan oedd hi'n ddeg oed penderfynodd ei thad ei fod am i'w ferch ddysgu Cymraeg a symudodd y teulu o Surrey i Radur. Wedi blwyddyn yn ysgol Gynradd Radur aeth i Ysgol Howells. Yno roedd Mrs Sybil Bevan yn athrawes Gymraeg ysbrydoledig, dawnus a charedig. Felly, yn yr ystafell ddosbarth dysgodd Sylvia Gymraeg a chyrraedd Coleg y Brifysgol yn barod i gael cwmni'r Cymry, a mentro i siarad Cymraeg! Wedi priodi symudodd hi a'i gŵr i Fethesda a magu tri o feibion.

Testun sgwrs Sylvia ar Fawrth 1af oedd 'Caffael Iaith'. Wrth amlinellu wyth ffactor pwysig ar y daith i ddysgu iaith arall cafwyd enghreifftiau personol a difyr ganddi wrth iddi ymhelaethu ar CYMHELLIANT [yr awydd i berthyn], MEWNBWN [dod i gysylltiad agos â'r iaith], ALLBWN [rhaid i chi fentro], DYSGU GYDOL OES, HYBLYGRWYDD [mae pob iaith yn wahanol], TARGEDAU YMARFEROL, DYFALBARHAD [a rhaid bod yn benderfynol], HYDER [mae pawb yn gallu dysgu iaith]. Roedd nifer o siaradwyr newydd y Gymraeg wedi eu gwahodd i ymuno gyda ni ac roedd Sylvia yn eu hannog bod rhaid mentro os am ddysgu siarad Cymraeg a dim ots am wneud camgymeriadau. Cawson ni i gyd ein hysbrydoli gan ein gwraig wadd ar Ddydd Gŵyl Dewi 2023.

*Meri Griffiths*



*Gwen Emyr, Sylvia Prys Jones a Mary Nicholas*

# Clwb Canna

Os cafwyd dechrau gwych i'r flwyddyn, sut oedd gwella ar hynny meddech chi. Wel, os am chwip o noson, beth am fand poblogaidd, wedi'i gefnogi gan fand poblogaidd arall. A dyna wnaeth Clwb Canna ym mis Mawrth – anelu'n uchel.

Ar ôl ychydig ddyddiau o alwadau a negeseuon pryderus ynghylch yr eira rhwng Caerdydd a'r canolbarth, roeddem yn barod am noson allan eto.

Yn ôl yn ei gartref arferol yng nghanol Treganna, yn y Clwb Lib (Lle i bawb?) roedd Clwb Canna yn falch o groesawu'r band ifanc lleol Dadleoli. A wnaethon nhw ddim siomi. Cafwyd set wirioneddol wych, a braf oedd gweld cymaint o bobl wedi dod i'w cefnogi. Os nad ydych chi wedi clywed am Dadleoli, mae'n sicr eich bod wedi clywed eu cân'. Dyma fand sydd ar ei ffordd i rywbeth mawr iawn yn y dyfodol.

Os oedd y lle'n gyffro cynt, aeth pethau'n wyllt pan gamodd ... neidiodd! ... Candelas i'r llwyfan. Roedd y lle'n llawn ac yn rocio go-iawn. WAW, dyma fand sy'n diddanu ac yn ymateb i'w gynulleidfa. Roedd yr egni'n bowndio o'r llwyfan i bob cornel o'r clwb, ac yn tynnu pawb i mewn. Cafwyd cyfle i wrando, dawnsio a chyd-ganu i ganeuon poblogaidd ac adnabyddus, ac roedd pawb wrth eu boddau. Braf hefyd oedd gweld cymysgedd o bobl o bob oed yn mwynhau.



*Llun: Irfon Bennett*

*Candelas*

Diolch i'r holl artistiaid, ac i'r gynulleidfa am bob cefnogaeth i Glwb Canna. A diolch yn fawr i'r ffotograffydd swyddogol, @irfonbennett.com.

Digwyddiadau fel hyn sy'n gwneud i rywun barhau i drefnu'r digwyddiadau 'ma ynde? Felly mae'r digwyddiad nesaf eisoes wedi'i drefnu ar nos Wener 5 Mai, yn y Clwb Rhyddfrydol Treganna, ac rydym yn edrych ymlaen at groesawu Mared Williams a Morgan Elwy.

Bachwch eich tocynnau'n fuan -
£12 o Caban (Pontcanna) / Driftwood (Canol dre)
neu Ticketsource £14 ar y noson

# Taith Côr Meibion Taf i'r Alban, 9-12 Chwefror 2023

Union flwyddyn yn ôl fe dderbyniodd y côr wahoddiad i ganu yng Nghlwb Rygbi Pentyrch ar y nos Wener cyn gêm yr Alban yn y 6 Gwlad. Mae aelodau Clwb Rygbi Ynys Bute wedi bod yn ymweld â Phentyrch ar yr achlysur hwn yn ddiffael ers deugain mlynedd a chafwyd dathliad arbennig i nodi'r garreg filltir nodedig hon llynedd. Yn ogystal â hynny, fodd bynnag, y noson honno plannwyd y syniad, efallai, y gallai Côr Meibion Taf ddychwelyd i'r ynys ryw ddydd. Ddeuddeg mis yn ddiweddarach gwireddwyd y freuddwyd ac yn blygeiniol ar fore Iau 9 Chwefror ymadawodd deugain o gantorion, eu harweinydd a'u cyfeilydd ynghyd ag ambell gyfaill ar y daith i Ynys Bute a Chaeredin. Gwibiodd yr oriau a'r milltiroedd heibio wrth i'r teithwyr ymgiprys am wobrau hael drwy ymateb i heriau niferus ein hysgrifennydd a threfnydd y daith Colin 'Top Tenor' Williams. Rhennir cynnyrch dwy o'r cystadlaethau yma:

**Brawddeg ar y gair CALEDONIA**: yn fuddugol Gwyn Hughes Jones:

Cefais aml labswchad efo Delilah ond nawr 'in absentia'.

**Limrig yn cynnwys y llinell 'Ar y bws yr holl ffordd i'r Alban'**: Dai Boobier yn fuddugol:

> Ar y bws yr holl ffordd i'r Alban
> Roedd llawer o gonan a thuchan
> Ar ôl hwyl a sbri
> Distawrwydd a fu
> A nifer o'r bois yn pendwmpian!'

Cyn pen dim roeddem wedi croesi ffiniau Cymru a Lloegr a chyrraedd yr Hen Ogledd. Cafwyd taith hwylus dros ben tuag at Glasgow a thu hwnt ar hyd glannau'r Afon Clyd i borthladd Wemyss Bay. Gan fod rhyw awr fach i'w lladd dyma daro ar draws sefydliad croesawgar tu hwnt yn yr orsaf reilffordd sydd yn gwasanaethu'r porthladd. Cyfle cynta'r daith felly i ymarfer rhai o ganeuon y penwythnos a diddanu'r trigolion lleol ar yr un pryd.

Gwawriodd bore Gwener ac roedd gennym ddewis – ymuno â'r golffwyr am rownd ar gwrs Port Bannatyne neu fynd ar wibdaith o gwmpas yr ynys. Roedd y cwrs golff yn un heriol yn ôl y sôn a'r gystadleuaeth yn un ffyrnig yn enwedig gan fod Tlws Cymdeithas Golff CMT yn y fantol, tlws newydd a gyflwynwyd i'r côr gan ein his-lywydd, Ieuan Aman Davies. Er mawr lawenydd i bawb, gan gynnwys ei gyd-olffwyr, y buddugwr a deiliad cyntaf y tlws newydd hwn oedd Goronwy 'Gogs' Jones. Tra'r oedd y golffwyr wrthi yng Nglwb Golff Port Bannatyne, daeth y gweddill ohonom i adnabod yr ynys mewn dull mwy hamddenol, a hynny yng nghwmni yr annwyl Iain Mcleod, cyn bennaeth adran ddaearyddiaeth yr ysgol uwchradd leol.

Ac felly at brif nod yr ymweliad hwn ag Ynys Bute, sef y cyngerdd mawreddog yn Mount Stuart House y noson honno. Treuliwyd y prynhawn yn cael ein tywys o gwmpas y plasdy rhyfeddol hwn ac yn cael ein hatgoffa gan yr enwau, y bensaerniaeth a'r hanes o'r cysylltiadau agos iawn sy'n bodoli rhwng yr ynys a Chaerdydd a De Cymru.

Braint Côr Meibion Taf oedd rhannu'r llwyfan mewn noson o gerddoriaeth gyda Chôr Ballianlay a Band Cymunedol Bute. Llanwyd y Neuadd Farmor gyda chynulleidfa leol a gwerthfawrogol oedd yn hael iawn eu canmoliaeth. Codwyd y to pan ymunodd y ddau gôr a'r band mewn perfformiadau gwefreiddiol o anthemau y cefndryd Celtaidd: 'Hen Wlad fy Nhadau' a 'Highland Cathedral'.

Ar ôl llwyddiant ysgubol y cyngerdd ym Mhlasdy Mount Stuart a'r dathlu haeddiannol nôl yn Rothesay, ymlaen â'r daith fore Sadwrn i Gaeredin. Roedd ail berfformiad i'w gyflwyno yng nghlwb rygbi Stewart's Melville amser cinio cyn mynd am Murrayfield ac ail gêm Cymru yn y 6 Gwlad eleni.

Treuliwyd y cwta ddwy awr yn teithio o arfordir y gorllewin i'r brifddinas yn ail-fyw profiadau bythgofiadwy y noson gynt tra'n paratoi ar yr un pryd am her y diwrnod o'n blaenau. I'n cynorthwyo yn y dasg hon fe'n tywyswyd yn ôl i ddechreuadau y traddodiad barddol Cymraeg a hynny ar ffurf rhyfelgri gan ein harweinydd Colin. Fe'n hudwyd yn llwyr yn ôl i Gatraeth a'r Hen Ogledd gan ddawn y cyfawydd hwn.

Roedd y gwahoddiad i godi'r canu yng nghlwb Stewart's Melville yn gyfle arbennig i greu rhagor o gysylltiadau yn yr Alban. Profwyd croeso gwresog unwaith eto, roedd y clwb dan ei sang a'n braint oedd perfformio i gynulleidfa yn cynnwys, ymhlith eraill, aelodau o Gymdeithas Gymraeg Caeredin.



**Murrayfield: Yr Alban 35 Cymru 7**

A ninnau wedi cyflawni ein gorchwyl olaf roedd cryn edrych ymlaen at ymlacio a mwynhau gêm dda o rygbi. Roedd swyddogion Stewart's Melville wedi sicrhau bloc o seddi i ni gael eistedd gyda'n gilydd. Ond y fath siom! Och a gwae!
'Ac wedi elwch, tawelwch (cymharol) fu.''

Cafwyd taith adref oedd yr un mor hwylus â'r un i fyny i'r Alban dridiau ynghynt. Parhau wnaeth y tasgau, y cwisio a'r gwobrwyo a chyn pen dim (wel, rhyw naw awr) dyma gyrraedd adref. Mae'n diolch ni fel aelodau o Gôr Meibion Taf i bawb gyfrannodd at lwyddiant taith gofiadwy ond yn enwedig i ddau unigolyn sef Dave y gyrrwr rhadlon a thra medrus ac wrth gwrs ein hysgrifennydd a'r arch-drefnydd Colin Williams.

# Ysgol y Berllan Deg

**Diwrnod y Llyfr**
Cafwyd hwyl eleni yn dathlu darllen gyda nifer o weithgareddau hwyliog gan gynnwys ffair gyfnewid llyfrau yn y neuadd wedi ei threfnu gan ddisgyblion Blwyddyn 6. Hefyd, bu athrawon yn cyfnewid dosbarthiadau am gyfnod i ddarllen stori i ddosbarth gwahanol i'r arfer. Mwynhaodd Blwyddyn 3 a 5 weithdai cyffrous gan Huw Aaron a Meilyr Siôn fel ysbrydoliaeth i'w gwaith ysgrifennu creadigol. Roedd pawb wrth eu boddau.

**Dathlu Dydd Gŵyl Dewi**
Dathlwyd Dydd Gŵyl Dewi Sant eleni gydag eisteddfod ysgol rhynglysol yn y neuadd yn y bore. Cafwyd enillwyr ym mhob blwyddyn am waith celf, llawysgrifen ac am ysgrifennu creadigol. Yn y prynhawn aeth Blwyddyn 3-6 i'r neuadd ar gyfer seremoni'r cadeirio gyda disgybl Blwyddyn 6 yn dod yn fuddugol am ysgrifennu cerdd ar y thema 'Hedfan'.

**Eisteddfod Cylch**
Cafodd yr ysgol lwyddiant unwaith eto yn Eisteddfod Cylch yr Urdd gan ddod yn fuddudol yn y rhan fwyaf o'r cystadleuthau unigol a'r perfformiad theatrig dan 12 oed. Bydd pob un o'r buddugwyr, a'r rhai a ddaeth yn ail, yn cynrychioli'r ardal hon yn yr Eisteddfod Sir yn Y Barri ar Mawrth 25. Byddwn hefyd yn cystadlu gyda'r grŵp llefaru a'r côr.

**Twrnament pêl droed**
O ganlyniad i lwyddiant y tîm pêl-droed a ddaeth yn fuddugol mewn twrnament wedi ei drefnu gan Ddinas Caerdydd teithiodd y bechgyn, 2 aelod o staff a rhieni i Luton i gefnogi'r bechgyn ar 7 Mawrth. Roedd y twrnament yn cynnwys tîmau yn cynrychioli nifer o glybiau pêl-droed Prydain gyfan. Daethant yn 3ydd yn y rowndiau go-derfynol.




**Diwrnod di-blastig**
Ar Ddydd Iau 9 Mawrth trefnodd y Cyngor Ysgol a'r Pwyllgor Eco ddiwrnod di-blastig yn yr ysgol. Cafwyd nifer o weithgareddau hwyliog gan gynnwys creu murlun o ddeunyddiau plastig untro gyda phob blwyddyn yn cyfrannu. Defnyddiodd Blwyddyn 2 ficeri a photeli mawr llaeth ar y diwrnod yn hytrach na defnyddio dros 200 o boteli llaeth bychain amser llaeth a ffrwyth i dorri lawr ar y defnydd o blastig.





**Bl 5 - Abernant**
Aeth ddisbylion Blwyddyn 5 am ddwy noson i aros yng Nghanolfan Preswyl Abernant. Cawsant brofiadau bythgofiadwy ac amrywiol iawn yn cynnwys abseilio, padlfyrddio, canwîo, rhaffau isel, dringo, cyfeiriannu, saethyddiaeth yn ogystal a mynd ar antur o gwmpas Llanwrtyd. Roedd pawb wrth eu boddau.

# Ysgol Hamadryad

Mae hi wedi bod yn fis llawn iawn o weithgareddau yn Ysgol Hamadryad, a'r plant unwaith eto wedi mwynhau profiadau amrywiol.

**Eisteddfodau**
Roedd yr ysgol gyfan yn ymfalchïo yn ein Cymreictod ar Fawrth 1af, yn ein Eisteddfod flynyddol. Bu'n gyfle i wobrwyo ein plant mewn cystadlaethau amrywiol o farddoni yn y Babell Lên i gampweithiau celf; o gampau chwaraeon i arbrofion gwyddonol yn Y Babell Wyddoniaeth. Heb anghofio'r cystadlaethau llwyfan, wrth gwrs, lle cafwyd llond gwlad o ganu a llefaru.

Cadeiriwyd ein llenor buddugol, sef Lexi o Flwyddyn 6, a pherfformiodd criw o ddisgyblion Blwyddyn 5 y ddawns flodau i'w chyfarch. Diwrnod i'w gofio'n sicr.

Bu nifer helaeth o'n plant yn cystadlu yn Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth yr Urdd yn ogystal, gyda thair cystadleuaeth yn mynd ymlaen i gynrychioli'r ysgol yn y Genedlaethol yn Sir Gâr. Bu nifer o'n disgyblion yn fuddugol gydag Aelwyd yr Urdd Grangetown hefyd. Edrychwn ymlaen at ddathlu'r holl dalentau a'u cefnogi yn Llanymddyfri.

**Ramadan**
Mae rhai o ddisgyblion hŷn yr ysgol yn nodi cyfnod Ramadan ar hyn o bryd, a chawsom wasanaeth hynod ddiddorol ac addysgiadol am y cyfnod hwn o ymprydio.






**Côr yr ysgol**
Profiad gwych i'r côr oedd cael canu gyda'r gantores Bronwen Lewis mewn digwyddiad yng Nghanolfan y Mileniwm gydag athletwyr Cymru sydd wedi cynrychioli eu gwlad yng Ngemau'r Gymanwlad. Cafodd y disgyblion gyfle i holi cwestiynau a chlywed yr athletwyr yn trafod eu profiadau ysbrydoledig a'u balchder o fod yn Gymry tra'n dod ynghyd gyda gwledydd eraill. Bu'r côr hefyd yn diddanu yng Nghynulliad Blynyddol y Coleg Cymraeg yn y Tramshed, prysur iawn!

**Cynghrair Lego**
Aeth criw o Flwyddyn 6 i Stadiwm Principality i gystadlu yng Nghyngrair Lego ysgolion Cymraeg. Fe wnaeth eu dyfalbarhad a'u sgiliau codio arloesol ddwyn ffrwyth wrth iddynt gipio'r ail wobr! Llongyfarchiadau mawr i beirianwyr y dyfodol.

**Rhieni Hamadryad**
Mae criw o rieni a ffrindiau Hamadryad wedi bod yn weithgar iawn eto'r mis hwn yn trefnu digwyddiadau hwyliog iawn i godi arian i'r ysgol, gan gynnwys ras hwyl Camau Hamryliw. Dyna oedd joio!

**Diwrnod eira**
Efallai bod tywydd rhewllyd ac eira ddechrau fis Mawrth yn angof erbyn hyn, ond cafodd ein disgyblion fore i'w gofio wrth fwynhau taflu peli eira. Roedd y plant a'r athrawon wrth eu bodd!

Hyn oll, a dathlu Diwrnod y Llyfr, Cwis Llyfrau Llyfrgelloedd Caerdydd, Prosiect Cynefin Amgueddfa Caerdydd, sioe Hud y Byd heb anghofio am griw egwyddorol y Pwyllor Eco yn adeiladu gardd gegin newydd.

Edrychwn ymlaen at weld beth fydd gan dymor yr Haf i'w gynnig.

Hwyl o'r Hama!



# Ysgol Nant Caerau

**Ymweliad Dafydd Iwan**

Ar ddydd Mawrth yr $2^{il}$ o Fawrth fe gawsom ymwelydd arbennig iawn yn y Nant, sef y dyn ei hun…Dafydd Iwan!! Mae Dafydd Iwan yn boblogaidd iawn gyda disgyblion ein hysgol yn dilyn ei berfformiadau cyn gemau y tîm cenedlaethol!

Roedd Dafydd Iwan wedi clywed am ymholiad arbennig disgyblion Cam Cynnydd 3 sef 'Stori'r Iaith'. Roedd am weld y gwaith a chlywed brwdfrydedd ein disgyblion drosto'i hun. Gwelodd ychydig o'r ffilm roeddent wedi cynhyrchu am hanes yr iaith a gweld yr holl waith arbennig a wnaeth y disgyblion ar gyfer y testun. Cafodd y disgyblion gyfle i'w holi ac roeddent yn llawn edmygedd wrth glywed ei hanesion.

Daethpwyd â'r bore hanesyddol i ben gyda chyngerdd cofiadwy a phawb yn cydganu ei ganeuon mwyaf adnabyddus. I goroni'r cyfan canodd Dafydd Iwan ei anthem, 'Yma o Hyd' a phlant y Nant yn morio canu!! Diolch o galon Dafydd am ymweld â ni. Am fore bythgofiadwy!!!

**Cymru v. Latfia**

Cafodd un bachgen lwcus ym mlwyddyn 5 y cyfle i fod yn fasgot i dîm Cymru yn eu gêm ddiweddar yn erbyn Latfia. Enillodd Carter gystadleuaeth ac am brofiad anghredadwy iddo oedd hebrwng Harry Wilson i'r cae ac wedyn cwrdd â Gareth Bale. Lwcus iawn Carter!!

**Diwrnod Trwyn Coch**

Mae diwrnod trwyn coch wastad yn ddiwrnod llawn hwyl yn Nant Caerau. Eleni sialens y Cyngor Ysgol oedd i wisgo fel Mr Men neu Little Miss. Roedd ambell Mr Hapus a nifer o Mr Bwmps! Codwyd £350 i'r elusen. Da iawn chi!!



## Dydd Gweddi'r Byd 2023
## Cylch Caerdydd

Cafwyd gwasanaeth bendithiol iawn ar bnawn Gwener, 3ydd Fawrth yn Y Tabernacl, Yr Ais. Paratowyd y gwasanaeth eleni gan ferched Cristnogol Taiwan ar y thema, 'Clywais am eich ffydd', yn seiliedig ar Effesiaid 1:15 – 19. Roedd y gwasanaeth yn cynnwys llythyrau o anogaeth i ferched sy'n wynebu dioddefaint ac anghyfiawnder. Gobeithiwn y bydd ymateb cadarnhaol ac adeiladol i'r gwasanaeth wrth i ni ymrwymo i weithredu drwy weddi.

Llywyddwyd y gwasanaeth gan Helen Jones, Cadeirydd Cylch Caerdydd a chymerwyd rhan gan ferched o gapeli Minny Street, Y Crwys ac Eglwys Teilo Sant. Llinos Metcalf oedd wrth yr organ. Addurnwyd y capel gyda thegeirianau pili-pala; y blodyn hwn yw balchder pennaf Taiwan yn ôl pob tebyg. Mae'n wlad sy'n cael ei chydnabod drwy'r byd fel 'Teyrnas y Tegeirianau'.



Bu nifer o chwiorydd o sawl eglwys yn paratoi paned a theisen i bawb ar ôl y gwasanaeth. Cafwyd cynrychiolaeth dda o eglwysi Cymraeg y ddinas a hyfryd oedd cael cyfle i gymdeithasu'n hamddenol cyn cychwyn am adref.

# Merched y Wawr Y Felin

## Cyfarfodydd mis Mawrth

Mae Shân Roberts yn wyneb cyfarwydd i drigolion yr Eglwys Newydd gan taw hi sydd yn rhedeg Siop lyfrau y Felin yn y pentref. Ond tybed sawl un ohonoch sy'n gwybod ei bod hi hefyd yn gwerthu ac yn trefnu blodau ar-lein ac yn y siop?

Cyfaddefodd Shân nad yw hi yn dilyn y trefniadau traddodiadol, Mae hi yn diffinio'i hun fel cynllunydd blodau cyfoes, ac aeth ati i ddangos i ni sut mae hi'n defnyddio blodau tymhorol i greu tusw o flodau ar gyfer gwahanol achlysuron – priodasau, angladdau, penblwyddi a llawer mwy. Nododd ei bod yn archebu eu blodau yn wythnosol o'r Iseldiroedd i sicrhau eu bod o ansawdd da a braf oedd derbyn cyngor ganddi ar sut i edrych ar eu hôl. Aeth Shân ati i greu y tusw bendigedig isod ar y noson, a bu Delyth Davies un o'n haelodau yn ddigon ffodus i'w ennill ar ddiwedd y noson! Diolch yn fawr Shân am noson hyfryd yn dy gwmni – cliciwch www.blodau-tlws.co.uk i archebu eich tusw o flodau nesaf!

Mae croeso cynnes bob amser i aelodau newydd yn y Felin. Rydym yn cwrdd ar drydydd dydd Iau'r mis am 7.30 yh yn Festri Capel Methodistiaid yr Eglwys Newydd, Ffordd Kelston, Yr Eglwys Newydd.



*Shân Roberts a Delyth Davies*

Os am ymuno ebostiwch mywyfelin@gmail.com neu cysylltwch â Glenys (Cadeirydd) ar 07857 342464 neu Janet (Ysgrifennydd) ar 07810 363232.
Mae'r cyfarfod nesaf ar nos Iau 18fed Mai, siaradwyr newydd fydd yn ymuno gyda ni bryd hynny.

# Talwrn y Beirdd

Daeth Talwrn y Beirdd BBC Radio Cymru gyda Ceri Wyn y Meuryn i recordio dwy raglen yng nghapel Bethel Rhiwbeina ar wahoddiad Cangen y Felin. Cafwyd noson i'w chofio gyda'r ymryson gyntaf rhwng disgyblion Ysgol Bro Morgannwg ac Ysgol Gyfun Plasmawr o dan ofal medrus ei mentoriaid Gruffydd Owen a Steffan Phillips. Roedd pawb yn rhyfeddu at ddawn y disgyblion i gyrraedd safon mor uchel a pha mor broffesiynol yr oeddent wrth gyflwyno eu tasgau barddonol. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau dîm, rwy'n siŵr y byddwn yn clywed mwy amdanynt yn y dyfodol. Darlledir y rhaglen hon ar Radio Cymru ar y 9fed o Ebrill.

Dilynwyd hyn gan ymryson rhwng tîm y Ffoaduriaid a'r Duke ac unwaith eto, fe gyfareddwyd y gynulleidfa gan ddawn y beirdd yn ymdrin â phynciau megis Mesurau Arbennig, Y Gosb, Ateb Llinell ar y Pryd, Nid yw o hyd yn beth da ....., telyneg gyda'r teitl Awyr Iach a'r englyn i orffen yn trafod Nicola Sturgeon! Y Ffoaduriaid aeth â hi o drwch blewyn ar y noson.

Bydd modd gwrando ar y rhaglenni drwy BBC Sounds.

Cyflwynodd Anthony Evans un o'i luniau i'w rafflo er mwyn codi arian tuag at yr Ŵyl Cerdd Dant a gynhelir yng Nghaerdydd ym mis Tachwedd. Diolch yn fawr iawn iddo. Carol O'Donnell oedd yr enillydd lwcus.

Mae'r BBC yn ddiolchgar iawn i'r gangen am y trefnu ac am y lluniaeth ar y noson.



*Disgyblion Bro Morgannwg a Phlasmawr gyda'r meuryn Ceri Wyn Jones*

# Cymrodorion Caerdydd

Eleni dethlir canmlwyddiant darlledu o Gymru, ac i nodi'r achlysur, gwahoddodd Cymrodorion Caerdydd Arwel Ellis Owen i draddodi darlith yng nghyfarfod mis Chwefror. Ar 13 Chwefror 1923 y darlledwyd gyntaf erioed o Gymru, a hynny o ystafell gyferbyn â Chastell Caerdydd.

Maes o law, lleolwyd prif orsaf yr hyn a elwid yn 'Rhanbarth y Gorllewin' gan y BBC yng Nghaerdydd, ond roedd y rhanbarth hwnnw yn cynnwys de-orllewin Lloegr yn ogystal â Chymru. Soniodd Arwel am y brwydrau caled gafwyd i geisio sicrhau trefniadaeth deilwng i Gymru ac i'r iaith Gymraeg dan y drefn honno. Nid yw'r brwydro drosodd, wrth gwrs, ac fel aelod o Banel Arbenigol Llywodraeth Cymru ar Ddatganoli Darlledu mae gan Arwel ei ran yn y pwyso am ddiwygio pellach.



Buom fel Cymry, Cymraeg a di-Gymraeg fel ei gilydd, yn ffodus fod unigolion yn y dyddiau cynnar wedi gweld potensial aruthrol y cyfrwng, ac wedi gosod eu hunain mewn safle i fedru gweithredu. Cyfeiriodd Arwel at yr hoelion wyth, dynion fel Sam Jones, Alun Llywelyn Williams, Alun Oldfield-Davies, Merêd ac eraill. Ni fuom yn brin o ddarlledwyr dawnus iawn ychwaith, pobl fel Owen Edwards, Alun Williams, Myfanwy Howells, Teleri Bevan, Beti George i enwi ond ychydig.

Un darllediad arbennig a gafodd ei enwi gan Arwel oedd Darlith Radio 1962, sef *Tynged yr Iaith* gan Saunders Lewis. Os bu darllediad erioed a gafodd effaith ar gwrs ein hanes, y Ddarlith Radio honno oedd hwnnw.

Digwyddiad arall bu'r Cymrodorion yn awyddus i ddathlu ei ganmlwyddiant oedd sefydlu Urdd Gobaith Cymru. I nodi'r achlysur hwnnw, yn y Cinio Gŵyl Ddewi, a gynhaliwyd yn yr Hen Dŷ Post, Sain Ffagan, cafwyd atgofion difyr gan Alun Guy o ddyddiau cynnar yr Urdd yng Nhaerdydd. Fe aeth nifer o'r aelodau ifanc y soniodd Alun amdanynt ymlaen i wneud cyfraniad pwysig i fywyd diwylliannol a gwleidyddol Cymru.




Y DINESYDD
Papur Pobl Caerdydd a'r Fro

# Atodiad Arbennig i Ddathlu'r 50 oed Ebrill 2023

## Cyfarchion oddi wrth rai o'n beirdd i ddathlu bod papur bro hynaf Cymru yn 50 oed

Ei wenith sy'n egino yn Gymraeg
ym mhridd ei lafurio
ac o'r felin ddiflino,
bara'r iaith ddaw'n bapur bro.

*Aron Pritchard*

Mae'n gostrel i ddiogelu – ein hiaith;
Mae'n rhodd hardd i'w rhannu;
Hwn yw teg drysor pob tŷ,
A dolen i'r holl deulu.

*Robin Gwyndaf*

Dawn y Cyfarwydd geir trwyddo, mor wir
i Gymraes a Chymro,
a'r iaith yn Gymraeg bob tro;
am hynny rwy'n dymuno
hir barhad i'r Papur Bro.

*Jim Parc Nest*

(Englyn Penhir yw enw Rhys Dafis ar y mesur.)

# Colofn G.R.

*"cafwyd pobl frwd i weithio'n wirfoddol dros y papur"*



Mae'r rhifyn hwn o'r *Dinesydd* yn rhifyn arbennig wrth i'r papur dathlu ei hanner canmlwyddiant ers ei sefydlu nôl yn Ebrill 1973 a hynny o ganlyniad i weledigaeth Merêd sef Dr Meredydd Evans odd yn gweithio i'r BBC yng Nghaerdydd ar y pryd. Arweiniodd sefydlu'r *Dinesydd* i eraill ledled y wlad fabwysiadu ei syniad a bellach mae degau o bapurau tebyg yn britho'r wlad.

Dros y blynyddoedd cafwyd pobl frwd i weithio'n wirfoddol dros y papur gan gynnwys y golygydd cyntaf sef Norman Williams odd yn byw yn Rhiwbeina ar y pryd. Wynebwyd sawl problem yn ystod bodolaeth *Y Dinesydd* ond daliwyd ati er gwaethaf popeth. Un hanesyn sy'n dod i'r cof yw pan y cyhoeddwyd nifer o erthyglau 'Dyddiadur y Dyn Dwad' gan yr awdur Dafydd Huws yn y papur a chythruddwyd nifer o bobl barchus y capeli Cymraeg yn y ddinas gan y cynnwys ac arweiniodd hyn at ymddiswyddiad y golygydd ar y pryd!

Bu'n anodd cael golygyddion parhaol o dro i dro gan fod y gwaith yn wirfoddol ac felly trawyd ar y syniad o benodi golygyddion misol i ysgafnhau'r baich ac mae'r cynllun yn dal mewn lle. Hefyd er mwyn creu diwyg mwy deniadol a modern cyflwynwyd lluniau lliw yn hytrach na'r lluniau du a gwyn a bellach mae'r papur yn edrych yn hynod broffesiynol diolch yn bennaf i waith Eirian Dafydd o fis i fis. Yn ystod y cloi mawr hyd yn oed llwyddwyd i gyhoeddi'r papur ac erbyn hyn ymddengys bod dyfodol *Y Dinesydd* yn ddiogel a hir y parhao i gofnodi hanes byrlymus y bywyd Cymraeg yn ein prifddinas a'r fro.

Yr unig siom yn ystod y dathlu ydy deall mai ychydig dan bum cant o bobl sy'n tanysgrifio i dderbyn *Y Dinesydd* o fis i fis er bod ymhell dros 40,000 o siaradwyr yr iaith yn byw yn y parthau hyn! Ydy hyn yn dangos mai arwynebol ydy Cymreictod llawer o bobl neu oes 'na reswm arall am y diffyg cefnogaeth i bapur bro hynaf Cymru? Beth bynnag ydy'r rheswm diolch o galon i'r ffyddloniaid sy'n mwynhau darllen cynnwys y papur o fis i fis.

Nôl ym mhumdegau'r ganrif ddiwethaf cafwyd rhagflaenydd i'r *Dinesydd* mewn gwirionedd odd yn gwasanaethu'r ddinas sef *Y Gaer* odd ar ffurf hanner maint papur ffwlsgap a'r golygydd odd gŵr o'r enw Carey Roberts. Dwy'n credu bod y papur hwn yn ffrwyth band un-dyn a daeth y papur i ben ar farwolaeth y Golygydd. Tybed oes rhywun yn gwybod mwy o hanes y gŵr hwn? Rhowch wybod. Cofiaf fy mam yn anfon *Y Gaer* ataf o fis i fis tra on i yn y fyddin ac on i wrth fy modd yn darllen y cynnwys. Cedwais i lawer o ôl rifynnau'r papur ac erbyn hyn maen nhw'n ddiogel yn Llyfrgell Prifysgol Caerdydd.

Yn ddiweddar cyhoeddwyd y byddai Trên Bach yr Wyddfa yn ail agor i ymwelwyr i'r copa yn y Gwanwyn ar ôl bod mwy neu lai ar gau yn ystod Cyfnod y Covid. Rheilffordd yr Wyddfa ydy'r unig reilffordd rac a phinion ym Mhrydain. Mae'n dechrau ym mhentref Llanberis ac yn esgyn i'r copa heibio gorsafoedd Hebron, Hanner Ffordd a Chlogwyn.

Agorwyd gwesty ar y copa yn 1936 ond ers 1939 dim ond lle i staff y caffi odd yno. Yn 2000 dymchwelwyd yr hen gaffi ar y copa ac adeiladwyd Canolfan Ymwelwyr newydd sbon ar y safle i groesawu'r holl ymwelwyr. Fe'i henwyd yn Hafod Eryri a chafwyd agoriad swyddogol i'r adeilad gan Rhodri Morgan, Prifweinidog Cymru ar y pryd ar y 12 o Fehefin, 2009.

Asheton Smith perchennog Chwarel Lechi Dinorwig odd yn gyfrifol am y cwmni a adeiladodd y rheilffordd. Torrwyd y dywarchen gyntaf i adeiladu'r rheilffordd gan ferch Asheton Smith a hynny ar y 15 o Ragfyr 1894. Yna, cafwyd agoriad swyddogol i'r rheilffordd ei hun ar Ddydd Llun y Pasg Ebrill y chweched yn 1896. Cyrhaeddwyd y copa yn ddiogel ond ar y ffordd lawr digwyddodd damwain a moelodd y trên wrth adael y cledrau. Neidiodd y gyrrwr a'r taniwr allan o'r injan mewn pryd ond lladdwyd un o'r teithwyr odd yn dod o Lanberis. Cafwyd ymchwiliad i achos y ddamwain cyn i'r rheilffordd ail agor yn Ebrill 1897.

Yn olaf y mis hwn rhaid canmol dau o bobl ifanc dawnus Cymru sef Alistair James o Lan Conwy ar gipio Tlws Cân i Gymru 2023 a gwobr ariannol o bum mil o bunnoedd. Canwyd ei gân fuddugol 'Patagonia' gan Dylan Morris a bydd Alistair a Dylan yn cynrychioli Cymru hefo'i gân yn yr Ŵyl Ban Geltaidd yn Iwerddon yn ystod y flwyddyn. Yna, enillwyd ysgoloriaeth Syr Bryn Terfel gwerth pedair mil o bunnoedd gan Mali Elwy o bentre bach Tanyfron ger Llansannan yn Sir Conwy sy'n astudio'r Gymraeg ym Mhrifysgol Bangor ar hyn o bryd. Nôl yn 2019 derbyniodd drawsblaniad aren gan ei brawd Morgan Elwy a enillodd Cân i Gymru yn 2021 hefo'i gân reggae 'Bach o Hwne'.

Pasg Hapus i bawb a phen-blwydd hapus i'r *Dinesydd* wrth ddathlu ei hanner can mlwyddiant y mis hwn.

# Pobol y Rhigwm

Ro'n i wedi gobeithio'n am gystadleuaeth gref ar gyfer rhifyn mor arwyddocaol o'r *Dinesydd* ac fe gafodd fy ngobeithion eu diwallu! Cafwyd cystadleuaeth gref o ran niferoedd a safon. Cyfyngwyd y rhigymwyr i ddau fesur penodol. Does dim lle i wyro o ran gofynion mydryddol y triban a'r englyn. Yn hynny o beth, gobeithio bod *Bargen* a *Gwerth yr Arian* yn deall – er iddyn nhw gyflwyno penillion sy'n hysbysebion hyfryd i'r *Dinesydd* – d'yn nhw ddim yn dribannau cywir. Mae angen gair diacen, yn ddiethriad, ar ddiwedd llinellau 1, 2 a 4 mewn triban. Fodd bynnag, ro'dd yn dda gweld odl gyrch lwyddiannus yn y naill ymgais a'r llall!

Dyma ddod at y rhai ar y brig a phan ddaw casgliad o safon uchel i law'r beirniad, mae'n rhaid wrth ychydig o hollti blew! Er bod tribannau *Penblwydd Hapus* a *Hen Foi Arall* yn fydryddol gywir ac yn eglur, mymryn yn herciog yw'r drydedd linell yn y ddau:

Hanesion y trigolion,
Newyddion o'r ysgolion,
Rhywbeth yna at ddant pob un,
Cytûn yw'r dinasyddion.
*Penblwydd Hapus*

Mae'n bleser canu clodydd
Wrth gyfarch y *Dinesydd*
Waeth nid gwaith hawdd i bapur bro
Yw uno yr holl froydd!
*Hen Foi Arall*

Cafwyd triban diffuant o deyrnged gan *Carreg Filltir* sy'n darllen yn esmwyth iawn. Yr unig beth bach anffodus yw'r fannod o flaen *Dinesydd* yn y llinell glo, yn hytrach na 'chollnod r'. 'Sy'n llywio**'r** *Dinesydd*' sy'n gywir ac yn fwy naturiol, ond rhaid wrth y sill arall honno, wrth gwrs! Bydde rhywbeth tebyg i 'sy'n llywio ein *Dinesydd*' wedi gweithio.

Mae Cymru benbwygilydd
Yn diolch am y cynnydd
A wnaed gan dîm y Papur Bro
Sy'n llywio *Y Dinesydd*.
*Carreg Filltir*

Byddai englyn dyfeisgar *Dan S Grifwr* (ffugenw crafog!) ymhlith y tri uchaf oni bai am wall bach cynganeddol yn y drydedd linell. Cofier bod yn rhaid ateb pob clymiad cytseiniol o dan yr acen yn y gyfatebiaeth mewn cynghanedd Sain, yn union fel mewn llinell o gynghanedd Groes neu Draws. Yn 'cle**br**an' 'br' sy o dan yr acen ond dim ond 'b' sy ar ddiwedd 'clwb'. Trueni, yn enwedig wrth ystyried bod *Dan S Grifwr* wedi clymu'r 's' yn 'wythnos' wrth y 'b' yn 'bob' i greu cynghanedd Lusg drawiadol yn y llinell gyntaf. Mae yma englynwr medrus.

Cawl tair wythnos bob sosban – y cennin
Sy'n cynnal ymddiddan,
Mae'n rhoi hwb i'n clwb clebran
A erys mewn Llys a Llan.
*Dan S Grifwr*

Mae'r bar wedi'i osod yn uchel ac fe all y tri ar y brig ymfalchïo yn eu llwyddiant. Triban gweddus, wedi'i saernïo â gofal sy gan *Ymlaen*. Yn ogystal â bod yn gynnil-ddarllenadwy a sownd ei Gymraeg, mae triban *Ymlaen* yn defnyddio'r dechneg lwyddiannus o hollti'n ddwy ran, y gynta'n cydnabod yr hanner canrif a'r ail yn edrych tuag at y 'pumcant' (sylwer, bod *Ymlaen* yn bwrpasol wedi defnyddio'r gair diacen 'pumcant' yn unol â gofynion y mesur). Rhifyn pum cant, o bosib? Neu bum can mlynedd arall o'r *Dinesydd*? Ni waeth am hynny, mae'n driban ardderchog:

Dymuniad teg am lwyddiant
ar ddathlu'ch pumdeg mlwyddiant.
Mewn chwinciad byr i'n papur bro,
daw'r tro i ddathlu pumcant.
*Ymlaen*

Triban *Hen Foi* ddaeth â'r wên lydanaf i'm wyneb. Mae'r naratif tafodieithol yn hawlio'i le ac yn darllen yn ddiymdrech (mae'n anodd cyflawni hynny!). Mae'n gynnig ysgafnach na'r gweddill ond wedi llwyddo'n rhagorol i dalu teyrnged mor briodol i'r papur bro hwn. Mae hynny'n gamp a'r cam creadigol gwahanol, ychwanegol hwnnw sy'n peri bod ymgais *Hen Foi* yn sefyll allan, ac mor agos at y copa.

Ie, hanner cant eleni
Ond does dim dowt amdani –
Er gwaetha'i oed mae'n papur bro
Yn effro ac yn heini.
*Hen Foi*

Does dim amheuaeth mai englyn rhagorol *Olwyn* sy'n teilyngu'r wobr gyntaf. Mae'n englyn gorffenedig sy'n dangos gofal ac ôl myfyrio ac mae yma barch at y cyfrwng. Dyma rywun sy'n amlwg yn siŵr o'i grefft, yn gynganeddwr medrus ac yn gwybod yn union pa dechnegau sy'n gwneud englyn llwyddiannus. Fel yn nhriban *Ymlaen*, mae dau ran i'r englyn hwn. Yn y paladr (y ddwy linell gynta), myfyrio am hyd a lled cyfnod o hanner canrif wna *Olwyn* (gyda chwip o linell agoriadol, trawiad y bydde'r beirniad ei hun wedi hoffi ei fathu!). Yn yr esgyll (y ddwy linell olaf), mae'n canu clodydd hirhoedledd y *Dinesydd* a'r ffaith bod y papur yn dal i fod mor ffres ag erioed, gyda llinell glo sy'r un mor gadarn â'r llinell agoriadol. Mae'r gynghanedd yn glodwiw. Mae 'na gynghanedd Groes o gyswllt rhwng y cyrch a'r ail linell, ac mae hi'n 'gynghanedd Sain Alun' yn ogystal! Yn nghynghanedd Sain y drydedd linell, wedyn, mae'r clymiad cytseiniol dwbwl yn '**Fr**o' yn cael ei ateb yn ddiymdrech yn y dilyniant cytseiniol '**f**e **r**ydd'. Mae'r cyfan yn cyd-blethu'n rhwydd ac wedi'i fynegi'n goeth. Llongyfarchiade mawr i *Olwyn* ac os nad yw e eisoes yn gwneud, dyma'i gymell i bori drwy restrau testunau Eisteddfodau am gystadlaethau cyffelyb!

Hanner cant, rhy hen i'r co' – rhif ar rif
o'r wasg wedi rholio.
O Gaerdydd, fe rydd i'r Fro
newyddion heb heneiddio.
*Olwyn*

Testun balchder mawr i'r *Dinesydd*, felly, yw bod y rhifyn dathlu wedi cymell teyrngedau barddol o safon. Pleser oedd beirniadu'r gystadleuaeth hon, a dyma drosglwyddo fy llongyfarchion innau hefyd ar gyrraedd hanner canrif ac am barhau i fod yn un o gongolfeini bywyd Cymraeg a Chymreig ein prifddinas.

*Aron Pritchard*

**Enillydd Mawrth**

## Alan Iwi

### Cystadleuaeth mis Ebrill / Mai

**Pennill, heb fod dros pedair llinell: Archfarchnad**

*Anfonwch eich cynigion erbyn* ***22 Mai*** *at:*
*eirianagwilym@gmail.com*
*Gwobr: Tocyn llyfr: £10*

# DATHLU'R 50

"Ddoi di allan am ginio 'da fi fory?" Sgwn i be fydda 'di digwydd petawn i wedi ateb trwy ddeud "Na, dim diolch Merêd, dwi newydd briodi, dwi'n trio ymdopi efo fy swydd gynta' ers gadael Coleg, a'r peth dwytha dwi isio'i neud ydi ymhél â chyhoeddi papur newydd unwaith eto!!"

Yn anffodus nid fel yna y bu gan nad oedd Merêd yn un y gellid ei wrthod yn rhwydd.

Ychydig ddyddiau cyn yr alwad yma, casglodd y Dr Meredydd Evans, oedd yn Bennaeth Adran Adloniant Ysgafn BBC Cymru ar y pryd, griw at ei gilydd i drafod cyhoeddi papur newydd Cymraeg i wasanaethu Caerdydd a'r maestrefi cyfagos. Mewn cyfarfod o'r fath mae'n nodwedd Cymreig wrth rannu dyletswyddau, i enwi unrhywun nad oedd yno, fel un hynod addas i ysgwyddo baich nad oedd neb arall yn awyddus i'w gyflawni. Roedd y sawl grybwyllodd fy enw yn ddigon digywilydd i'm ffonio y diwrnod canlynol i'm rhybuddio o'r alwad arfaethedig !!

Credaf mai rhywle yn Nociau Caerdydd y digwyddodd y cyfarfod, nid am unrhyw resymau amheus, ond gan mai yno yr oedd swyddfa Gwasg Prifysgol Cymru, sef fy nghyflogwr cynta erioed, ag eithrio Butlins Pwllheli!!! Fy 'nhictacs' oedd ceisio llethu brwdfrydedd Merêd yn ei fabandod. "Nefar in Ewrop" y byddai'n ymarferol bosib i Gaerdydd gynhyrchu a gwerthu papur newydd Cymraeg. Rhestrais yr holl ddadleuon negyddol, y costau tebygol, y gwerthu, y dosbarthu, cyndynrwydd gwirfoddolwyr ac ati, ag ati. Eisteddais yn ôl gan dybio bod y frwydr drosodd ond ymateb Merêd oedd cyhoeddi'n falch ei fod wedi darganfod yr union berson i arwain y pwyllgor!!

Dyma fersiwn Merêd o'r cyfarfod hwnnw gyhoeddwyd yng nghanfed rhifyn *Y Dinesydd* yn 1983 ond mae'n cychwyn trwy son am y cyfarfod cyntaf un. "Gelwais gyfarfod yn 81 Shirley Rd ar nos Sul Mehefin 24ain 1972. Ni ddaeth ond rhyw ddeg ynghyd. …Cafwyd trafodaeth gyffredinol iawn. Cefnogol ddigon. Yn ffodus cyfeiriodd Gareth Lloyd Williams at enw Norman Williams. Euthum ati i gysylltu ag o ar unwaith a'i gael yn fwy brwdfrydig nag unrhyw berson arall y gwyddwn amdano."

Wrth lunio'r erthygl yma heddiw, ac wrth hel meddyliau o safbwynt rhywun sy'n hŷn (hen taswn i'n fodlon cyfaddef) rydwi'n cywilyddio braidd wrth ystyried cyn lleied wyddwn i am y dyn oedd gyferbyn â mi y diwrnod hwnnw. I mi, roedd yn Bennaeth Adran (ddisglair iawn) Adloniant Ysgafn y BBC, roedd o'n aelod o Driawd y Coleg a'i lais hyfryd o oedd y chwadan yn Mw Mw, Me Me, Cwac Cwac. Dyna i mi, hyd a lled yr hyn a wyddwn amdano, ond peidiwch â bod yn rhy feirniadol, gan mai ifanc iawn o'n i, a gallu unigryw Merêd oedd eich perswadio mai chi oedd y doetha ymysg dynion, a buan y dysgais inna wrth ddilyn gyrfa fod tacteg Merêd yn un effeithiol iawn.

Ysgrifennwyd llawer yn y gorffennol am y broses o gyhoeddi'r *Dinesydd*, gan gynnwys erthygl gen i yn y gyfrol ardderchog *Merêd - Dyn ar Dân* dan




olygyddiaeth ei ferch Eluned Evans a Rocet Arwel Jones. Darllenwch y gyfrol er mwyn gwerthfawrogi cyfraniad aruthrol Merêd i'n diwylliant a'n iaith.

Datblygodd 44 Heol y Nant Rhiwbeina, cartref cynta Olwen a finna, yn fan cyfarfod rheolaidd i'r rhai osododd sylfeini'r *Dinesydd* o fis Awst 1972 tan i'r rhifyn cynta gael ei gyhoeddi yn Ebrill '73. Cyfnod cyn e-bost, ffonau symudol, a'r rhyngrwyd a chyn ffacsio, tecstio a swmio. Rhaid oedd dibynnu ar yr hen draddodiad Cymreig o alw pwyllgor. Cofiaf yn dda un o'r pwyllgorau cynnar yn trafod pa rannau o'r Brifddinas oedd yn haeddu gohebydd penodol. Rhestrwyd yr ardaloedd amlwg hynny megis Cyncoed, yr Eglwys Newydd, Rhiwbeina ag ati, ond pan lefarodd y diweddar Ddr Harri Pritchard Jones y gair Splot parlyswyd y cyfarfod am eiliad cyn i un neu ddau o'r aelodau ebychu ar y cyd - "Splot!!?"

Yn ei ddull dihafal ei hun, rhybuddio'r cyfarfod o beryglon canolbwyntio'n ormodol ar agweddau dosbarth canol oedd Harri, a bu hynny'n bryder personol i mi weddill fy nghyrfa wrth ymhél â'r Celfyddydau ac yn ddiweddarach ym myd radio a theledu. Rhaid i'r iaith fod yn berthnasol i bawb.

Rhan o'm cyfrifoldeb yng Ngwasg y Brifysgol oedd gweinyddu Grant y Llywodraeth (Brydeinig) i noddi cyhoeddi llyfrau Cymraeg. Nid pawb oedd yn gefnogol i dderbyn nawdd y Llywodraeth ond roedd y rhelyw o'r cyhoeddwyr yn ei groesawu a rhai yn orddibynnol arno. Byddai ceisiadau am grantiau'n cael eu cyflwyno gerbron pwyllgor arbennig o Wasg y Brifysgol - academyddion yn bennaf - a'r nawdd yn cael ei rannu ar sail rhagoriaeth unigol yn hytrach nac ar weledigaeth o anghenion darllen Cymry Cymraeg o bob oedran a chwaeth, o'r *News of the World* i'r *Times*, o'r Limrig i'r Hir a Thoddaid.

Rhwystredig iawn i mi ar y pryd oedd gweld y diffygion amlwg yn y ddarpariaeth. Byddai ymweliad â Siop Lear's yng Nghaerdydd yn cadarnhau pryderon am yr argyfwng a wynebai'r farchnad lyfrau Cymraeg. Lle'r oedd y llyfrau plant a phobol ifanc? Be am nofelau a chylchgronnau poblogaidd? Oedd mwyafrif y genedl yn dymuno cynganeddu? Wrth gwrs nid dyna oedd cyfrifoldeb Gwasg y Brifysgol ond rydwi'n grediniol fod dyfodiad y papurau bro wedi creu deffroad arweiniodd, ymhen ychydig flynyddoedd, i'r Cyngor Llyfrau Cymraeg dderbyn cyfrifoldeb am ddefnyddio nawdd y Llywodraeth i greu gweledigaeth ynglyn â gwir anghenion darllenwyr y Gymraeg a gosod y blaenoriaethau ar sut i gyflawni hynny.

Bu'r misoedd cyn cyhoeddi rhifyn cynta'r *Dinesydd* yn rhyfeddol o brysur gyda'r Is-Bwyllgorau gwahanol yn canolbwyntio ar ddosbarthu, hysbysebu ac ymgyrchoedd codi arian a'r Panel Golygyddol yn canolbwyntio ar y problemau ymarferol o gasglu newyddion ag ati, ond yn bwysicach fyth i drefnu'r cysodi a'r argraffu. Unwaith eto rhaid atgoffa'r darllenwyr o gyfyngiadau'r cyfnod wrth gyfeirio at argraffu. Rhaid oedd teipio pob stori ac erthygl, rhaid oedd cywiro cysodi'r argraffydd, roedd creu lluniau yn broses gymhleth o'i gymharu â heddiw.

Daeth y cyfan i benllanw yn Ebrill 1973 gyda chyhoeddi'r rhifyn cyntaf. Wrth edrych arno heddiw mae'n edrych braidd yn hen ffasiwn, ond llwyddodd stori'r newyddiadurwr go iawn, Vaughan Hughes, am y bwriad i chwalu dau o gapeli Cymraeg Caerdydd, er mwyn datblygu canol y ddinas yr ymateb perffaith i rifyn cyntaf. Erbyn y trydydd rhifyn cafwyd ymateb chwyrn gan neb llai na Saunders Lewis gyda'i erthygl 'Fandaliaeth Swyddogol'. Cafwyd ymateb cadarnhaol iawn ledled Cymru i ymddangosiad *Y Dinesydd*, ag eithrio Vincent Kane, a ofynnodd i mi ar *Good Morning Wales* os mai papur *perforated* oedd o!! Doeddwn i fawr o feddwl y byddai sylw gennyf yn Y Golygyddol yn nodi "fe ddylid cael rhwydwaith o bapurau lleol Cymraeg drwy Gymru gyfan" yn cael ei wireddu o fewn ychydig flynyddoedd. Ar un adeg cyhoeddwyd dros 50 o wahanol bapurau a hynny ymhob cwr o Gymru gan greu chwyldro yn y nifer a ddarllenai'r Gymraeg yn rheolaidd

*Norman Williams*

## Atgofion Merched Shân Emlyn

Diolch i bapur bro'r *Dinesydd*, mae'r ddwy ohonon ni wedi bod yn dwyn atgofion am flwyddyn sefydlu papur bro cyntaf Cymru yn 1973. Roedd Mari bryd hynny yn ddisgybl yn Ysgol Bryntaf (yr unig ysgol Gymraeg yng Nghaerdydd ar y pryd!) ac Elin newydd ddechrau yn Ysgol Gyfun Rhydfelen ac wedi dechrau swnian am gael pâr o sgidiau platfform i fynd efo'i jîns fflêrs!

Yn fyd-eang, bu datblygiadau mawr ym maes cyfathrebu yn ystod 1973. Ym mis Ebrill y flwyddyn hon mae'n debyg y gwnaed yr alwad ffôn cyntaf yn Efrog Newydd ar *handheld portable telephone*!

Mae'r ddwy ohonon ni'n cofio'r ffôn deial glas a'i gordyn cyrliog oedd gennon ni yng nghyntedd ein cartref ym Mharc y Rhâth. Mawr fu'r chwerthin wrth gofio pa mor wahanol y byddai'r pedwar ohonon ni'n ateb y ffôn a'n harddull gyfathrebu'n adrodd cyfrolau amdanom bryd hynny: Byddai Dad yn swyddogol iawn yn ateb: 'Owen Edwards'; Mam yn glynu at unrhyw Gymreictod posib gan ateb: 'Coed y Pry', Elin yn ei chyfnod monosylabaidd arddegol yn ateb: 'Helo' a Mari, oedd ag uchelgais i fod yn actores yn ateb: 'Saith pum un pedwar chwech naw, pwy sy'n siarad os gwelwch yn dda?'!

Ac wrth i'r ddwy ohonon ni hel atgofion dyma gofio'n annwyl am Mam, Shân Emlyn. Er i Mam roi'r gorau i'w gyrfa fel cantores i'n magu ni, peidied â meddwl am eiliad iddi fod yn segur; bu'n hynod o weithgar ar ran mudiadau Cymraeg y Brifddinas.




Cyfnod oedd hwn cyn Radio Cymru nag S4C a ninnau ar fin ffrwydrad ym maes cyfathrebu byd-eang. Ella bod gawlad ffôn ar ffôn symudol yn gam sylweddol yn Efrog Newydd yn Ebrill 1973, ond camau cawr yn y maes hwn yng Nghymru oedd sefydlu papur bro cyntaf Cymru yn Ebrill '73 a hynny, nid yng nghadarnle'r Gymraeg yng Ngwynedd, ond yng Nghaerdydd! Roedd Mam yn allweddol yn y dechreuad hwnnw gan fod yn Olygydd ac yn Golofnydd hyd at ei marwolaeth bum mlynedd ar hugain yn ddiweddarach.

Mae'r ddwy ohonon ni'n cofio criwiach o bobl weithgar wirfoddol o bob cwr o'r brifddinas yn dod ynghyd i Goed y Pry bob mis a stribedi o bapur yn gonffeti ar hyd y gegin wrth i bawb gydweithio i roi'r papur i'w wely. Bum mlynedd wedi sefydlu'r *Dinesydd*, daeth yr Eisteddfod Genedlaethol i gaeau Pentwyn yng Nghaerdydd. Mentrodd criw bach *Y Dinesydd* ar y dasg epig o gyhoeddi rhifyn dyddiol o'r papur bro yn ystod yr Eisteddfod honno!

A dyma dalu teyrnged fach felly i Mam a holl wirfoddolwyr *Y Dinesydd* ar waith mor allweddol. Storiâu Cymraeg o'r gymuned i'r gymuned ydi ein papurau bro, ac mae'n ddigon posib mai dyma'r unig Gymraeg mae rhai yn ei darllen o un pen y mis i'r llall. Diolch i'r *Dinesydd* ac i bob papur bro arall a sefydlwyd yn ei sgil am yr holl waith. Awn ymlaen i rannu straeon Cymraeg ein cymunedau am yr hanner canrif nesaf.

*Mari Emlyn ac*
*Elin Edwards*

# Y Dinesydd - Cofio'r 80au

Anodd credu bod deugain mlynedd wedi mynd heibio ers pan oeddwn yn Ysgrifennydd *Y Dinesydd*. Roedd yr 80au yn gyfnod prysur, cyffrous a byrlymus yn hanes *Y Dinesydd*. Fel Ygrifennydd, roeddwn yn gyfrifol am deipio'r holl ddeunyddiau mewn colofnau ar fy hen deipiadur; doedd dim sôn am gyfrifiadur. Doedd derbyn deunyddiau ddim yn broblem o gwbwl. Roedd digonedd o ddigwyddiadau yn digwydd leded y ddinas a phawb yn fwy na pharod i gyfrannu i lenwi tudalennau'r papur.


Cen Williams

Bob mis wedyn, mynd efo fy nheipiadur 'portable' i gyfarfodydd 'gosod' y papur – nosweithiau llawn hwyl a chwerthin gyda chriw mor frwdfrydig dros y papur a'r Gymraeg yng Nghaerdydd. Byddem yn cyfarfod yn nhai ein gilydd – aelodau'r pwyllgor, efo'n sisyrnau a'r 'cowgum' enwog! Byddai bwrdd y gegin dan ei sang. Torri'r colofnau o ddeunyddiau a'u glynu ar fyrddau i ddrafftio ffurf y papur ar gyfer yr Argraffwyr – Fingerprints yn Ffordd Penywain yr adeg honno. Os byddai unrhyw wagle y byddai'n rhaid ei lenwi, cyfansoddi'r deunydd yn y fan a'r lle a phawb efo syniadau gwahanol ond yn gytûn beth ddylid ei gynnwys yn y diwedd. Mae'n siwr bod llawer o drwynau'n cosi o gwmpas y ddinas ar y nosweithiau hynny!! Oedd, roedd noson y 'gosod' yn llawer mwy o waith nag ydyw y dyddiau hyn ond gyda llawer mwy o hwyl.

Wrth feddwl am y cyfnod, daw hiraeth am y criw, bob un ohonynt bellach wedi ein gadael – Raymond Edwards, Gwyn Lewis Davies (Ab Lewysyn oedd yn gyfrifol am y croeseiriau), Shân Emlyn, Mallt Anderson, Nia Hall Williams, Havard Gregory, Meredydd Evans, John Albert Evans, a'r 'capten', Cen Williams. Arwyr i gyd a braint oedd cael cydweithio â nhw.

Er bod y cyfnod hwn yn dra gwahanol a'r adnoddau wedi newid, rwy'n hollol sicr y byddai y cyfan ohonynt yn falch iawn ac yn werthfawrogol o waith diflino a dyfalbarhad yr aelodau presennol sy'n sicrhau fod dyfodol Y Dinesydd yn gwbwl ddiogel. Diolch i chi i gyd.

*Nans Couch*


Shân Emlyn

# Atgofion Cadeirydd o'r Nawdegau

Cyfnod cyffrous oedd canol y 90au i'r *Dinesydd* ond rhywfaint o bryder hefyd am sut i gadw'r cwch rhag suddo. Byddwn innau'n cyfrannu erthyglau rheolaidd, un o dan y ffugenw "Prociwr".

Roedd yn gyfnod o newid mawr yn ein prifddinas, yng Nghymru ac ym Mhrydain. Cynlluniau gan y Llywodraeth Doriaidd i ddileu'r hen gynghorau yn cynnwys De Morgannwg a chreu 22 o gynghorau unedig yng Nghymru, yn cynnwys cynghorau newydd Caerdydd a Bro Morgannwg, a sefydlwyd yn 1996. Roedd Etholiad Cyffredinol San Steffan ar y gorwel ac etholwyd Llywodraeth Lafur gyda mwyafrif ysgubol o dan Tony Blair yn 1997 wedi 18 mlynedd o lywodraethau Toriaidd.

Mae'r cyd-destun yn bwysig. Bu'r *Dinesydd* yn rhoi llais dros fwy o hawliau ac amlygrwydd i'r Gymraeg o'r cychwyn cyntaf ac yn y cyfnod yma aethon ni gam ymhellach ac yn fwy gwleidyddol gydag "g" fach. Hynny wrth alw ar y Cyngor i ddangos arweiniad i weddill y genedl a chefnogi sefydlu Senedd yn ein prifddinas i wneud Caerdydd yn brifddinas go iawn, fyddai'n hybu'r Gymraeg a'r economi leol. Daeth hyn yn rhan o'r maniffesto Llafur cyn etholiad 1997.

Yr ymgyrch arall oedd pwyso am sefydlu ail Ysgol Uwchradd Gymraeg a'r pennawd ar dudalen flaen rhifyn Mawrth 1995 oedd "Glantaf yn Gorlenwi". Beirniadwyd y Cyngor Sir yn hallt am eu diffyg cynllunio. Wrth weithio gyda'r mudiad Rhieni Dros Addysg Gymraeg cawson ni sgwp. Datgelodd y Sir, o dan bwysau, eu cynlluniau cyfrinachol i sefydlu Ysgol Plasmawr. Roedd brys aruthrol cyn i niferoedd Glantaf fynd dros 2,000 - hi fyddai'r ysgol fwyaf yng Nghymru! Daeth trydedd ysgol i'r Fro hefyd yn y man a Bro Edern yn fwy diweddar ac mae sôn am bumed ysgol cyn bo hir eto.

Oedd mi roedd o'n gyfnod cyffrous a chwch y Dinesydd yn hwylio'n hyderus o'r 90au i'r Ganrif Newydd.

*John Rowlands*

# Yr Her, yr Abswrd, a'r *Dinesydd*

Ar fin dathlu'r 20 oedd *Y Dinesydd* pan wnes i ddod yn rhan o'r gwaith o gyhoeddi'r fenter, a'r *Dinesydd* wedi bod yn rhan bwysig o ddiwylliant Cymraeg yn y ddinas yn ystod fy arddegau. Ond roedd Gwanwyn 1991 yn gyfnod o greisis i'r *Dinesydd* -- costau cynhyrchu misol o tua £1,500, incwm bychan (papur am ddim i'r darllenwyr oedd hwn, wrth gwrs), a'r cyhoeddwyr ar y pryd wedi dweud digon oedd digon.



y Dinesydd

CYLCHGRAWN NEWYDDION CYMRAEG CAERDYDD

5 MAWRTH 1993 RHIF 191 65c I NI – AM DDIM I CHI

**Sefydlu darpariaeth Gymraeg newydd i hoywon Caerdydd**

**Sefydlwyd cangen gyntaf mudiad cenedlaethol i bobol hoyw yng Nghaerdydd ar 20 Chwefror.**

**LLYFR ANEIRIN I ADAEL CAERDYDD?**

*Adroddiad, tudalen 3*

*Parhad tudalen 4*

Doedd dim sicrwydd y byddai modd cyhoeddi rhifyn Mai 1991. Ond roeddwn i newydd sefydlu cwmni cyfryngol Surrexit Creadigol ac (er gwell, er gwaeth) fe wnes i gamu i'r adwy i helpu trefnu'r cyhoeddi. Dyna ddechrau dwy flynedd o ymdrech barhaus a diflino fel cyhoeddwr *Y Dinesydd*. Sicrhau incwm digonol i argraffu 4,000 o gopïau oedd yr her bob mis, a daeth Catrin Lloyd Rowlands i gynnig ei help i wneud y gwaith diflino o lenwi tair tudalen o hysbys ym mhob rhifyn. Aed ati i geisio annog cefnogwyr i danysgrifio, lledaenu trwch y darllenwyr, a chodi proffil marchnata'r *Dinesydd*.

Yr uchelgais oedd ehangu'r ddarpariaeth newyddion, adlewyrchu diddordebau mwy o gymunedau Cymraeg Caerdydd, cadw'r tua 10,000 o ddarllenwyr bob mis a denu darllenwyr newydd. Cafwyd rhifynnau clawr lliw arbennig ar gyfer y Nadolig a Gŵyl Ddewi; cystadlaethau; patrymau gwau; newyddion am wahardd y Gymraeg gan fusnesau; ymgyrchoedd Cymdeithas yr Iaith; datblygiadau busnesau Cymraeg; twf addysg; a cholli'r Gymraeg ar Radio'r Ddraig Goch.

Un o straeon mawr Mawrth '93 oedd syniad yr aelod seneddol Rhodri Morgan o werthu *Llyfr Aneirin* -- y llawysgrif sy'n cynnwys cerdd hynaf y Gymraeg, *Y Gododdin* -- sy'n berchen i Lyfrgell Caerdydd. Ond collwyd y stori bwysig honno ynghanol y twrw am y stori arall ar dudalen flaen y rhifyn, sef am sefydlu cymdeithas hoyw Gymraeg.

Penderfynodd y Tabernacl wahardd dosbarthu'r *Dinesydd* oherwydd y stori, a lleisiwyd rhagfarnau go hyll gan rai o aelodau'r capel wrth i'r stori gyrraedd rhaglen *Newyddion* S4C. Wrth i glawr y rhifyn dadleuol hwn gael ei ddangos ar y teledu -- y pennawd *Sefydlu darpariaeth Gymraeg newydd i hoywon Caerdydd* yn fras ac yn eglur, a llun islaw o Ieuan Edwards, Llyfrgellydd Caerdydd, yn wên o glust i glust yn dal *Llyfr Aneirin* ar gyfer stori Rhodri Morgan -- roedd gosod y ddwy stori fawr ar y dudalen flaen yn taro rhywun fel cyferbyniad go abswrd.

Ond gwaharddiad gan y Tabernacl neu beidio, roedd rhifyn mis Mawrth '93 hefyd yn nodi bod fy nghyfnod i, ar ôl dwy flynedd gynhyrchiol, heriol, er yn llawn boddhad fel cyhoeddwr *Y Dinesydd*, yn dirwyn i ben. Rhifyn mis Ebrill y flwyddyn honno -- rhifyn yr 20fed penblwydd -- fyddai'r ola i mi ei gynhyrchu… a galwodd pwyllgor *Y Dinesydd* gyfarfod cyhoeddus arall er mwyn mapio'r llwybr drwy greisis arall heb gyhoeddwr.

*Alun Ceri Jones*

# Atgofion Dysgwr o Eisteddfod Caerdydd 1978

Ni fydda i - ni fydd unrhyw un yn y ddinas, rwy'n sicr – byth yn anghofio'r Brifŵyl yng Nghaerdydd. Ond na, dydwi ddim yn sôn am Eisteddfod 2018 yn y Bae ond ei rhagflaenydd ym Mhentwyn ym 1978. Dim ond tai sydd ar y safle nawr. Roedd *Y Dinesydd* a gyhoeddwyd yn feunyddiol yn ystod yr Ŵyl, yn ei blentyndod o hyd.

Fi oedd newyddiadurwr Evening Post Abertawe a anfonwyd am yr wythnos lawn, ac mae'r toriadau o'r papur yn dal yn fy meddiant mewn llyfr lloffion llychlyd. Bob dydd '*Stephen Bale reports from Cardiff*' ar ben tudalen *broadsheet* llawn- moment bwysig ar ôl gyrfa 28 mlynedd fel gohebydd rygbi yn Fleet Street.

Erbyn hyn mae'r Eisteddfod yn ymddangos yn dawelach, ond ar y pryd roedd protestiadau swnllyd ddydd ar ôl dydd - o blaid sianel deledu Gymraeg, yn erbyn British Rail, a llawer mwy, un hyd yn oed yn erbyn prisau coffi a the. Dyma beth oedd gan Dr Margaret Evans, aelod o gyngor yr Eisteddfod, i'w ddweud ar y pwnc: *'Pan dych chi'n meddwl bod coffi ar y Maes yn costio 16p, te 12p, byrgyr 45p, sgod a sglods 75p, mae'n amlwg bod rhywbeth o'i le,'* meddai hi. O diar. Tybed beth oedd cost y pethau yma erbyn i'r Eisteddfod ddychwelyd i'r ddinas bedwar degawd yn hwyrach?

*Steven Bale*

# Argyfwng! Argyfwng! Argyfwng!

Gofynnwyd imi ysgrifennu am fy nghyfnod yn Gadeirydd pwyllgor *Y Dinesydd* rhwng 1996 a 2006, ac wrth edrych yn ôl dros y cyfnod hwnnw, un o'r geiriau cyntaf a ddaw i'r meddwl yw 'argyfwng'. Rwy'n parhau yn aelod o bwyllgor *Y Dinesydd*, a gellid dweud yr un peth am dipyn o'r cyfnod rhwng fy nghadeiryddiaeth i a heddiw. A dyna sy'n wir hefyd, o ran hynny, am hanes *Y Dinesydd* rhwng y dechreuadau yn 1973 a 1996, oherwydd wynebu argyfwng ar ben argyfwng fu hanes y papur erioed!



Argyfwng, yn wir, sy'n gyfrifol fy mod wedi ymuno â phwyllgor *Y Dinesydd* yn y lle cyntaf, a hynny yn Ebrill 1993. Ond cyn mynd ymhellach, mae'n werth cymryd ambell gam tuag yn ôl.

Roedd dechrau'r 1990au yn gyfnod arbennig o ansefydlog yn hanes y papur. Fel sy'n ddigon hysbys, dechrau cyhoeddi'r *Dinesydd* yn 1973 oedd blaenffrwyth datblygiad hynod bwysig yn hanes y Gymraeg a'i diwylliant yn chwarter olaf yr ugeinfed ganrif, sef y ffrwydrad o bapurau bro a welwyd yn y cyfnod hwnnw ac a ddisgrifiwyd fel 'gwyrth y ganrif'. Erbyn diwedd 1978, roedd 38 papur bro wedi eu sefydlu, ac erbyn 1993 roedd 54 ar gael, gydag amcangyfrif o dros chwarter miliwn o ddarllenwyr rhyngddynt. (Fe gewch y manylion ym mhennod Gwilym Huws yn y gyfrol *Gwarchod y Gwreiddiau*, gol. Rheinallt Llwyd.)

Datblygiadau technolegol ym myd argraffu oedd un o'r pethau a ganiataodd y ffrwydrad hwnnw. Yn lle defnyddio cysodwyr proffesiynol i greu tudalennau o deip metel, roedd modd yn awr dorri'r costau'n sylweddol trwy gael pobl i deipio'r testun ar bapur a'i droi yn dudalennau yn barod i'w hargraffu trwy ddefnyddio siswrn a glud. Ac yn achos *Y Dinesydd*, bu'r papur yn hynod ffodus o gael am lawer blwyddyn wasanaeth y dylunydd dawnus, Cen Williams – 'Cen Cartŵn' – i osod y tudalennau ar eu ffurf derfynol. (Bu Cen yn gyfaill triw iawn i'r *Dinesydd* o'r dechrau'n deg hyd at ei farw o effaith Covid-19 yn 2020: byddai'n dda, yn wir, weld cyhoeddi casgliad o'i gartwnau a ymddangosodd yn *Y Dinesydd* a mannau eraill.)

Dyma'r olygfa ar 'Noson y Gosod' fel y'i darluniwyd gan Gadeirydd pwyllgor *Y Dinesydd* ar y pryd, sef y cyflwynydd teledu Robin Jones, mewn erthygl yn rhifyn olaf y papur am 1989:

> 'Am rai dyddiau pob mis mae fflat y Golygydd, Shân Emlyn, sydd fel arfer fel pin mewn papur, yn debycach i 'stafell drannoeth ffair sborion, ac anodd fyddai dod o hyd i bin yn y papur, hefo sgriptiau ac erthyglau yn gorchuddio pob modfedd sgwâr, a hithau efo Cen Williams a Nia Hall Williams ar eu gliniau […] yn gludo stribedi 8cm. o led ar ddarn o garbord mawr.'

Ond â Robin Jones yn ei flaen i egluro fod y gweithgarwch hwnnw bellach yn dod i ben, am fod y pwyllgor wedi gwneud 'penderfyniadau chwyldroadol' er mwyn cael diwyg 'mwy proffesiynol' i'r papur, trwy gytuno i gwmni dylunio a chysylltiadau cyhoeddus o'r enw Detheridge fynd yn gyfrifol am gysodi ac argraffu'r papur a gwerthu hysbysebion 'mewn trefniant masnachol newydd sbon'. Golygodd hynny godi costau cynhyrchu pob rhifyn o £500 i £2,000. Gwaetha'r modd, ni lwyddwyd i ddenu digon o incwm hysbysebu i gwrdd â'r costau ychwanegol hynny, ac fe dynnodd Detheridge allan o'r trefniant yn sydyn ym mis Mawrth 1991.

'Wele'r *Dinesydd* yn wynebu argyfwng', meddai'r Golygydd; 'un o lawer yn ein hanes dros y blynyddoedd.' Yn ffodus, fe gamodd Alun Ceri Jones o'r Eglwys Newydd (awdur y fersiynau Cymraeg o lyfrau 'Asterix') a'i gwmni Surrexit i'r adwy, a thrwy eu cymorth llwyddwyd i barhau i gyhoeddi'r papur. Ond esgorodd yr argyfwng ar drafodaethau dwys ynghylch dyfodol y papur, a gyrhaeddodd uchafbwynt adeg pen-blwydd *Y Dinesydd* yn ugain oed, pan gynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yng Nghlwb Ifor Bach ar 7 Ebrill 1993 i drafod dyfodol y papur.

Robin Jones a gadeiriodd y cyfarfod, gan esbonio fod y papur 'ar groesffordd' a bod rhaid wrth 'waed newydd' os oedd y papur i barhau. Mynegwyd gwerthfawrogiad o waith Shân Emlyn, a oedd yn rhoi'r gorau i olygyddiaeth *Y Dinesydd* ar ôl blynyddoedd lawer wrth y llyw, ac fe'i hanrhegwyd â llun yn cynnwys dyfyniadau o waith Saunders Lewis. Nid oedd neb o'r ugain a ddaeth ynghyd i'r cyfarfod am weld y papur yn darfod, a'r canlyniad fu ethol pwyllgor a gynhwysai gyfuniad o'r hen aelodau a rhai 'bugeiliaid newydd'.

Roeddwn wedi symud i fyw i Gaerdydd yn 1987, ac fe euthum i'r cyfarfod hwnnw yng Nghlwb Ifor Bach yn Ebrill 1993. Mae'r adroddiad o'r cyfarfod yn dweud: 'gwirfoddolodd nifer i ffurfio'r pwyllgor newydd'. Ond mewn gwirionedd, ni chefais fawr o ddewis! Ysgrifennydd pwyllgor *Y Dinesydd* ar y pryd oedd Mary Jones, un o gyfieithwyr y Swyddfa Gymreig (a chwaer y Prifardd Dic Jones). Roeddwn i ar y pryd yn gweithio ym myd cyhoeddi, ac ar ddiwedd y cyfarfod dywedodd Mary wrthyf yn garedig, ond yn ddiflewyn-ar-dafod, y dylwn i o bawb fod ar y pwyllgor oherwydd fy mhrofiad yn y maes hwnnw!

Nid am y tro cyntaf yn hanes *Y Dinesydd*, cafwyd anhawster i gael hyd i Olygydd, a'r diwedd fu i rai o'r pwyllgor, gan fy nghynnwys i, ymffurfio'n 'banel golygyddol'. Bu tipyn o drafod ynghylch natur cynnwys y papur a phwy a allai weithredu fel golygyddion a gohebwyr, ac yn y blaen, ac erbyn rhifyn Mawrth 1995, roedd y Cadeirydd erbyn hynny, sef John Rowlands – hen gyfaill coleg i mi, a oedd ar y pryd yn byw yn yr un stryd â mi yn yr Eglwys Newydd – mewn ffordd i gyhoeddi yn y papur enwau'r tîm golygyddol, sef W. J. Jones, Gwilym E. Roberts a minnau yn gyfrifol am newyddion ac erthyglau 'cyffredinol', gyda

Thomas Davies (o'r BBC gynt) yn gyfrifol am chwaraeon a B. D. (Beni) Harries yn gyfrifol am fyd addysg. Erbyn y rhifyn wedyn, un Ebrill 1995, ychwanegwyd enw arall at y tîm golygyddol, sef 'Gwilym Davies', i ofalu am newyddion o'r eglwysi; ac mae ef, dan yr enw 'Gwilym Dafydd' bellach, yn parhau i gyfrannu at sawl agwedd ar waith *Y Dinesydd*, gan gynnwys bod yn gyfrifol am golofn y 'siaradwyr Cymraeg newydd'.

Mae'n werth oedi am funud gyda W. J. Jones a Gwilym Roberts, a phwysleisio nad 'bugeiliaid newydd' mohonynt yn achos *Y Dinesydd* yn y 1990au. Yn wir, cyfrannodd y ddau erthyglau i'r rhifyn cyntaf un o'r papur yn Ebrill 1973.

Brodor o Geredigion oedd W. J. Jones (1928–2019), a ddaeth i Gaerdydd yn dilyn ei apwyntio'n ddarlithydd yn y Coleg Hyfforddi yng Nghyncoed. Roedd yn awdur toreithiog ac yn olygydd profiadol, ac nid rhyfedd felly iddo gael ei dynnu i mewn i fod yn un o'r tîm golygyddol o ddyddiau cynharaf *Y Dinesydd* ymlaen. Ef oedd arweinydd y panel golygyddol newydd yn nechrau'r 1990au, ac fe fu'n fawr ei fewnbwn golygyddol yn ystod fy nghyfnod yn Gadeirydd pwyllgor *Y Dinesydd*.


Y Dinesydd

Ebrill 2010 Rhif 346 | Papur Bro Dinas Caerdydd a'r Cylch | Pris: 80 ceiniog

Gorymdaith a Pharti i Ddathlu Gŵyl Dewi

Dathlwyd Gŵyl Dewi yn deilwng yng Nghaerdydd ar ddydd ein nawddsant pan ddaeth dros fil o bobl a phlant ynghyd o flaen Neuadd y Ddinas ym Mharc Cathays i orymdeithio yn fanerog lu drwy ganol y ddinas gan ddod i ben yn yr Ais lle siaradodd nifer o arweinwyr y ddinas gan ddiolch i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd. Gwelwyd cannoedd o bobl ar y strydoedd yn gwylio'r orymdeithio yn yr heulwen ac yn amlwg yn mwynhau'r achlysur. Yn yr hwyr trefnwyd achlysur arbennig yn Llyfrgell Ganolog y Ddinas gyda Côr Waun Ddyfal, Derec Brown a Dawnswyr Caerdydd.

Archesgob Cymru yn siarad yng Nghinio Cwlwm Busnes Caerdydd a'r Cylch

Wyn Mears, Cadeirydd y Cwlwm Busnes gyda Dr Barry Morgan.

Byddai canlyniad cadarnhaol mewn refferendwm yn beth da i'r byd busnes meddai Cadeirydd Cymru Yfory, Archesgob Cymru Dr Barry Morgan.
Roedd Dr Morgan yn siarad yng Nghinio Blynyddol Cwlwm Busnes Caerdydd a'r Cylch ar nos Iau 18 Mawrth yng Nghwesty'r Hilton Caerdydd o flaen 80 o Gymry Cymraeg y brifddinas.

Parhad ar dudalen 2

Gwobr Olivier

Llongyfarchiadau i Iwan Rheon o'r Eglwys Newydd ar ennill y wobr am yr actor ategol gorau mewn sioe gerdd yn Seremoni Wobrwyo Laurence Olivier. Cafodd ei enwebu am ei ran yn y sioe gerdd, Spring Awakening.

Llongyfarchiadau i dîm ffreutur Ysgol Glantaf ar ennill y wobr am Dîm Arlwyo Gorau Cymru!

Clwb Rygbi Ieuenctid Cymry Caerdydd yn noddi'r Dinesydd

Er bod Pwyllgor C.R.I.C.C. yn teimlo mai dyletswydd yw cefnogi papur bro Cymraeg Caerdydd, rydym hefyd yn ffodus ein bod â'r modd i wneud hynny, ac yn cael pleser o wneud. Gobeithio y bydd nifer o glybiau, cymdeithasau a mudiadau yn dilyn ein hesiampl ac yn fodlon noddi mewn cyfnod o newid i'r papur.
Fel mae'n digwydd, mae CRICC am fanteisio ar y cyfle i dynnu sylw at y ffaith ein bod yn dathlu pen-blwydd yn 20 oed ar ddiwedd y tymor. Bydd cinio'r dathlu yn cael ei gynnal yng Nghlwb Golff Radur ar nos Wener 21 o Fai. Os hoffech fod yn bresennol, ffowch ganiad i Dafydd ar 20 55 35 00 i weld os oes lle ar ôl.

***Ebrill 2010 y rhifyn cyntaf y bu rhaid codi tâl amdano***

Brodor o Gaerdydd, wrth gwrs, yw Gwilym Roberts, ac un o bileri bywyd Cymraeg y brifddinas ers blynyddoedd lawer. Erbyn rhifyn Medi 1995, wrth ei restru yn aelod o'r panel golygyddol, yn lle dweud fel yn y rhifynnau blaenorol y dylid anfon 'newyddion am bopeth' ato, ceir y nodyn: 'Wedi mynd i'r Wladfa. Daw'n ôl toc.' Ac yn ôl y daeth, wrth gwrs! Bu'n gefn mawr iawn i'r *Dinesydd* ar hyd fy nghyfnod i yn Gadeirydd ac wedi hynny, ac mae'n parhau i gyfrannu erthyglau yn rheolaidd i'r papur hyd y dydd heddiw.

Fel yr awgrymais uchod, bu hanner cyntaf y 1990au yn gyfnod digon ansefydlog yn hanes *Y Dinesydd* – llawer o fynd a dod o ran y swyddogion ac aelodau'r pwyllgor, a sawl trefniant ar gyfer cynhyrchu ac argraffu'r papur yn troi allan i fod yn fyrhoedlog. Ond dechreuodd y patrwm sefydlogi rywfaint erbyn canol y 1990au.

Yn un peth, fe ddaethpwyd i gytundeb â Gwasg Morgannwg – gwasg Gareth Richards ym Mynachlog Nedd (a oedd yn argraffu nifer o bapurau bro) – i argraffu'r *Dinesydd* o rifyn Tachwedd 1995 ymlaen; ac olynydd Gwasg Morgannwg, sef Serol Print, Castell-nedd, yw argraffwyr *Y Dinesydd* o hyd.

Yna, yn y Cyfarfod Blynyddol ar 22 Mai 1996, gwelwyd cryn newid o ran y swyddogion. Roedd John Rowlands am roi'r gorau i fod y Gadeirydd, ac fel y dywed y cofnodion, 'yn y diwedd' cytunais i i'w olynu! Roedd John yn barod i barhau yn 'Is-Gadeirydd Busnes a Chyllid' ac roedd Linda Thomas – cyfaill coleg arall i mi – yn barod i weithredu fel 'Is-Gadeirydd Golygyddol'. Roedd Mary Jones am roi'r gorau i'r Ysgrifenyddiaeth, ac fe gytunodd Julie Jones, a oedd yn byw yn agos ataf yn yr Eglwys Newydd, i fod yn Ysgrifennydd yn ei lle. (Julie, gyda llaw, a fu'n gyfrifol am baratoi'r *Cyfeiriadur i Weithgareddau Cymraeg Caerdydd a'r Fro* a gynhwyswyd yn atodiad yn rhifyn Medi o'r *Dinesydd* rhwng 1996 a 2000.)

Tua'r un adeg trefnwyd i 'PPS Argraffwyr Arloesol', sef cwmni Lorraine a Peter Rogers yn Ystum Taf, fynd yn gyfrifol am gysodi'r *Dinesydd*, a dyna fu'r patrwm golygyddol wedyn hyd 2000, sef bod y swyddogion, y panel golygyddol, y casglwyr hysbysebion, y gohebwyr ac eraill yn bwydo'r deunyddiau crai i Linda a minnau, a ni'n dau wedyn yn gyfrifol mewn cydweithrediad â Lorraine am gynnwys terfynol y rhifyn ac am gywiro'r proflenni, cyn i'r tudalennau gael eu hanfon draw at Wasg Morgannwg ar gyfer yr argraffu. Un peth arall a ddigwyddodd yn 1996 oedd atgyfodi'r calendr digwyddiadau yn *Y Dinesydd* o dan fy ngofal i – ac rwyf wrthi o hyd!

Bu newid sylfaenol – ac yn sicr er gwell! – yn y drefn olygyddol erbyn diwedd 2000, pan gyflwynwyd y patrwm o gael 'Golygydd(ion) y Mis'. Gwilym Roberts a'r diweddar Garwyn Davies oedd y ddau gyntaf i fentro, a hynny fel golygyddion ar y cyd ar gyfer rhifyn Tachwedd 2000; ac mae'r drefn o gael golygyddion gwahanol i bob rhifyn wedi parhau hyd heddiw. Ond parhaodd Lorraine Rogers i gysodi'r rhifynnau hyd nes i Penri Williams ymgymryd â'r gwaith gyda rhifyn Mai 2004.

Fel a fu'n wir o'r dechrau, dosbarthwyd *Y Dinesydd* am ddim yn ystod fy nghyfnod i yn Gadeirydd – tair mil o gopïau yn cael eu gosod mewn canolfannau amrywiol ar hyd a lled Caerdydd a'r Fro gan rwydwaith o ddosbarthwyr diwyd. Gwirfoddolwyr oedd trwch y rhai a fu'n gyfrifol am gynhyrchu a dosbarthu'r papur, ac eithrio'r cwmnïau a wnâi'r gwaith cysodi ac argraffu ac ati. Ond i dalu am y costau hynny, bu'n rhaid dibynnu ar incwm o dair ffynhonnell, sef grant bychan o arian cyhoeddus, rhoddion gan unigolion a chymdeithasau, ac incwm hysbysebu. Ac fe gododd y rhan fwyaf o'r argyfyngau yn ystod fy nghadeiryddiaeth i, fel mewn cyfnodau blaenorol yn hanes y papur, am resymau ariannol, yn enwedig wrth i'r incwm hysbysebu leihau tua diwedd cyfnod fy nghadeiryddiaeth, nid lleiaf am i hysbysebion o fyd teledu brinhau'n arwyddocaol iawn o 2003 ymlaen.

Fe gododd cwestiwn gwerthu'r papur, yn hytrach na'i ddosbarthu'n rhad, droeon dros y blynyddoedd, ac yn y diwedd bu'n rhaid wynebu'r anorfod a dechrau

gwerthu'r *Dinesydd* o rifyn Ebrill 2010 ymlaen. Fe ddatrysodd hynny y broblem ariannol i raddau helaeth; ond wrth wneud, fe gollwyd, ysywaeth, yr elfen 'genhadol' a oedd ynghlwm wrth ddosbarthu'r papur yn rhad ac am ddim.

Un o nodweddion *Y Dinesydd* dros y blynyddoedd fu cynnal digwyddiadau'n achlysurol i godi arian. Cynhaliwyd ambell barti Nadolig, barbeciw a noson 'cawl a chân' yng nghyfnod cynnar y papur, er enghraifft, ynghyd â chyfres o 'Gymanfaoedd Codi'r To' a drefnwyd gan Meredydd Evans a Phyllis Kinney. Ac fe gynhaliwyd ambell ddigwyddiad o'r fath yng nghyfnod fy nghadeiryddiaeth i: er enghraifft, noson dathlu pen-blwydd *Y Dinesydd* yng nghwmni Delwyn Siôn a'r band yng Nghlwb Ifor Bach a Diwrnod Golff Corfforaethol *Y Dinesydd* a drefnwyd gan Ceri Preece – y ddau ddigwyddiad hynny ym mlwyddyn dathlu pen -blwydd y papur yn 25 mlwydd oed.

Ond bu raid hefyd wrth sawl ymgyrch yn apelio ar gyfeillion y papur i ddod i'r adwy yn ariannol yn ystod blynyddoedd fy nghadeiryddiaeth – a Gwilym Roberts yn arwain y gad yn yr ymgyrchoedd hynny. Ac fe gafwyd ymateb da iawn iddynt, a ddangosai'n eglur gymaint o ewyllys da oedd yn y gymuned tuag at *Y Dinesydd*. Er enghraifft, ar adeg o argyfwng mawr tua diwedd fy nghadeiryddiaeth, llwyddodd apêl gan Gwilym i godi dros £4,500 mewn rhoddion – trowch at rifynnau Mawrth ac Ebrill 2006, yn arbennig, i weld y rhestr o'r cyfeillion a ymatebodd i'r apêl honno.

Ac y mae hynny'n arwain at y gair arall sydd yn dod i'm meddwl wrth edrych yn ôl ar fy nghyfnod yn Gadeirydd, ac yn wir ar gyfnod fy ymwneud â'r *Dinesydd* ar ei hyd, sef 'diolch'.

Rwy'n ymwybodol mai ychydig iawn o'r nifer helaeth o bobl a gyfrannodd mewn amrywiol ffyrdd tuag at gynhyrchu'r *Dinesydd* yn ystod fy nghyfnod yn Gadeirydd yr wyf wedi eu henwi uchod. Gallwn fod wedi enwi degau lawer o gymwynaswyr eraill a fu, rhyngddynt, yn allweddol o ran cadw llong *Y Dinesydd* i hwylio, a hynny mewn dyfroedd digon stormus ar adegau – rhai ar hyd deng mlynedd fy nghadeiryddiaeth ac eraill am gyfnodau byrrach oherwydd amgylchiadau ac ymrwymiadau eraill.

Dyna'r trysoryddion ac aelodau eraill o'r pwyllgor, y gohebwyr a'r golygyddion, y casglwyr hysbysebion a'r dosbarthwyr, y tynwyr lluniau a'r croeseirwyr, ac yn y blaen, ac yn y blaen – a hynny heb sôn am yr holl bobl yn y gymuned yn ehangach a ddangosai eu cefnogaeth i'r *Dinesydd* ar air a gweithred – a phawb yn rhoi yn ewyllysgar o'u hamser a'u doniau a'u harian er mwyn hybu'r Gymraeg a'i diwylliant ac er mwyn cryfhau'r ymdeimlad cymunedol Cymraeg yn ein prifddinas a'r Fro. Rhwng pawb y maent yn lleng, a'r ymrwymiad a'r gwmnïaeth a'r cyd-ddyheu yn rhyfeddol! Diolch, yn wir, iddynt oll.

*E. Wyn James*

## Diolch oddi wrth Drysorydd *Y Dinesydd*

Dechreuodd fy nghysylltiad gyda'r *Dinesydd* ym 1987, 36 o flynyddoedd yn ôl. Roeddwn yn gyfrifydd gyda S4C pan lansiwyd y Sianel ym 1982 ac ar ôl 5 mlynedd yno, penderfynais ddechrau gyrfa newydd fel cyfrifydd hunan gyflogedig. Roedd angen cyhoeddusrwydd ac wrth alw fy hun yn "Cyfrifydd y Cyfryngau" anfonais ddatganiad i'r Wasg allan ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Ebrill 1987, gyda llun ohonof gyda *moustache* – yr unig fis yn fy mywyd i mi dyfu *moustache*! Ysgrifennais yr erthyglau cyntaf o Gwylio'r Geiniog yn ystod y cyfnod yma.

Parhaodd y cysylltiad gyda'r papur pan wnes i gyfres o bererindodau i godi arian at Sefydliad Prydeinig y Galon ac eto troi at y papur am gyhoeddusrwydd. Roeddwn ar y dudalen flaen ym mis Mawrth a mis Mai 2010 pan wnes i gwblhau pererindod o dros 70 milltir o Landdewi Brefi i Dŷ Ddewi fel teyrnged i'n nawddsant, a chyda help darllenwyr *Y Dinesydd* dros 16 o flynyddoedd rwyf wedi codi £35,000 at yr elusen.

Daeth fy enw at sylw Bryan James a phan oedd angen Trysorydd ar *Y Dinesydd* yn 2012 fe ffoniodd yn cynnig y swydd anrhydeddus i mi ac rwyf wedi bod yn falch i allu gwneud y gwaith i helpu i gefnogi ein papur lleol Cymraeg am dros ddegawd.



*Y Cyfrifydd Ifanc*

Ymlaen i 2013 a llun arall ar dudalen flaen *Y Dinesydd*, y tro hwn am ennill categori rhedwyr dros 55 ar y trac Olympaidd yn Llundain, blwyddyn wedi i'r gemau Olympaidd fod yno, ac roedd hyn yn anrhydedd mawr.

Yn 2017 fe ail ddechreuais y golofn ariannol fisol Gwylio'r Geiniog ac erbyn hyn mae dros 50 o erthyglau wedi ymddangos yn y papur. Ers 2020 cyd-ysgrifennu'r golofn yw'r drefn gyda fy mhartner busnes Aled Wyn Thomas ac rydym yn gobeithio bod y golofn wedi bod yn ddefnyddiol i'r darllenwyr dros y blynyddoedd. Yn achlysurol yr ydym wedi derbyn sawl galwad ffôn sydd o hyd yn dechrau gyda'r geiriau "Dy'ch chi ddim yn fy adnabod, ond dwi wedi gweld eich enw yn *Y Dinesydd* a dwi angen cymorth ariannol ar ….. ". Diolch am eich holl gefnogaeth.

Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi helpu gyda'r papur dros y 50 mlynedd, y golygyddion, yr ysgrifenwyr, y cyfranwyr, aelodau'r pwyllgor, y dosbarthwyr, i'r Llywodraeth am ei rhodd ariannol flynyddol i'r *Dinesydd* ac i bapurau bro ledled Cymru. Ymlaen i'r hanner can mlynedd nesaf.

*Huw Roberts*
Trysorydd Anrhydeddus *Y Dinesydd*

# HANES Y DINESYDD
# o 2006 tan 2010

Roedd y blynyddoedd rhwng 2006 a 2010 yn flynyddoedd anodd iawn i'r *Dinesydd* ac i aelodau'r Pwyllgor! Ac, wrth gwrs, yr arian oedd y broblem. Yn y dyddiau hynny roeddem yn argraffu 3000 o gopïau bob mis ac yn eu dosbarthu i tua 100 o leoliadau ar hyd a lled Caerdydd a rhai yn y Fro hefyd. Roedd y system yn ddi-ffwdan a hawdd ei gweithredu ond wrth gwrs yn waith trwm i'r dosbarthwyr gwirfoddol. Ond roedd yn gweithio'n dda tra roedd yr incwm o roddion gan unigolion a chymdeithasau, nawdd gan noddwyr, taliadau gan danysgrifwyr, y tâl am hysbysebion a'r grant gan Fwrdd yr Iaith yn parhau. Ond, os nad oedd ........

Y peth mawr a ddigwyddodd yn ystod y pedair blynedd yma oedd y symudiad o ddosbarthu 3000 o gopïau am ddim i orfod codi tâl am bob copi. Roedd yn glir y buasai'r ail ffordd yn llawer mwy cymhleth ac yn fwy o waith i bawb. Hefyd byddai'r *Dinesydd* yn llai amlwg yn y gymuned er y buasai'r elfen hon yn gallu cael ei goresgyn i ryw raddau drwy gyflwyno'r papur ar y we. Wrth gwrs erbyn heddiw, diolch i Penri Williams, mae nifer fawr o rifynnau'r *Dinesydd* i'w gweld ar y we - hanner cant o flynyddoedd!

Erbyn 2006 roedd yr incwm yn gostwng yn sylweddol a bu raid lansio Apêl "Calennig i'r *Dinesydd*" a ddaeth i gael ei alw'n "Apêl Gwilym" wedi i Gwilym Roberts ysgrifennu llythyr personol at nifer fawr o unigolion a chymdeithasau yn gofyn am gefnogaeth ariannol. Codwyd dros £5000 gan alluogi'r Pwyllgor i gyhoeddi'r 10 rhifyn fel arfer y flwyddyn honno.

Ond er gwaith caled iawn gan y Pwyllgor o Peter Gillard (Cadeirydd), Siân Parry-Jones (Is- Gadeirydd), Nans Couch (Ysgrifennydd), Rhian Jones (Trysorydd), Ceri Morgan (Prif Ddosbarthydd), Siân Lewis (Swyddog Hysbysebion), Penri Williams (Cysodydd), Robin Griffith, E Wyn James, Gwilym Roberts ag Alun Williams roedd y sefyllfa ariannol yn dal i fod yn enbyd.

Roedd erthyglau newyddion yn dod yn gyson o sefydliadau Cymraeg y ddinas, sef yr ysgolion, y capeli, cymdeithasau Cymraeg, ac yn y blaen ond am fod y papur yn cael ei olygu gan berson gwahanol bob mis, roedd hynny'n rhoi naws gwahanol arno bob tro. Felly, roedd y papur yn cyflawni prif swyddogaeth papur bro sef lledaenu newyddion lleol cyfredol a thynnu sylw at ddigwyddiadau oedd i ddod. Gwnaed hyn drwy Digwyddiadur *Y Dinesydd* sydd ers degawdau yn dal i gael ei gydosod gan E Wyn James a mawr yw ein diolch iddo am wneud hyn.

Ac, wrth gwrs roedd pob rhifyn o'r *Dinesydd* yn cael ei gysodi gan Penri Williams a mawr yw ein diolch iddo yntau hefyd am ei waith caled ar hyd y degawdau.

Yn 2008 daeth Glyn Jones yn Swyddog Hysbysebion yn lle Siân Lewis, ac roedd Elfrys Jones a Rhun Jones wedi ymuno â'r Pwyllgor.

Ac yng nghanol yr helbulon ariannol i gyd yn 2008 roedd yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd ac fe benderfynodd y Pwyllgor gyhoeddi rhifyn penodol o'r *Dinesydd* ar ei chyfer a cheisio ei wneud yn bapur bro i Gymru gyfan! Argraffwyd 6000 o gopïau, 3000 i'w dosbarthu fel arfer a 3000 i'w dosbarthu yn yr Eisteddfod. Roedd gan y rhifyn yma 20 tudalen ac Atodiad Eisteddfodol o 4 tudalen mewn lliw. Roedd yn rhifyn swmpus a lliwgar ac fe gafodd ymateb da iawn gan y darllenwyr.



Atodiad Eisteddfod 2008

Roedd y grant o £1300 gan Fwrdd yr Iaith yn amodol ar gyhoeddi deg rhifyn y flwyddyn. Felly'r gamp oedd gwneud hynny o fewn cyfyngiadau'r arian oedd gennym, ac er bod gennym ddigon o erthyglau i lenwi rhifyn mwy na 12 tudalen bob mis roedd rhaid ei gyfyngu i hynny. Erbyn diwedd 2008 roedd y gost o argraffu 10 rhifyn bob blwyddyn dros £11,000. Roedd yr incwm o hysbysebion, rhoddion gan unigolion a chymdeithasau, nawdd gan noddwyr, taliadau gan danysgrifwyr a grant Bwrdd yr Iaith yn £6300. Felly roedd diffyg ariannol o £4700 na ellid ei lenwi dim ond drwy apêl (arall)! Felly ar ddechrau 2009 lansiwyd Apêl eto a chodwyd dros £4800 oedd yn ddigon i gadw'r *Dinesydd* i fynd am y tro. Syfrdanwyd y Pwyllgor gan haelioni darllenwyr y *Dinesydd* ac roedd yn hwb mawr i'r Pwyllgor i sylweddoli gymaint oedd y *Dinesydd* yn cael ei werthfawrogi.

Yn 2009 safodd Peter Gillard i lawr o'r Gadeiryddiaeth er mwyn canolbwyntio ar y Drysoryddiaeth a'r sefyllfa ariannol ac fe gymerodd Gwilym Roberts yr awenau.

Erbyn dechrau 2010 roedd wedi dod yn eglur nad oedd apêl blynyddol yn gynaladwy a'r unig ffordd ymlaen oedd codi tâl am bob copi. A felly y bu. Sefydlwyd Is-Bwyllgor o Peter Gillard, Huw Jones, Ceri Morgan a Penri Williams i wneud y trefniadau ac yn 2010 daeth y system newydd i fodolaeth. Ond roedd y Pwyllgor yn betrusgar iawn dros lwyddiant y fenter newydd yma. Argraffwyd 750 o gopïau ac o fewn misoedd roedd hyd at 400 yn cael eu gwerthu drwy siopau a sefydliadau o bob math ac roedd llawer iawn o bobl yn tanysgrifio hefyd. Ac mae'r gweddill, fel y dyweder, yn hanes.

*Peter Gillard*

# DATHLU 50
# CAMAU ALLWEDDOL

Efallai bod hawlfraint ar y gân Yma o Hyd', ond go brin bod hawlfraint ar y geiriau sy'n cael eu defnyddio mor aml y dyddiau hyn mewn cymaint o sefyllfaoedd. Felly mae'n iawn i ni ddweud fod *Y Dinesydd*, ar ôl 50 mlynedd, yma o hyd – a hynny oherwydd i'r Pwyllgor, yn ystod y cyfnod hwnnw, gymryd rhai camau allweddol.

Un o'r camau hynny oedd mynd yn ddigidol – gydag oblygiadau enfawr a phellgyrhaeddol. Yn un peth, golygai baratoi yr holl gynnwys, y testun a'r lluniau, ar un ffeil yn barod i'r wasg ei argraffu. Dyma'r dasg yr ymgymerodd Eirian Dafydd â hi, sef cysodi'r cyfan bob mis – a rhaid ei chanmol yn fawr iawn am ei gwaith campus. Iddi hi y mae'r clod am ddelwedd ddeniadol a phroffesiynol ein papur bro.

O fynd yn ddigidol, roedd modd cyflawni'r uchelgais i gael pob tudalen mewn lliw llawn – peth a fyddai'n gwneud gwahaniaeth mawr i ddelwedd ac apêl y cylchgrawn.



Ar y pryd doedd Gwasg Morgannwg, a fu'n rhoi gwasanaeth penigamp i'r *Dinesydd* (a sawl papur bro arall), ddim yn gallu cystadlu â gweisg eraill o ran pris argraffu. OND, diolch byth, ac yn amserol iawn, manteisiodd Gwasg Morgannwg ar y cyfle hwn iddynt hwythau "fynd yn ddigidol". Gyda'r canlyniad hapus hyn roedd modd i ni aros gyda nhw. Mae "amserol" yn ansoddair da i ddisgrifio'r digwyddiad, oherwydd fe newidiodd y wasg ei enw i "Serol Print"! Dyma gyfle fan hyn i ddiolch i Gareth Richards, perchennog Gwasg Morgannwg, a'i staff am eu gwasanaeth arbennig a'u cefnogaeth ar hyd y blynyddoedd. Da yw gallu cydnabod yr un safon o wasanaeth gan Serol dan arweiniad Llŷr ab Islwyn.

Ond nid delwedd a golwg yn unig sy'n gwneud cylchgrawn yn ddeniadol. Mae'n rhaid i'r cynnwys apelio hefyd. Dro'n ôl, wrth geisio cael aelod blaenllaw o'r gymuned Gymraeg yn y brifddinas i danysgrifio, cefais fy siomi pan ddwedodd "O dim ond capeli ac ysgolion sy ynddo fe, a chan nad ydw i'n grefyddol, ac yn ddi-blant, sdim byd ynddo i fi !" " Wel", meddwn i, "pryd oedd y tro diwetha' i ti agor *Y Dinesydd*?" Wrth gwrs bod y capeli a'r ysgolion Cymraeg yn elfen bwysig yn y cynnwys – ond mae'r *Dinesydd* yn llawer mwy na hynny.

Rwy'n meddwl bod amrywiaeth eang a diddorol yng nghynnwys *Y Dinesydd* erbyn hyn. Mae bywyd cymdeithasol y brifddinas a'r Fro yn fwrlwm o weithgareddau o bob math, a diolch yn fawr i ysgrifenyddion y cymdeithasau a'r sefydliadau am eu hadroddiadau cyson a diddorol. Dyna beth yw hanfod 'papur bro' go iawn. Yn ychwanegol at hynny, bu'r pwyllgor yn ddiwyd yn gwahodd eitemau a cholofnau amrywiol eu hapêl. Diolch yn fawr i'r cyfranwyr hynny. Yn ôl a ddeallwn mae'r darllenwyr yn cael eu plesio.

Ar hyd y blynyddoedd mae'r *Dinesydd* wedi derbyn rhoddion hael a chyson gan nifer o gymdeithasau a sefydliadau yr ardal. Bu'r gefnogaeth hon yn galondid ac yn ysbrydoliaeth i'r pwyllgor.

Pan ddaeth yr Eisteddfod Genedlaethol i Gaerdydd a'r Fro yn 2018 penderfynwyd cyhoeddi rhifyn arbennig o'r *Dinesydd* i ddathlu'r achlysur. Mae'r rhifyn hwnnw yn *bumper edition* sy'n adlewyrchu holl fywiogrwydd y bywyd cymdeithasol a diwylliannol yr ardal, ac mae diolch enfawr yn ddyledus i'r holl gyfranwyr. Penderfyniad arall oedd y byddai'r rhifyn hwn yn cael ei ddosbarthu yn rhad ac am ddim. Talwyd am y fenter hon trwy wahodd llu o fusnesau lleol i hysbysebu yn y rhifyn, a diolch i bawb am ei cefnogaeth barod. Dosbarthwyd yn agos i 5,000 o gopïau trwy bob ffynhonnell bosib yn ystod yr Ŵyl – hysbyseb dda i'r ddinas ac i'r Fro. Daeth nifer o wirfoddolwyr i helpu'r pwyllgor gyda'r fenter hon. Ffurfiwyd dau dîm – y naill i ofalu am y cynnwys, a'r llall i ofalu am yr ochor fasnachol. Profiad cyffrous a phleserus oedd bod yn rhan o'r fenter lwyddiannus hon.

A sôn am dâl, tybed faint o wirionedd sy' yn y dywediad "Rhowch bris arno – ac fe rowch werth iddo!"? Yn y cyfnod hyd at 2010, pan oedd *Y Dinesydd* yn cael ei ddosbarthu yn rhad ac am ddim – rhannwyd miloedd o gopïau yn fisol i nifer o sefydliadau. Cofiaf y sioc a'r siom a gefais pan gyfaddefodd un "cyfaill" ei fod yn taflu pob rhifyn yn syth i'r bin! Wel, o leiaf nawr, trwy godi tal o £1.20, rydyn ni'n gwybod lle rydyn ni'n sefyll o ran cefnogwyr - 450 o danysgrifwyr selog (a diolch am eu cefnogaeth), a 100 yn cael eu dosbarthu i'r siopau? Diddorol yw nodi bod tua 150 o'r tanysgrifwyr hyn yn derbyn copïau digidol. Dengys hyn bod *Y Dineysdd* yn newid gyda'r oes.

Dyma'r lle i gydnabod, gyda diolch, gyfraniad o £1,700 y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru. Bob blwyddyn, bydd y Llywodraeth hefyd yn trefnu Cynhadledd Flynyddol y Papurau Bro. Mae hyn yn gyfle i rannu profiadau a syniadau. Thema flynyddol yw bod nifer y tanysgrifwyr yn gostwng a'r anawsterau yn cynyddu. Da yw gallu dweud bod *Y Dinesydd* mewn sefyllfa gymharol iach ar hyn o bryd. Ie, "Yma o hyd!" Ond nid bod hynny yn esgus i ymfodloni ar y sefyllfa.

Rhyw ddeng mlynedd yn ôl pan oedd y "chwyldro digidol" yn codi stêm, fe ffurfiwyd perthynas gydweithredol dda gydag Adran Newyddiaduraeth Prifysgol Cymru dan arweiniad Emma meese a Sara Mosley. Gyda'u cymorth hwy fe ddigiteiddiwyd nifer fawr o ôl-rifynnau'r *Dinesydd* a'u rhoi ar wefan *Y Dinesydd* (dinesydd.cymru)

Ar yr un pryd datblygwyd y syniad o ddatblygu papur bro digidol (hyperleol) a'r enw a roddwyd arno oedd 'Pobol Caerdydd'. Y syniad oedd bod hwn yn gyfrwng "rhyngweithiol", gyda phobol yn gallu rhoi eitemau arno ac ymateb iddo yn ddyddiol! Roedd rhai yn gweld hyn fel bygythiad i fodolaeth y papur bro, tra bod eraill yn gweld posibilrwydd o'r ddau gyfrwng yn rhedeg ochor yn ochor a'i gilydd. Ffurfiwyd tîm o wirfoddolwyr, ar wahân, i redeg Pobol Caerdydd, a bu peth rhannu deunydd a golygyddion *Y Dinesydd* am gyfnod. Ta waeth, gwanhau wnaeth y ddolen ac ymhen tipyn fe ddaeth y berthynas i ben. (Tybed beth yw hynt Pobol Caerdydd erbyn hyn?) Mae'n debyg fod Gwilym Dafydd ac Iestyn Davies yn trafod *Y Dinesydd* ar y Cyfrwng Twitter – ond mae'r byd hyn yn ddierth i fi !


Pan ddaeth Covid-19 i darfu ar ein bywydau, penderfynodd Pwyllgor *Y Dinesydd* wynebu'r her mewn modd cadarnhaol. Mewn cyfnod pan oedd unigrwydd yn cael effaith ofnadwy ar nifer fawr o bobl, teimlwyd y byddai derbyn copïau o'r *Dinesydd* yn codi calon. Ond sut y gellid gwneud hynny? Roedd y canolfannau lle roedd y papur bro yn cael ei ddosbarthu – y capeli, yr ysgolion, y cymdeithasau ac ati - ar gau! Wel, unwaith eto, fe ddaeth nifer o wirfoddolwyr i'r adwy. Am dri mis (Ebril – Mehefin 2020) dim ond yn ddigidol y gallwyd cyhoeddi'r papur bro, a dyna a wnaed. Yna, dan arweiniad Arthur Evans fe ffurfiwyd timau o ddosbarthwyr i roi copïau drwy'r drws i bawb oedd yn arfer derbyn copi caled. Yn y cyfnod hwn hefyd gwelwyd cynnydd aruthrol yn y galw am gopïau digidol – a gwyddom bod rhai wedi cyrraedd gwledydd tramor! Gwych! Gan fod y pandemig wedi gwneud traed moch o gasglu tanysgrifiadau penderfynwyd dosbarthu'r copïau yn rhad ac am ddim. Roedd modd gwneud hyn gan fod rhifyn yr Eisteddfod wedi gwneud digon o elw i dalu am y gost. Cafwyd adborth gwerthfawrogol iawn i ymdrechion *Y Dinesydd* yn y cyfnod hwn.

Erbyn hyn mae mwy a mwy o danysgrifwyr yn derbyn eu copïau digidol a diolch yn fawr i Dafydd Hampson-Jones am ei wasanaeth misol yn dosbarthu y rhifynnau trwy e-bost.

Mewn ymdrech i ddatblygu perthynas a sectorau ehangach o'r gymuned mae'r *Dinesydd* wedi sefydlu perthynas gref gyda dysgwyr (colofn siaradwyr newydd) yr ardal. Mae'r *Dinesydd* hefyd yn aelod o bwyllgor Caerdydd Ddwyieithog sy'n cwrdd yn rheolaidd dan nawdd Cyngor y ddinas. Cryfhawyd y berthynas iach â Menter Caerdydd ac mae gennym bresenoldeb blynyddol yn y digwyddiad rhyfeddol, a elwir yn Tafwyl.

Rwy wedi sôn am gyfraniad allweddol y colofnwyr cyson, y broses gyhoeddi, a dosbarthu. Mae dau grŵp arall o wirfoddolwyr allweddol yr hoffwn son amdanynt. Yn gyntaf, y golygyddion, sy'n dîm cryf. Mae'r aelodau yn newid o dro i dro, ac mae diolch mawr yn ddyledus i bob un sydd wedi, neu sydd yn dal i gyfrannu at y gwaith allweddol hwn. Yn ail, y pwyllgor. Cefais y fraint o gydweithio â nifer o bobol wirioneddol frwd ac ysbrydoledig. Mae rhai wedi gadael erbyn hyn, a minnau yn ei plith. "Ond bugeiliaid newydd sydd ..." ac rwy'n ffyddiog y bydd *Y Dinesydd* 'Yma o Hyd' ymhen hanner canrif eto.

*Bryan James*
*Cadeirydd Y Dinesydd 2015 — 2021*




Fe wnes i ddechrau gwneud y croesair i'r *Dinesydd* yn 1998 gan gymryd drosodd oddi wrth ap Lewsyn ar gais yr Athro Wyn James. Roeddwn yn barod yn cynhyrchu croesair i'r Cylchgrawn Efengylaidd ers sawl blwyddyn. Go brin y meddyliais y byddwn yn dal wrthi o hyd.

Dros y blynyddoedd mae dwsinau o bobl wedi bod yn danfon eu hatebion i mewn i'r *Dinesydd*. Rhai ffyddloniaid yn danfon i mewn yn gyson bob mis, hyd yn oed pa mae nhw allan o'r Deyrnas Unedig. Wrth edrych yn ôl dros enwau'r buddugwyr 'rwyn gweld bod dau neu dri wedi bod yno ers y dechrau. Diolch yn fawr iddynt am eu dyfalbarhad ond mae'n dda gweld enwau newydd yn ymddangos ac yn enwedig o blith y dysgwyr.

Beth sydd angen wrth greu croesair? Wel, mae'r canlynol yn hanfodol;- geiriadur, odliadur, llyfrau barddoniaeth ac emynau cyfarwydd, atlas, map o Gymru, rhyw feddwl chwithig efallai, a digon o amynedd.

Os ydych yn cael trafferth gyda'r cliwiau cofiwch gallant fod yn anagramau, geiriau wedi eu cuddio o fewn brawddeg, geiriau sy'n swnio'n debyg ond wedi eu sillafu'n wahanol, geiriau wedi eu cwtogi, llythrennau bob yn ail. Tip bach – mae dweud dechrau'r nos yn golygu'r llythyren n, canol nos yw o, diwedd y nos yw s. Cofiwch hefyd fod ch,dd, ff ac yn y blaen yn cyfri fel un llythyren.

Byddai'n dda gweld mwy o enwau newydd yn ymgeisio. Ewch ati! Mae'n ymarfer da i'r ymenydd. Falle cewch hwyl arni. Pwy a wyr falle mai chi fydd wrthi yn creu *Y Dinesair* i'r hanner canrif nesa!

*Rhian Williams*

# Siaradwyr Cymraeg Newydd



## *Bwrw trem yn ôl.*

## Gwilym Dafydd

Tybiaf fod ein dysgwyr neu siaradwyr Cymraeg newydd wedi cael sylw digon cyson ar hyd yr hanner canrif. Es ati i gael golwg ar hen rifynnau o amgylch mis Ebrill yn ystod y degawdau ers 1973 – copïau caled neu droi i wefan dinesydd.cymru. Gair o ddiolch felly i sawl enw sydd wedi gofalu am dudalen neu golofn fel hon ar hyd y blynyddoedd.

**Rhif 1, Ebrill 1973**
Yma ar dudalen rhif 8 gwelir 'DARN I'R DYSGWYR' gan John Albert Evans. Dwedodd John ar ddechrau'r paragraff cyntaf: 'Rydw i'n siŵr y bydd pob person sy'n dysgu Cymraeg yn y ddinas yn falch iawn i weld papur Cymraeg yn dod allan yn fisol yma.'

Ychwanegodd 'Mae croeso i chi hefyd ysgrifennu rhywbeth i'r papur hwn, os oes gyda chi rhywbeth y byddech yn hoffi ei ddweud, ysgrifenwch ata i J.A. Evans, 54 Fidlas Road, Llanishen, Caerdydd.'
Coffa da am y diweddar John Albert 1937-2015.

**Rhif 94, Mawrth 1983**
Sylwi yma ar dudalen rhif 4 a bod yna gyfraniad o'r enw YR AGORIAD mewn blwch yn llenwi tua chwarter tudalen.

'Cafwyd cwrs penwythnos iawn yn y Dyffryn mis Chwefror.' Tybed ai 'iawn' neu 'lawn' yw hwn?

Ceir paragraff yn cyfeirio at 'CYRSIAU NANTGWYTHEYRN' ac 'EISTEDDFOD Y DYSGWYR'. 'Mae hon yn noson fawr i holl ddysgwyr y De-ddwyrain – Peidiwch â'i cholli - dewch a'ch ffrindiau gyda chi.'

**Rhif 193, 1 Mai 1993**
Sylwi bod 'Anerchiad Buddugol enillydd tlws Eisteddfod y Dysgwyr yng Nghaerdydd' yn llenwi hanner tudalen rhif 4. Y person buddugol oedd Gareth Richards, Pen-y-Bont-ar-Ogwr.

Yna yn dilyn ar dudalen rhif 5, paragraff hir iawn am 'Eisteddfod FLYNYDDOL CYD DE MORGANNWG'.
Diddorol yma yw nodi rhai enwau a gyhoeddwyd yno: Niclas ap Glyn, Iwan Guy, Eleri Rogers, Myra Jenkins, Luned Davies, Scott a Steven Davies. Hefyd Molly Curley, Gareth Richards ac Orwig Owen.

A dyma'r frawddeg olaf: 'Mae Valmai Griffiths Rhiwbeina wedi bod yn Ysgrifennydd yr Eisteddfod ers ei dechrau bymtheg mlynedd yn ôl a diolchwyd iddi hi am ei holl waith cyn canu'r Anthem Genedlaethol i ddiweddu'r noson.'

**Rhif 280, Ebrill/Mai 2003**
Tybed faint ohonoch sy'n cofio colofn Ar y CYD… yng ngofal Lynne Davies? Gwelir ar dudalen rhif 10: 'Roeddwn i'n sôn yn rhifyn diwethaf y *Dinesydd* am enwau yng Nghaerdydd. Ers hynny, rwyf wedi dod o hyd i lyfr arbennig, o'r enw *Place Names in Glamorgan* sy'n rhoi hanes enwau yn y sir.' Yr awdur oedd y diweddar Gwynedd O. Pierce, a fu farw yn ddiweddar yn gant oed.

Yn dilyn cyfraniad Lynne gwelir 'CALLIWCH NEU'I CHOLLI'. 'Dyma apêl gan un o ddarllenwyr y *Dinesydd*. Dysgwr llwyddiannus a brwdfrydig iawn yw Steve Jeans.'

Wn i ddim pwy yw neu oedd Steve Jeans. Oes unrhywun ohonoch yn gwybod ugain o flynyddoedd yn ddiweddarach?

**Rhif 376, Ebrill 2013**
Hwn yw'r rhifyn a ddathlodd ben blwydd *Y Dinesydd* yn ddeugain oed. Ar y clawr a thudalen rhif 2 gwelir cyfarchion gan Merêd (Meredydd Evans) sef un o sylfaenwyr *Y Dinesydd* yn ôl ar ddechrau'r 70au. Diddorol nodi bod Merêd tua 93 oed pan luniodd e'r cyfarchion uchod.

Does dim colofn dysgwyr yma fel y cyfryw, er rwy'n sylwi bod Colofn G.R. wedi cyfeirio at Gynhadledd Hyfforddiant i diwtoriaid Cymraeg i Oedolion Sir Fynwy yng Ngwesty'r Parkway ger Cwmbrân. Bu Gwilym yno yn siarad.

Ac yn Calendr *Y Dinesydd* rwy'n sylwi bod yna gyfeiriadau misol at Fore Coffi i rai sy'n dysgu Cymraeg rhwng 10.30 a 12.00 yn adeilad Yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Cathays. Dewi George yn sgwrsio am Sir Gaerfyrddin, mis Ebrill, Marc Evans, ymweliad ag Oriel Gelf yr Amgueddfa Genedlaethol mis Mai ac Amanda Griffiths yn sgwrsio am Langyndeyrn yng nghyfarfod mis Mehefin.

**Rhif ?? Ebrill 2033**
A fydd *Y Dinesydd* yma mewn degawd? A fydd yna golofn i siaradwyr Cymraeg newydd? Rydw i wrthi yma ers dechrau 2018. Gobeithio y bydd rhywun arall wrthi erbyn hynny – bydda i'n 77 oed os byw ac iach! (D.V.) A Lladin nid Cymraeg yw Deo Volente = os dymuna Duw.

Os dych chi'n dysgu Cymraeg yna mae cyfle misol yma i ysgrifennu paragraff. Cewch anfon llun hefyd os dymunwch! Y cyfeirad ebost yw:
eirianagwilym@gmail.com

# Colofn Chwaraeon Hywel Owen

## Edrych nôl : Chwaraeon yn *Y Dinesydd* 1973-2023

Yr oedd cyhoeddi'r fersiwn arbennig hwn o'r *Dinesydd* yn gyfle i edrych nôl dros rhai o'r cyfraniadau am chwaraeon sydd wedi ymddangos yn ystod y 50 mlynedd diwethaf.

Wrth edrych ar rifyn cyntaf *Y Dinesydd* yr oedd sylw teilwng i chwaraeon gyda thudalen gyfan wedi ei neilltuo ar gyfer Clwb Rygbi Cymry Caerdydd a Chlwb Cymric. Yr oedd yn ddiddorol darllen am y Clwb Rygbi yn teithio i chwarae yn y gorllewin ac hefyd am sefydlu Clwb Cymric yn 1969. Byddai'n braf iawn gallu derbyn cyfraniadau gan y timau hyn yn y dyfodol. Yn ddiweddar mae swyddogion *Y Dinesydd* wedi bod mewn cysylltiad â'r ddau dîm hynny ynghyd â thimau eraill yn y brifddinas er mwyn gallu rhoddi sylw tebyg yn *Y Dinesydd* yn y dyfodol. Os nad ydych wedi clywed eisoes mae croeso mawr i chi gysylltu gyda'r *Dinesydd* er mwyn cyflwyno gwybodaeth ac adroddiadau am eich timau.


Y CLWB RYGBI
CLWB CYMRIC
Y CAMPAU dan ofal Thomas Davies
Y Bêl Hirgron
ENILLYDD CRYS RYGBI A RHESWM I FOD YN SIRIOL
Calennig i'r Dinesydd
PÊL-DROED YN Y GWAED: DAU FRAWD O GAERDYDD YN CODI CANOLFAN 5-BOB-OCHR GYNTAF CYMRU

Mae chwaraeon wedi derbyn sylw teilwng yn *Y Dinesydd* dros y blynyddoedd. Yr oedd yn ddiddorol darllen colofnau chwaraeon rheolaidd Thomas Davies yn y 1990gau. Er nad oedd colofn chwaraeon yn ymddangos ym mhob rhifyn dros y blynyddoedd yr oedd chwaraeon yn denu sylw yn adroddiadau ysgolion ac erthyglau eraill gan gynnwys colofn reolaidd Menter Caerdydd. Yr oedd hefyd adroddiadau cyson am gemau'r Clwb Rygbi a Chlwb Cymric a hefyd rhai achlysurol am glybiau eraill.

Cefais flas ar ddarllen nifer o erthyglau chwaraeon *Y Dinesydd* dros y blynyddoedd. Yr oedd yn ddiddorol darllen yn rhifyn Gorffennaf 1990 am sefydlu Clwb Rygbi Ieuenctid Cymry Caerdydd. Hefyd yng ngholofn Menter Caerdydd yn Rhagfyr 2004 am gêm gyntaf Tîm Rygbi Merched Cymry Caerdydd yn erbyn Clwb Rygbi Gwernyfed ar 7 Tachwedd 2004.

Yr oedd yn siomedig i weld rhai rhifynnau dros y blynyddoedd lle nad oedd unrhyw sylw o gwbl i chwaraeon. Yr oedd hynny'n syndod ond mae'n bosibl fod hynny yn ganlyniad i ddiffyg cyfraniadau gan glybiau neu fod y golygyddion wedi derbyn gormod o ddeunydd ac yn dewis hepgor erthyglau mewn perthynas â chwaraeon!

Ar y llaw arall, yn fwy calonogol yr oedd sawl rhifyn lle roedd chwaraeon yn ymddangos ar y dudalen flaen. Yr oedd hynny'n cynnwys rhifyn Chwefror 2006 pan rhoddwyd sylw i agor Canolfan Bêl Droed Gôl gan y diweddar gyn-Brif Weinidog Rhodri Morgan. Mae Gôl wedi darparu lleoliad pwrpasol i chwaraewyr pêl droed o bob oedran dros y blynyddoedd ac yn parhau i wneud hynny heddiw.

Hoffwn longyfarch *Y Dinesydd* am yr hyn a gyflawnwyd yn ystod y 50 mlynedd diwethaf gan edrych ymlaen at ddyfodol disglair.

## Llythyr o ddiolch

Annwyl Olygydd,

Llongyfarchion i'n papur lleol annwyl ***'Y Dinesydd'*** ar gyrraedd ei benblwydd yn 50 oed fis Ebrill eleni. Fel un o'r darllenwyr a fu'n derbyn pob rhifyn clawr caled/copïau pdf ers Ebrill 1973, hoffwn ddiolch i'r criw golygyddol ffyddlon, ac eraill, a fu'n gyfrifol am ein **papur bro dinesig** ers hynny. Anfonaf fy edmygedd a'm gwerthfawrogiad i'r holl weithlu gwirfoddol a fu'n slafio'n ddiwyd yn y winllan i sicrhau bod ein **papur Cymraeg lleol** ar gael gydol y flwyddyn. Ymlaen i'r 100fed a diolch i ti **Mr Dinesydd.**

Pob hwyl a hir oes i ti.
*Alun Guy*

# Hanes Cyfoes Caerdydd

Ar yr ugeinfed o Ragfyr 1955 cyhoeddodd llywodraeth Prydain mai Caerdydd fyddai prifddinas swyddogol Cymru o hynny ymlaen. Roedd hi'n bencadlys i nifer o sefydliadau cenedlaethol, megis yr Amgueddfa Genedlaethol a'r BBC, roedd ganddi brifysgol a choleg meddygol a phensaernïol, coleg cerdd a drama yn ogystal â choleg hyfforddi athrawon. Ers dechrau'r ganrif hefyd buasai Parc yr Arfau yn ganolfan genedlaethol i gemau rygbi rhyngwladol.

Wyth mlynedd yn ddiweddarach, yn 1964, daeth Caerdydd yn gartref i'r Swyddfa Gymreig a dyna ddechrau ar y broses o ddatganoli grym a arweiniodd at sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol yn 1999. Bu hynny o fudd mawr iddi. Esgorodd ar lu o swyddi gweinyddol newydd a wnaeth y ddinas yn atynfa i bobl o bob rhan o Gymru, yn arbennig o'r cymoedd diwydiannol. Y newid allweddol hwn sydd i raddau wedi gwneud Caerdydd yn ddinas fwy Cymreig.

Craidd y mater yn yr hanes hwn yw'r bartneriaeth sydd wedi bod rhwng y cyhoeddus a'r preifat, gyda'r ddwy sector yn croesffrwythlonni ei gilydd. Nid cyd-ddigwyddiad yw'r ffaith fod y chwyldro economaidd sydd wedi bod ar waith yn hanes y ddinas ers y Chwedegau yn digwydd yr un pryd â'i datblygiad fel pencadlys i gynifer o sefydliadau cyhoeddus. Efallai mai'r esiampl orau o'r cydweithio hwn yw Bae Caerdydd. Yn ystod yr Wythdegau gwawriodd y syniad o adfywio ardal y dociau rhwng Caerdydd a Phenarth. Gydag arian cyhoeddus y tu ôl iddo profodd i fod yn un o brojectau peirianyddol mwyaf Ewrop. Dechreuwyd ar y gwaith yn 1994 a'i gwblhau yn 1999. Ers hynny mae ardal y Bae wedi tyfu; yno y saif y Senedd a Chanolfan y Mileniwm ac o'u cwmpas ceir myrdd o lefydd bwyta, swyddfeydd a busnesau, tai a fflatiau; y cyfan yn creu gwaith i dros 18,000 o bobl. Mae'r ardal yn dal i dyfu, adlewyrchiad llachar o'r trawsnewid sydd wedi digwydd yng Nghaerdydd gan wneud y Bae yn gyrchfan boblogaidd i ymwelwyr o bob rhan o'r byd ac yn fodd o godi proffil rhyngwladol y brifddinas.

Mae prysurdeb y Bae yn adlewyrchu'r newidiadau cyffrous sydd wedi digwydd yn gyffredinol yn y ddinas. Yn 1999 cwblhawyd Stadiwm y Mileniwm i gymryd lle Parc yr Arfau. Ym myd siopa bu ad-drefnu mawr yn 1982 pan agorwyd Canolfan Dewi Sant, a'i ddiweddaru a'i helaethu yn 2007 a siop newydd John Lewis drws nesaf iddi. Siom i lawer, serch hynny, fu gweld siop House of Fraser, sef yr enwog Howells gynt, yn cau ei drysau am y tro olaf fis Mawrth eleni. Yn ngweddill y ddinas, aeth pwysigrwydd yr economi ôl-ddiwydiannol o nerth i nerth. Yn 1987 caewyd gwaith dur East Moors; yn ei le ymddangosodd gwasanaethau yn arbenigo mewn cyllid, yswirant, canolfannau galwadau a chyllid. Adlewyrchai hynny, yn ei dro, dwf y diwydiant hamdden gyda llu o westai newydd yn ymddangos yn y ddinas. Yn y sector cyhoeddus, cyngor sir Caerdydd yw'r cyflogwr mwyaf o ddigon; ochr yn ochr â hyn mae cynnydd mawr wedi bod mewn buddsoddiant ym myd iechyd ac addysg. Wrth i faint y boblogaeth gynyddu, cyfoethogwyd crandrwydd adeiladau Fictoraidd ac Edwardaidd Caerdydd gan stadau ac adeiladau modern, hyn oll yn ernes o'r ynni a'r ddeianmeg a'i gwnaeth yn ddinas yn y lle cyntaf.

A beth am Gymreictod Caerdydd? Yn nyddiau cynnar y ganrif ddiwethaf haerodd y llenor W. J. Gruffydd mai 'trigo' yn hytrach na 'byw' a wnâi yno. Yn 1911 dim ond 8% o'r boblogaeth oedd yn siarad Cymraeg. Dengys cyfrifiad 2021 fod y canran wedi cynyddu i dros 19%: mae 102,400 o bobl Caerdydd yn medru'r Gymraeg, ac mae'n parhau i dyfu, hynny i'w briodoli yn rhannol i'r cynnydd yn statws cenedlaethol yr iaith, yn rhannol i dwf economaidd y ddinas, gyda chenedlaethau o Gymry Cymraeg yn bwrw gwreidddiau yno. Ond y prif ffactor yw'r galw cynyddol am ysgolion cyfrwng Cymraeg. Yn ystod haf 2019 cynhaliwyd gorymdaith drwy'r ddinas i ddathlu 70 mlynedd o addysg Gymraeg yng Nghaerdydd. Mae gan y ddinas bellach ddwy ar bymtheg o ysgolion cynradd a thair ysgol uwchradd Cymraeg eu cyfrwng. Mae 8,000 o ddisgyblion yn dysgu pob pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg; hyderir y gwelwn agor pedwaredd ysgol uwchradd. Dyna sut y mae Cymreictod dinesig yn dod yn fwyfwy o realiti gan gyfoethogi dinas amlffydd ac amlddiwyllianol ei chymeriad.

*Hefin Mathias*



# Hanner Canrif o Ddarlledu

Bu BBC Cymru yn ddiweddar yn dathlu ei ben-blwydd yn gant oed. Dw i ddim cweit yn cofio Mostyn Thomas yn canu ond fe ofynnwyd i mi hel atgofion am yr hanner can mlynedd ers i fi ddechrau darlledu.

Roedd rhai yn gegrwth wrth wrando arnaf yn sôn am fy nyddiau cynnar yn gohebu o Abertawe i raglen 'Bore Da' oedd yn cael ei chyflwyno gan yr unigryw T.Glynne Davies a gredai mor angerddol am yr angen i glywed mwy o leisiau'r "bobl" ar y cyfrwng. Diolch iddo fe, cefais y pleser o wibio lan a lawr cymoedd Tawe a Gwendraeth yn holi'r "bobl" am bynciau yn amrywio o bod gormod o ddŵr ar y cwrw i sut oedd gweithio shifftiau nos yn effeithio ar fywyd rhywiol cyplau. Prentisiaeth berffaith o ran dod i nabod y "bobl" ac a dalodd ar ei ganfed pan ddois i'n hwyrach i fod yn ohebydd oedd yn cael gneud y stwff caled hefyd! Rhaid oedd cael tocyn y newyddiadurwyr i fynd i gyfarfodydd y glowyr a'r gweithwyr dur pan roedd na anghydfod yn ymwneud ag un undeb neu'r llall yn wythnosol bron. Fe wnes gais am docyn. "Na" oedd yr ateb gan swyddogion yr undeb yn Abertawe ar y pryd a'u rheswm oedd fy mod i fel menyw yn gweithio am "pin money" yn unig!

Cofiwch, dw i'n cofio i un FENYW oedd yn flaenllaw iawn yn y cylch Cymraeg yr adeg honno ddatgan nad oedd hi'n hoff o glywed lleisiau menwod ar y Radio!

O dipyn i beth daeth y teledu ar fy ngofyn. Cefais gyflwyno ar 'Heddiw'. Doedd y cyflog ddim tebyg i'r hyn a gai fy nghyd-gyflwynydd. Yr hoffus ddiweddar Emyr Daniel oedd hwnnw, oedd â dawn arbennig i holi gwleidyddion yn enwedig. 'Doeddwn i ddim yn mynnu y dylwn i gael yr un faint ag e! Menyw oeddwn i ac felly ddim yn deall gwleidyddiaeth a rhyw bynciau felly! Ond fe es i at yr un oedd yn ein talu ni, bobl llawrydd a gofyn am rhywfaint o godiad. A'i hateb? Menyw eto, cofiwch! Mae na giw o fenwod mas fanna fuse'n gneud eich jobyn chi am ddim!

Dyna un newid anferth sy wedi digwydd. Diolch byth ein bod yn cael clywed a gweld menwod yn newyddiadura'n gampus ar ein cyfryngau ers rhai blynyddoedd bellach. Er nad yw'r anghyfartaledd mewn cyflogau wedi ei unioni'n llwyr eto.

Cyfnod y deinosoriaid oedd hwnnw nôl yn y saith degau o'i gymharu â'r byd darlledu heddi. Dw i'n cofio'n iawn stafell newyddion y BBC yng Nghaerdydd. Roedd hi bron yn amhosib gweld eich sedd oherwydd trwch y mwg sigarets a sigars! Ac roedd sŵn y teipiaduron yn eich byddaru.

Byddai'r newyddion o Lundain yn dod ar beiriant oedd yn chwydu'r cyfan ar raff ddiddwedd o bapur a'r rhan fwya o hwnnw yn glanio yn y bin sbwriel.

Cafodd smygu yn y stafell ei wahardd (er gwaetha protestiadau lu) ac fe gyrhaeddodd y cyfrifiadur a thawelwch.

I fynd allan ar drywydd stori i'w ffilmio, fe fyddai o leia dri neu bedwar yn y criw. Heddi dim ond y gohebydd a chamera bach neu hyd yn oed ffôn sydd ei angen. Mae'r gallu i ganolbwyntio ar ofyn cwestiynau craff ac ar gael y lluniau a'r sain yn iawn yn haeddu parch.

O ran pynciau i newyddiadurwyr fynd i'r afael â nhw, cred rhai nad oes cyfnod tebyg i hwn wedi bod erioed. Ydi, mae cof yn gallu bod yn fyr. Ond dw i'n cofio o gyfnod y saith degau - ymuno â'r EEC, lansio Radio Cymru, Mrs Thatcher, y Prif Weinidog benywaidd gynta, *winter of discontent*, Gwynfor yn bygwth ymprydio, lansio S4C, streic y glowyr, rhyfeloedd y Malvinas ac Iraq, clwy'r traed a'r genau, Datganoli, 9/11.............Y cwbl yn effeithio ar ein bywydau bob dydd.

Ymhen hanner canrif arall a fydd bod yn aelod o'r Gymuned Ewropeaidd wedi mynd yn angof sgwn i? Ond mae un peth yn eitha sicr - bydd y Pandemig wedi ei serio ar gof cenhedloedd y byd ac ymhen hanner canrif arall fe fydd rhaglenni a ffilmiau yn cael eu cynhyrchu yn croniclo'r cyfan a'r newyddiadurwyr yn rhyfeddu at dechnoleg ddeinosoraidd y 2020au.

*Beti George*

# Cyfraniad Aelod Ieuengaf Pwyllgor Y Dinesydd

Ers symud i Gaerdydd yn unarddeg oed, mae'r *Dinesydd* wedi bod yn ffordd amlwg i ddod i wybod am weithgaredd ar draws y ddinas, ac mae'n parhau i gynnig ffordd hwylus o gael diweddariad ar holl fwrlwm Caerdydd drwy gyfrwng y Gymraeg.



Mae papurau bro yn chwarae rhan hollbwysig yn sicrhau bod newyddion lleol yn parhau i fod ar gael i bawb, a hynny mewn print neu dros y we. Darllenais erthygl yng nghylchgrawn *Golwg* yn ddiweddar am *Y Dinesydd* yn 50 oed, ble soniwyd yn benodol am ddiffyg aelodau iau ar y pwyllgor, felly cysylltais i weld os oedd modd cyfrannu. Mewn byd sy'n gynyddol brysur, lle mae pob math o gynnwys ar gael ar flaenau'n bysedd, mae'n her cystadlu a denu sylw. Yn benodol, mae sicrhau darllenwyr a chyfranwyr iau yn sialens, a rwy'n gobeithio y bydd modd i mi weithio â chriw *Y Dinesydd* er mwyn sicrhau bod y cynnwys yn parhau i fod yn ddifyr, yn gynhwysol, ac yn rhoi cyfle i siaradwyr Cymraeg a siaradwyr newydd o bob oed yng Nghaerdydd gael cyfle i rannu eu barn, sôn am eu profiadau, neu gael hysbysu am weithgareddau yn fisol.

Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at gael bod yn rhan o'r tîm!

*Ela Pari Huws*

# Bwytai Merch y Ddinas

## Canna Deli



**Lowri Haf Cooke**

Pan agorodd caffi Canna Deli 'nôl yn 2015, crewyd hafan newydd Cymraeg yng ngorllewin Caerdydd. Rhwng siop ddillad Kiti drws nesa a'r caffi-deli cŵl, roedd na fwrlwm i'w brofi ar bob ymweliad â 'Pontcanna Mews'. Mae llawer o'r diolch am hynny i'r cyn-berchennog Elin Wyn Jones. Cyflwynodd gynhwysion gorau Cymru i drigolion Caerdydd, gan gyfuno croeso cartrefol ac awyrgylch hamddenol mewn gofod chwaethus ac atyniadol. Roedd hi'n arbennig o dda am ddenu – a chadw – staff o safon, ac un o'r teulu o weithwyr a fu'n gweithio yno ers saith mlynedd, yw'r perchennog newydd ers dechrau 2023.

Yn wreiddiol o Lanuwchllyn, ac yn fab fferm wartheg a defaid Dôl Fach, rhoddodd Tomos Roberts ei fryd ar ddilyn gyrfa ym maes lletygarwch ar ôl bwrw'i brentisiaeth ym mwyty arobryn Tyddyn Llan. Pan symudodd Tomos i'r ddinas, glaniodd yng nghegin Canna Deli. Tua'r un pryd newidiodd ei fam ei gyrfa hefyd, o fod yn athrawes i redeg caffi'r Rheilffordd yn Llanuwchllyn. Er mor wahanol yw'r ddau leoliad, ar yr arwyneb o leiaf, gwelai Tomos fod na werthoedd cyffredin sy'n cysylltu'r caffi-deli dinesig â chyrchfan 'traddodiadol' ei fam ym 'mhair y pethe'. *'Mae'r elfen gymunedol yn ganolog i'r busnes, yn enwedig yr elfen Gymraeg. Mae'r iaith yn cysylltu pawb – dio'm bwys o le wyt ti'n dod.'*




Yn wir, ers ail-agor ar ddechrau'r flwyddyn, gosododd Tomos ei stamp gweledol ei hun ar Canna Deli. Symleiddiwyd y decor, meddai, efo lliwiau 'glân' gwyn a pinc. Ac un neges sy'n hoelio'r sylw; *'Tisho coffi cyw?'* – ar ffurf golau neon pinc. Yn ôl Tomos, mae'r defnydd hyderus o'r Gymraeg yn gryfder, ac yn denu chwilfrydedd ymysg cwsmeriaid newydd. *'Does na'm cyfieithiad digon da i 'Croeso' i mi. Di 'You're welcome' ddim yn ddigon - does dim cymhariaeth yn fy marn i.'*

Mae'r fwydlen 'Coffi – Brecin – Cinio – Swper' yn cyfuno'r cyfoes a'r cartrefol. Felly pan es i yno am ginio ar Ddydd Gŵyl Dewi eleni, llowciais fowlenaid cysurlon o'r 'lobscows' cig eidion o siop gigydd Lee Evans yn Nhredelerch – a surdoes Ground o rownd y gornel, sef cwmni Tom Simmons o Sir Benfro - cyn mwynhau coffi 'Flat White' gan gwmni Poblado yn Nyffryn Nantlle, a chacen gri o rysait Tadcu Tomos, yn wreiddiol o Landudoch. Ond roedd fy nhad awydd brecin, neu 'brynsh' go wahanol, felly fe sglaffiodd yntau'r burrito brecwast 'Buenos Dias' blasus, sy'n cynnwys ysgwydd porc, saws chipotle ac afocado – a hynny er mawr lwyddiant!

Ceir brecwastiau a brechdanau amrywiol (gan gynnwys ciabatta cyw iâr 'coronation' Llywelyn ein 'Cyw' Olaf!), teisennau, caws pôb a saladau tymhorol, ynghyd â 'Bahn Me' â blas dwyreiniol i figaniaid. Cyn bo hir, bydd Tomos a'r criw yn gweini tacos a choctels fin nos, fel rhan o 'phase 2' y busnes ar ei newydd wedd.

Does dim dianc rhag y ffaith ei fod yn sefydlu ei fusnes mewn cyfnod heriol – mae'n profi union yr un sialensau â phob busnes lletygarwch arall, gan gynnwys costau bwyd ac egni 'difrifol', a chyfraddau llog cynyddol. Fel un 'fasa'n mynd allan i fyta bob nos' pe byddai hynny'n bosib, a chefnogwr anferthol i fusnesau anibynnol eraill y ddinas, mae o'n gwbod fod pawb dan bwysau mawr. Mae na rwydwaith cefnogol o'i gwmpas, meddai, gan gyfeirio at fwytai fel Nook a Kindle, a Milkwood ymysg ei ffefrynnau lleol. Ond diwedd y gân ydy'r geiniog ym myd busnes, ac mae Tomos yn gwbl onest wrth adlewyrchu ar gryfderau Canna Deli mewn marchnad gystadleuol.

*'Dwi'n gwbod bod be da ni'n ei gynnig yn dda - ma'n cynhwysion ni o'r safon orau, ac ma pob aelod o'r staff yn briliant. Da ni hefyd yn andros o lwcus i gael cefnogaeth y gymuned leol.' Mae'n* cyfeirio at ei gyfnod yn Nhyddyn Llan fel *'lle nes i ddysgu cymaint am fod yn drefnus y tu ôl i'r llenni.'* Ers y pandemig datblygwyd estyniad i'r caffi fel bod modd bwyta dan gysgod yn yr awyr iach - lleoliad hynod boblogaidd yn nhymhorau'r gwanwyn a'r haf. *'Ma pobol yn meddwl*

*bod rhedeg caffi brynsh cymaint haws na rhedeg bwyty, ond efo 50-60 'cover' ar ein prysuraf ganol haf, a dim ond dau yn y gegin, dwi'n diolch byth bo ganddon ni wal reit swmpus, ac nid cegin agored – achos ma pawb yn gweithio mor andros o galed, ac mae'n bwysig cael lle i anadlu y tu hwnt i lygaid y cyhoedd. Mae o'n cymryd gymaint o egni i redeg caffi deli - bydd angen awr dda arna i ar ben fy hun adre cyn paratoi i fynd allan, a dechre eto'n ffresh yfory.'* Ond fel y dywed Tomos ei hun, ni allai freuddwydio wneud unrhywbeth arall. *'Dwi'n caru rhedeg Canna Deli a fyswn i wrth fy modd yn agor ail leoliad. Ond fel ma pethe ar hyn o bryd, os allai oroesi heb foddi erbyn mis Ionawr flwyddyn nesa, dyna fyddai 'llwyddiant' i mi.'*




Geiriau andros o onest gan berchennog busnes anibynnol, sy'n llwyr ddibynnol ar gefnogaeth cwsmeriaid dinesig. Â ninnau'n dathlu 50 mlynedd o gyhoeddi papur bro *Y Dinesydd*, mae'n werth ystyried mentergarwch cymaint o Gymry Cymraeg y brifddinas dros yr hanner canrif diwethaf. Aeth cymaint 'amdani', gan helpu i greu 'cymuned' Gymraeg ddinesig. Y peth lleiaf allwn ni ei wneud yw cofio amdanynt, a'u cefnogi. Ry' ni gyd, o bryd i'w gilydd, angen teimlo ein bod yn 'perthyn', ac mewn caffi fel Canna Deli ceir ymdeimlad o ail gartref. Felly os coffi neu de, boed hwnnw'n 'baned' neu'n 'ddishgled', yfwch, bwytewch a byddwch lawen tra'n cefnogi'n cyd-Gymry.

**Canna Deli, 2 Pontcanna Mews, 200 Kings Road, Pontcanna CF11 9DF**

***Canllaw Bach Caerdydd*, *Caffis Cymru*, a *Bwytai Cymru* gan Lowri Haf Cooke (Gwasg Gomer)**

# Y Dinesydd ymhen... 2033

Mewn bydysawd ymhell, bell i ffwrdd... mae'r *Dinesydd* wedi gwneud hanes yn 2033 - drwy fod y papur bro cyntaf i fynd i'r gofod.

Daw hyn wedi i Elon Musk - *entrepreneur* ceir Tesla - ymuno â'r miliynau o siaradwyr newydd sy'n dysgu Cymraeg ar Duolingo a mynd â'r *Dinesydd* gydag ef ar ei long ofod Space X. Mae sôn ei fod yn hoff o ddarllen colofn Siaradwyr Cymraeg Newydd Gwilym Dafydd.

Mae'r cyfryngau cymdeithasol - heb os - wedi newid y ffordd rydym yn cael ein newyddion. Caiff storïau eu cyhoeddi mewn chwinciad ar ein ffonau symudol ac mae papurau bro yn gorfod addasu. Onid papur bro yn eu hanfod yw Facebook?

Pan gyhoeddwyd rhifyn cyntaf Y Dinesydd yn 1973 - mae'n siŵr ei fod wedi'i gysodi ar deipiadur, teip set a phensil. 50 mlynedd yn ddiweddarach ac ry'n ni'n ei gyhoeddi heddiw yn ddigidol. Mae gan gyfrif Twitter *Y Dinesydd* bron i 1,890 o ddilynwyr ac rydym fel pwyllgor yn defnyddio Zoom a Whatsapp erbyn hyn.

Mae cynllun Bro.360 yn annog dechrau 'gwefannau bro' newydd sy'n bodoli ochr yn ochr â'r papur bro. Y mae 11 eisoes wedi'u sefydlu ac maent yn galluogi darllenwyr i ysgrifennu stori a'i gyhoeddi - yn y fan a'r lle. Tybed a oes angen 'gwefan bro' ar Gaerdydd neu ar y Fro? Efallai y gall 'gwefan bro' helpu i ddenu darllenwyr newydd i'r *Dinesydd* ac annog mwy o bobl iau i gyfrannu.

A fyddwn ni'n derbyn 'Newyddion o'r Eglwysi' *Y Dinesydd* drwy Alexa neu ar Tik Tok yn y dyfodol sgwn i? Gwyliwch y gofod hwn... ac ymlaen i'r 60.

*Iestyn Davies a Manon Phillips*




***Elon Musk yn tanysgrifio yn 2033?***

# BRO MORGANNWG
# A'R *DINESYDD*

Llongyfarchion fil i'r *Dinesydd* ar gyrraedd yr hanner canrif. Bu'r *Dinesydd* yn ran cyson o'm bywyd yn ystod y 25 mlynedd y bum yn byw yn Llandaf. Roeddwn yn darparu colofn y sêr iddo'n fisol yn y dyddiau cynnar pan oedd yr annwyl ddiwyd Shân Emlyn yn golygu, gosod a dosbarthu'r papur. Byddwn yn mynd draw i'w fflat braf gyferbyn â chadeirlan Llandaf i helpu i osod y *Dinesydd*. Bryd hynny *cut and paste* go iawn, gyda glud a siswrn, oedd y drefn. Dyddiau gwych. Yn ddiweddarach yn 2015 cefais y fraint o olygu'r *Dinesydd* fy hun am rai blynyddoedd, gydag Eirian Dafydd a Bryan James yn dal fy llaw. Roeddwn wedi symud i'r Barri i fyw erbyn hynny, a phenderfynais ganolbwyntio ar y Fro yn ystod fy ngolygyddiaeth, a thrwy hynny ddysgu llawer am yr ardal fendigedig hon fy hunan.

Mae Bro Morgannwg, cartre'r athrylith Iolo Morganwg ar drothwy Caerdydd. Mae gan y Fro gymaint i'w gynnig, tre'r Bontfaen i siopa ac i fwyta, pentrefi tlws hanesyddol, fel Llancarfan, a Llanilltud Fawr lle yn y chweched ganrif heidiai ysgolheigion a thywysogion i fynachlog Illtud Sant. Mae yno hefyd olion fila Rufeinig. Ceir olion Normanaidd yn nhref y Bontfaen a chastell Beaupre, ac olion hynafol yn siambrau claddu Llwyneliddon a Tinkinswood. Mae na dafarndai a thai bwyta benidgedig a'r cyfan oll mewn ardal wledig, braf, heb anghofio am draethau'r Barri a Phenarth, traphont Porthceri, traeth cudd Aberddawan, a Maes Awyr y Rhŵs. Ymsefydlodd y Normaniaid yn nhiroedd bras y Fro yn y ddeuddegfed ganrif, ac er bod yr enwau Cymreig wedi goroesi, newidiodd yr iaith i'r iaith fain mewn sawl man, ond eto mae'r heniaith yn dal yn y tir.

Yn ystod cyfnod y clo bum yn gweithio ar lyfr taith *Llwybrau'r Ddawns* gan gyfuno fy nghariad at ddawnsio gwerin ac at Gymru. Seliwyd y llyfr ar ddogfen gan Alice Williams un o hoelion wyth dawnsio gwerin. Mae'n gasgliad o bytiau difyr am y ddawns werin a hanes gwerin Cymru, o bob ardal yng Nghymru gan nodi manylion difyr ac anghyffredin am fyd y ddawns. Caiff ei lawnsio yn Eisteddfod Llŷn eleni.




Dyma rai pytiau o'r bennod ar Fro Mogannwg. *"Y Ddawns oedd yr adloniant mwyaf poblogaidd ym Morgannwg yn y ganrif o'r blaen.* (medd Tom Jones Trealaw, yn *Y Daria*n yn 1928) *Deuai ieuenctid o bell ac agos i gyfranogi o hwyl a rhialtwch yr achlysur. Cyrchent o eithafon blaenau Morgannwg i bentrefi glannau môr Bro Morgannwg er mwyn cael difyrrwch y ddawns. "*

**HENBION**

…Ger pentreflan Llwyneliddon, ger Gwenfô, mae siambr gladdu *Gwâl y Filiast* adeiladwyd chwe mil o flynyddoedd yn ôl. Ar noswyl Gŵyl Ifan, yn ôl y chwedl, bydd capan y siambr yn troelli dair gwaith ac aiff y cerrig i'r afon i ymolchi. Ac os sibrydir dymuniad i grombil y cerrig ar noswyl Galan Gaeaf, fe'i gwireddir!

Gerllaw mae siambr Tinkinswood, (*Llech y Filiast)*, gydag un o'r meini capan Neolithig mwyaf ym Mhrydain, yn pwyso tua 40 tunnell, y byddai angen dros 200 o ddynion i'w chodi.

Dywedir pe taech chi'n treulio'r nos yma ar noswyliau Calan Mai, Gŵyl Ifan, neu Galan Gaeaf byddech chi naill ai'n mynd o'ch co, yn troi'n fardd, neu'n marw!

**LLANCARFAN**

Yn y chweched ganrif roedd Llancarfan yn fwrlwm o brysurdeb, pan sefydlodd Sant Cadog fynachdy a chanolfan ddysg ddylanwadol yma.


*Traeth y Barri*

Yn 2008, o dan haenau o wyngalch darganfuwyd peintiadau canol oesol cywrain ar furiau'r eglwys. Yma hefyd mae tafarn y *Fox and Hounds* yn dyddio o'r 16G, fu'n ganolfan i ddawnsio a cherddoriaeth dros y canrifoedd.

Mae na lawer iawn mwy i Fro Morgannwg na hyn. Dewch draw i'w darganfod!

*Eiry Palfrey*

# Y DIGWYDDIADUR

## Ebrill

**Llun, 17 Ebrill**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Noson yng nghwmni Geraint Lewis, y cerddor, cyfansoddwr, darlithydd a beirniad cerdd, yng nghapel Bethel, Maes-y-deri, Rhiwbina, CF14 6JJ, am 7.30pm. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Dilwyn Jones (029-2062-0653 neu dilwynjones51@hotmail.com )

**Mercher, 19 Ebrill**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Sgwrs gan Kathy Lye am 'Age Cymru', yng nghapel Bethel, Maes-y-deri, Rhiwbina, CF14 6JJ, am 11.00am. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd: Beth Killen (029-2056-6508).

**Gwener, 21 Ebrill**
Cylch Cadwgan. Sgwrs gan yr Athro Gareth Williams ar y testun 'Angau yn y Prynhawn', yn y Ganolfan, Tabernacl, Efailisaf, am 8.00pm. Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, y Prifardd Glenys M. Roberts (groberts@btinternet.com).

**Sadwrn, 22 Ebrill**
Noson elusennol er budd Cymdeithas y Deillion Caerdydd, yng Nghlwb Golff Cyncoed am 7.00pm. Bwffe ac adloniant gan Siân a Trystan Francis. Tocynnau (£25 yr un) ar gael gan Gwilym Wyn: serenagwill@btinternet.com; 07968-463737.

**Sadwrn–Mercher, 22–26 Ebrill**
Cymdeithas Carnhuanawc. Taith i Fadrid. Manylion pellach: cymcarnhuanawc@gmail.com.

**Llun, 24 Ebrill**
Menter Caerdydd. Sgwrs gan yr Athro Jane Aaron am Granogwen. Am 7.30pm trwy gyfrwng Zoom. Am ddim. I gofrestru, cysylltwch â Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

## Mai

**Mercher, 3 Mai**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Bore cymdeithasol, yng nghapel Bethel, Maes-y-deri, Rhiwbina, CF14 6JJ, am 11.00am. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd: Beth Killen (029-2056-6508).

**Mercher, 3 Mai**
Merched y Wawr, Cangen Bro Radur. Sgwrs gan Dr Elin Jones am ei chyfrol *Hanes yn y Tir* (a gyrhaeddodd restr fer Gwobr Tir na n-Og 2022), yn Ysgoldy Eglwys Crist, Heol Isaf, Radur, am 7.30pm. Mae'r digwyddiad yn rhan o Ŵyl Radur ac mae croeso cynnes i bawb ymuno â ni i wrando ar y Dr Elin Jones. Bydd paned a thamaid ysgafn ar ddiwedd y noson. Pris mynediad £5 i'r rhai nad ydynt yn aelodau o'r gangen hon. Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Ysgrifennydd: (029-2084-8545 neu gwen.emyr@gmail.com; ).

**Llun, 8 Mai**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd. Yn y 'New House Country Hotel', Heol y Ddraenen, Draenen Pen-y-graig (*Thornhill*), Caerdydd, CF14 9UA, am 7.00 ar gyfer 7.30pm. Siaradwr gwadd: Geraint Talfan Davies. Manylion pellach: cylch.cinio@gmail.com

**Mawrth, 9 Mai**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Sgwrs gan Gwyn Thomas ar y testun 'Adfywio Cronfeydd Dŵr Llanisien a Llys-faen', yn Eglwys Fethodistaidd Cyncoed (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed) am 7.00pm. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd. Am ragor o fanylion, cysylltwch ag Eluned Press: (07761-358755 neu eluned@press0.plus.com)

**Iau, 11 Mai–Sadwrn, 20 Mai**
Theatr Sherman a'r Frân Wen yn cyflwyno *Imrie* gan Nia Morais yn Theatr Sherman. Manylioon pellach: https://www.shermantheatre.co.uk/event/imrie/?lang=cy

**Llun, 15 Mai**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Cyfarfod Blynyddol, yng nghapel Bethel, Maes-y-deri, Rhiwbina, CF14 6JJ, am 7.30pm. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Dilwyn Jones: 029-2062-0653 neu dilwynjones51@hotmail.com).

**Mercher, 17 Mai**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Taith. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd: Beth Killen (029-2056-6508).

**Gwener, 19 Mai**
Theatrau Sir Gâr yn cyflwyno *Golygfeydd o'r Pla Du* gan Chris Harris yng Nghanolfan y Celfyddydau MEMO, Y Barri, am 7.30pm. Manylion pellach: https://memoartscentre.co.uk/cy/Shows/golygfeydd-or-pla-du/

**Sadwrn, 20 Mai**
Gŵyl Fach y Fro ar Ynys y Barri rhwng 11.00am ac 8.00pm. Manylion pellach: https://menterbromorgannwg.org/cy/gwyl-fach-y-fro

**Sadwrn, 20 Mai**
Datganiad Organ gan Christopher Enston yn y Tabernacl ar yr Ais am 12.30pm. Tocynnau: £10 (£5 i blant a myfyrwyr).

**Iau, 25 Mai**
Menter Caerdydd. Sgwrs gan yr Athro Mari Jones ar y testun 'Pam cadw ieithoedd bach yn fyw?' Am 7.30pm trwy gyfrwng Zoom. Am ddim. I gofrestru, cysylltwch â Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

**Mercher, 31 Mai**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Sgwrs gan Lisabeth Miles ar y testun 'Bywyd fel Actores', yng nghapel Bethel, Maes-y-deri, Rhiwbina, CF14 6JJ, am 11.00am. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd: Beth Killen (029-2056-6508).

## Mehefin

**Mercher, 7 Mehefin**
Merched y Wawr, Cangen Bro Radur. Ymweliad prynhawn â stiwdio'r arlunydd Anthony Evans. Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Gwen Emyr (gwen.emyr@gmail.com; 029-2084-8545).

**Mawrth, 13 Mehefin**
Cwmni Theatr Arad Goch yn cyflwyno *Jemima*, drama newydd i blant 7+ gan Jeremy Turner, yng Nghanolfan y Celfyddydau MEMO, Y Barri, am 10.00am. Manylion pellach: https://memoartscentre.co.uk/cy/Shows/jemima/

**Mercher, 14 Mehefin**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Te mefus. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd: Beth Killen (029-2056-6508).

**Llun, 19 Mehefin**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Noson yng nghwmni Tim Hartley, yng nghapel Bethel, Maes-y-deri, Rhiwbina, CF14 6JJ, am 7.30pm. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Dilwyn Jones (dilwynjones51@hotmail.com; 029-2062-0653).

**Anfonwch fanylion ar gyfer Y Digwyddiadur at Yr Athro E. Wyn James**
**Manylion ar dud. 2**

# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## EGLWYS DEWI SANT

**Gwasanaeth Gŵyl Ddewi a chinio Gŵyl Ddewi'r Eglwys**

Dydd Sul, Mawrth 5ed dathlwyd Gŵyl Ddewi gyda gweinyddiad o'r Cymun Bendigaiad a bendithiwyd ciborium (llestr sy'n dal bara'r Cymun) a gyflwynwyd i'r eglwys er cof am Selwyn a Margarert Jones gan eu plant. Wedi'r gwasanaeth mwynhaodd y gynulleidfa ginio cawl yn y neuadd. Braf oedd cael dathlu'r Ŵyl yn y modd hwn unwaith eto ar ôl bwlch o ddwy flynedd. Casglwyd £355.00 tuag at gronfa Pwyllgor Argyfwng Trychinebau (DEC) i gynorthwyo'r gwaith dyngarol yn Nhwrci a Syria. Diolchodd y ficer i bawb fu'n paratoi'r arlwy ac i'r rhai fu'n addurno'r eglwys ar gyfer y gwasanaeth.

**Coffi a Chlonc**

Cynhaliwyd y Coffi a Chlonc arferol fore Sadwrn, Mawrth 18ed. Cafwyd bore hwyliog a byrlymus.

**Gwasanaeth Cwmplin y Garawys**

Darlledwyd gwasanaeth Cwmplin a myfyrdod yn wythnosol ar Zoom yn ystod y Garawys.

**Gwasanaeth Sul y Fam**

Dathlwyd Sul y Fam ddydd Sul, Mawrth 19eg gyda gwasanaeth aml oed. Yn ystod y gwasanaeth cyflwywyd tusw o Gennin Pedr i'r gwragedd oedd yn bresennol gan rai o blant yr Ysgol Sul. Diolch i Liz Harewood a Sylvia Jones am drefnu.

**Agor yr Eglwys**

O fis Ebrill ymlaen bydd yr eglwys ar agor i ymwelwyr ar ddyddiau Mrecher rhwng 11.30 a 1.30.

**Festri'r Pasg**

Yn dilyn y Foreol Weddi dydd Sul 26 Mawrth cyfarfu Festri'r Pasg. Yr oedd tymor pum mlynedd y ddau warden, Wyn Mears a Gwynn Matthews, yn dod i ben eleni, a diolchodd y ficer iddynt am eu gwasanaeth, cyfnod oedd yn cynnwys y cyfyngiadau arbennig yn dilyn y pandemig. Dewiswyd Rhys Jones yn Warden y Ficer a Delyth Davies yn Warden y Bobl.

## BETHEL, RHIWBEINA

Yn ystod y mis cawsom gyfle i groesawu i'r pulpud y Parchg Aled Edwards, Dr Eirian Dafydd, y Parchg Gwilym Wyn Roberts ac i gloi'r mis ein gweinidog y Parchg Evan Morgan.

Bydd Evan yn cynnal gwasanaeth cymun ar Sul y Blodau a bydd cyfle i sgwrsio dros baned wedi'r oedfa. Ar Sul y Pasg cawn ymuno gyda'r gynulleidfa yn Salem, Treganna. Yr aelodau fydd yn arwain yr addoliad ar Ebrill 16. Diolch i Mair Davies am baratoi'r gwasanaeth.

Mae'r bocs ar gyfer y Banc Bwyd yn cael ei lenwi'n gyson. Diolch i bob un sy'n cyfrannu mor hael a diolch i Howel James am gludo'r nwyddau i'r ganolfan.

Mae croeso i bawb ymuno â ni bob bore Sul am 10.15.

## EGLWYS Y CRWYS

**Cydymdeimlad**

Bu farw Mrs. Margaret Cox. Byddai'n dod yn rheolaidd i'r oedfaon boreol cyn iddi orfod ymgartrefu yn Tŷ Enfys. Cafodd fywyd maith a bu farw'n 99 mlwydd oed. Mae'n cydymdeimlad yn fawr â'r teulu oll yn eu profedigaeth.

**Y Gymdeithas Ddrama**

Cafwyd pedwar perfformiad grymus, ar ddau fore Sul, gan aelodau'r Gymdeithas Ddrama o waith y dramodydd William Owen, gyda'i fab, Robin Owen yn cyfarwyddo. Roedd y pedair drama ar ffurf cyfweliad yn dwyn y teitl 'Ymhen Blynyddoedd Wedyn'; cyfweliadau gyda Pontius Peilat, Yr Apostol Paul, Mair Magdalen, a Judas Iscariot. Cymerwyd rhan gan Eleri Bines, Anthony Evans, Nans Couch, Bob Roberts, Janet Wheatley, Aaran Dallimore, Diana Evans a John Rowlands. Diolch iddynt am y cyflwyniadau. Diolch hefyd i'r tîm technegol, Alun Wyn Roberts a Martha Creese-Williams.

**Y Gymdeithas**

Cafwyd noson hynod o ddiddorol yng nghwmni Eurwyn William yn annerch ar y Dr Iorwerth Peate, Sylfaenydd Sain Ffagan. Dysgwyd llawer am y cyfnod cynnar ac edmygwyd gweledigaeth staff mwy diweddar yr Amgueddfa i'w ddatblygu i fod yn un o'r amgueddfeydd mwyaf llewyrchus yn y Deyrnas Unedig.

**Coffi ar Gamera**

Cafodd criw 'Coffi ar Gamera' amser i ffwrdd o Zoom trwy fynd am ginio i'r Hen Fwthyn yn Llanishen. Mwynhawyd y bwyd a'r sgyrsiau yn fawr. Diolch i Cerian Angharad am drefnu.

**Yr Ysgol Sul**

Yn dilyn Gwasanaeth Gŵyl Dewi y plant cafwyd casgliad ymadawol er budd Canolfan Oasis yn Sblot. Canolfan yw Oasis sy'n croesawu ffoaduriaid a cheiswyr lloches ac mae rhwng 90 a 200 yn ymweld yn ddyddiol. Codwyd £200 mewn cyfraniadau.

**Cawl, Cân a Chacen**

Cafwyd noson gofiadwy gyda nifer dda wedi dod i fwynhau Cawl, cyn y cyngerdd yng nghwmni Côr CF1. Diolch i'r Côr am eu cyfraniad arbennig. Yn dilyn cafwyd paned a chacen. Diolch i'r Gymdeithas a Phwyllgor Cymorth Cristnogol am y paratoadau. Codwyd £720 tuag at Apêl Hadau Gobaith.

**Oedfaon mis Mai**

Mai 7fed – Y Parch. Gethin Rhys, gyda'r oedfa foreol yn Oedfa Gymun
Mai 14eg – Parch. Christopher Prew – Cyfarfod Pregethu pryd y gwahoddir aelodau o Eglwysi Cymraeg Caerdydd i ymuno.
Mai 21ain – Mr Ion Thomas
Mai 28ain – Bore: Parch. Huw Lewis; Hwyr: Parch. Dafydd Andrew Jones



*Rhai o blwyfolion Eglwys Dewi Sant yn y cinio Gŵyl Dewi*

## EBENESER

**Llongyfarchiadau i...**

...Cynan a Rachel Llwyd ar enedigaeth Evan Jac ar 28 Chwefror, yn frawd bach i Seth. Dymuniadau gorau i'r teulu bach.

...i Arwel Peleg Williams oedd yn 80 oed ar 2 Mawrth. Cafwyd dathliad gartref gyda'r teulu a ffrindiau.

...i Arfon Jones oedd yn 70 oed ar 20 Mawrth. Cafwyd ambell i ddathliad. Pob dymuniad da iddo.

**Trychineb**

Yn dilyn y ddau ddaeargryn yn Twrci a Syria penderfynwyd y dylid gwneud casgliad cymorth. Braint oedd gallu anfon cyfraniad o tua £1500 i apêl DEC.

**Cinio Gŵyl Ddewi**

Ar 1 Mawrth daeth criw da ohonom ar ein gilydd i gael cinio blasus yng Nghlwb Golff yr Eglwys Newydd. John Hayes oedd y siaradwr gwadd a chafwyd sgwrs ddiddorol ar 'Gwinllan a Roddwyd.' Mae John yn siaradwr ysgafn a ffraeth a bu cryn chwerthin. Diolch iddo am ein diddanu.

**Cwrdd Chwarter**

Hyfrydwch mawr oedd cael croesawu cynrychiolwyr Cwrdd Chwarter, Cyfundeb Dwyrain Morgannwg ar nos Fercher, 22 Mawrth. Cyfrifiad 2021: Tynged yr Iaith a Chrefydd yng Nghymru oedd testun y noson. Dr Hefin Jones oedd y llywydd) a chymerwyd rhan gan Helen Thomas, Arfon Jones a Gwenda Lewis yn y rhannau dechreuol. Nodwyd bod Sian Meinir wedi ei chymeradwyo pan fydd hi wedi cwblhau ei chyfnod hyfforddiant. Fe fydd hi'n derbyn tystysgrif cyn diwedd y flwyddyn a bydd ei enw yn ymddangos yn y blwyddlyfr ar gyfer 2024. Diolch i'r Parch. Dylan Rhys, Gwilym Hughes (Efail Isaf) a'r Dr Manon Wyn Davies, Adran Comisiynydd y Gymraeg, am eu cyfraniadau.

**Yr oes ddigidol**

Bellach yn wythnosol mae elfennau digidol yn rhan bwysig o'n gwaith a'n tystiolaeth, e.e., PowerPoints, ffrwd byw, podlediad ar y pod.cymru, Youtube, Trydar (Twitter), Gweplyfr (Facebook), cryno ddisgiau o'r oedfaon a'r wefan. Yn ddiweddar hefyd crëwyd cyfrif Instagram

## TABERNACL, YR AIS

Llongyfarchiadau i Efa Rogers ar ennill gwobr aur yng nghystadleuaeth dawnsio *Destination Dance* yn ddiweddar.

Cydnabyddwn gyfraniad gwerthfawr Meurig Thomas i *Dechrau Canu, Dechrau Canmol* – rhaglen oedd yn dathlu mis LHDTC. Siaradodd yn onest am ei brofiadau wrth fyw bywyd Cristnogol tra'n wynebu rhagfarn.

Daeth y newyddion trist am farwolaeth Menna Yeoman yn ddiweddar. Priododd Menna â'i gŵr Ken yn y Tabernacl tua 50 mlynedd yn ôl a bu Menna'n aelod yn yr eglwys ers hynny.

Cydymdeimlwn gyda Iona a Joe Coles yn dilyn marwolaeth tad Joe yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau i'r aelod hynaf yn ein plith, sef J. Elwyn Jones, a ddathlodd ei benblwydd yn 102 mlwydd oed yn ddiweddar.

Yn y Gymdeithas am Ddau cafwyd prynhawn hynod o ddifyr yng nghwmni Llinos Metcalf. Bu'n adrodd hanes ei thaith ddiweddar i Giwba. Rhoddodd grynodeb o hanes y wlad – o'i rheolaeth gan Sbaen, ei rhyddhau adeg Castro, dylanwad Rwsia ac, yn fwy diweddar, ymyrraeth Obama a Trump.

Cafwyd noson hwyliog iawn gan y Clwb Darllen yn trafod 'Adar Mud' gan Sian Rees ar ddiwedd mis Chwefror. Cytunwyd bod y llyfr yn un arbennig, gan obeithio bod dewis mis Mawrth, *The Summer Book* gan Tove Jansson, o'r un safon.

Cafwyd Datganiad Organ arbennig unwaith eto gan Jeff Howard. Braf yw cael nodi ei fod wedi denu'r gynulleidfa fwyaf ers amser. Fel arfer cafwyd gwledd arbennig gan yr organydd disglair.

Diolch i'r canlynol am eu cyfraniad i'r oedfaon yn ystod mis Mawrth – ein gweinidog y Parchg Ddr Rosa Hunt, plant yr Ysgol Sul, Rhys ab Owen a'r Parchg Jill Hailey Harries.

## EGLWYS MINNY STREET

www.minny street.org @MinnyStreet
Gweinidog: Y Parchedig Owain Llŷr Evans

**Genedigaeth**

Croeso cynnes i Olwen Lucy Rashbrook Pennar, merch i Seb a Sophie. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r teulu.

**Diwedd tymor y Gymdeithas**

Daeth tymor gweithgarwch llwyddiannus y Gymdeithas i ben â dau gyfarfod - noson gofiadwy o adloniant cerddorol yng nghwmni Marged a Steffan Jones ar 7 Mawrth, a Chinio Pen Tymor yng Nghlwb Golff yr Eglwys Newydd ar 28 Mawrth yng ngwmni Gill Griffiths, ein gwestai arbennig.

**Oedfaon y Sul a'r Ysgol Sul**

Edrychwn ymlaen at arweiniad ein Gweinidog yn oedfaon Sul y Blodau (2 Ebrill; oedfa gymun yn y bore), Sul y Pasg (9 Ebrill; oedfa gymun yn yr hwyr) ac 16 Ebrill. Bydd cyfle i'r eglwys ymuno ag eglwysi eraill Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd yng ngwasanaeth Gwener y Groglith yn Eglwys Dewi Sant (7 Ebrill). Byddwn yn croesawu'r Parchg Denzil John i arwain yr addoliad ddydd Sul, 23 Ebrill. Bydd oedfaon dydd Sul, 30 Ebrill, dan arweiniad ein cyd-aelodau. Yn ystod oedfaon bore Sul 2, 16, 23 a 30 Ebrill y bydd yr Ysgol Sul yn cyfarfod.

**Gweithgarwch y mis**

Mae gweithgareddau mis Ebrill yn cynnwys dwy sesiwn Bethania (4 a 18 Ebrill) a byddwn yn ciniawa yng nghwmni dau sant arall – Sant Derfel ar 5 Ebrill a Sant Beuno ar 21 Ebrill. Bydd cyfle i fwynhau Coffi a Chlonc fore Iau, 6 Ebrill (10:30–12:30) a phryd o fwyd gyda'r hwyr (Koinônia) nos Sul, 16 Ebrill. 'Dod i adnabod yr hwn achubodd y Crist Atgyfodedig' fydd thema'r gyntaf o gyfres o Ddarlithiau Celf ar 25 Ebrill. Edrychwn ymlaen at holl weithgarwch y mis.


*Arwel, Eleri a'u plant*

## BETHLEHEM, GWAELOD-Y-GARTH

**Oedfaon / Ysgol Sul (tymor ysgol) (10:30 a.m.):**
**Mis Ebrill 2023:**

2 – Parchedig Gethin Rhys
7 – Oedfa Gwener y Groglith (am 10:00 a.m.)
9 – Delwyn Sion
16 – Taith Gerdded
23 – Arwel Ellis Owen
30 – Parchedig Jeff Williams

Yr Wythnos Sanctaidd, gan ddechrau gyda Sul y Blodau, ydi wythnos olaf y Grawys, ac fe ddaw chwe wythnos o ymprydio, ac "*ildio rhai danteithion a moethus bethau*" i ben naill ai ar nos Iau Cablyd, neu ar fachlud dydd Sadwrn y Pasg. Bryd hynny y byddid yn bwyta "bara croglith" [hot cross buns], gyda'r cynhwysion, y "groes o does" yn cynrychioli croes Calfaria, a'r sbeisus yn cynrychioli eneinio corff Crist cyn ei gladdu,

Y dydd o'r blaen, wrth segura o flaen y cyfrifiadur, gwelais erthygl yn nodi bod UNESCO wedi derbyn y *baguette* Ffrengig ar restr "*anghyffwrdd treftadaeth ddiwylliannol dynoliaeth*", sy'n golygu ei bod wedi ei gwarchod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol i'w mwynhau.

- Dyma'r bara mwyaf poblogaidd a gaiff ei fwyta yn y wlad.
- Mae'r pobi yn dilyn camau pendant ac mae ieithwedd arbennig yn perthyn i'r paratoi.
- Pedwr cynhwysyn yn unig a ganiateir (blawd, dŵr, halen a burum).
- Mae'r pobi, mewn niferoedd bychan ar y tro, yn parhau trwy gydol y dydd, ond yn fwy arwyddocaol, ystyrir bod elfen gymdeithasol gref yn perthyn i'r arfer o brynu'n ffres bob dydd, gan annog y gymdogaeth i ddod at ei gilydd yn ddyddiol i sgwrsio a chyfarch gwell.
- Picied i'r siop i'w prynu fyddai y cyfrifoldeb cyntaf a ymddiriedwyd i blant gan eu teuluoedd.
- Ac yn olaf, cynllun a elwir yn *baguette suspendue*, sef yr arfer o brynu dwy dorth, ond gadael un ar ôl yn y siop ar gyfer rhywun sydd a mwy o angen!

"*Fi ydi'r bara sy'n rhoi bywyd*"
[Ioan 6:48 Beibl.net]

Pasg hapus bawb!

## SALEM, TREGANNA

Rydym wedi mwynhau mis arall yn llawn digwyddiadau, ac mae'n braf gweld y bwrlwm yn dychwelyd.

**Gwasanaeth Gŵyl Dewi**

Ar 5 Mawrth cafwyd Gwasanaeth Gŵyl Dewi yng nghofal Disgyblion Cynradd ac Uwchradd yr Ysgol Sul, a braf gweld cymaint yn cymryd rhan yn eu crysau coch a'u gwisgoedd Cymreig. Diolch yn fawr i bawb a gymerodd ran ac a fu'n hyfforddi a pharatoi.

Yn dilyn y gwasanaeth, roedd cyfle i bawb gymdeithasu dros fara brith a chacen cri / pice ar y maen / Welsh cêc, wedi'u gweini gan y bobl ifanc.

*Uchod: Clonc a Chennin Pedr yn y festri.*

**Cwtsh Cynnes**

Bydd y "Cwtsh Cynnes" yn dod i ben dros fisoedd yr haf, ond mae wedi bod yn braf gallu cymdeithasu a chynnig 'Cwtsh Cynnes' i aelodau ein cymuned dros fisoedd y gaeaf, ac rydym yn ddiolchgar iawn i gyfeillion ac aelodau sydd wedi troi i mewn atom ar fore Llun i gefnogi'r prosiect

**Clwb y Bobl Ifanc a Hadau Gobaith**

Llongyfarchiadau hefyd i'r bobl ifanc ar eu hymdrechion noddedig i godi arian i apêl Hadau Gobaith Cymorth Cristnogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Chwarae teg, cawsant eu noddi i fod yn ddi-dechnoleg am 4 awr (!!) nos Wener 24 Mawrth, a gwelwyd yr 'hen' gemau traddodiadol yn ailymddangos, fel tenis bwrdd, neu 'jenga'. Da iawn bawb.

**Adran Salem**

Llongyfarchiadau i Adran yr Urdd Salem ar ei llwyddiant yn yr Eisteddfod Sir ddiwedd mis Mawrth. Rydym mor falch ohonoch i gyd, ac yn dymuno'n dda i chi yn Llanymddyfri, ac i holl blant a phobl eraill ein cymuned.

Os hoffech chi gael gwybod be sy'n digwydd yn Salem, cofiwch ein dilyn ar Facebook a Twitter, neu ewch i'n gwefan.



***Uchod: Gemau 'traddodiadol' wedi cymryd lle'r 'tech'.***

***Isod: cyflwyniad gan rai o'r bechgyn***



## EGLWYS GATHOLIG TEILO SANT

Roedd hi'n hyfryd dathlu Dydd Gŵyl Dewi yn Eglwys Teilo Sant gyda'r Tad Peter Davies a chwmni cyfeillion a phlwyfolion. Ac roedd yn braf cael David Leggett i gyfeilio i'r Offeren ar yr organ unwaith eto – diolch!



Ryn ni wedi teithio drwy'r Grawys ac yn edrych ymlaen at fod yn Eglwys Dewi Sant ar ddydd Gwener y Groglith gyda'n cyd-Gristnogion yn y ddinas.

Bob mis pan awn i Eglwys Teilo Sant i glywed yr Offeren yn Gymraeg, byddwn yn edrych i fyny ar gerflun efydd anferth sy'n hongian uwchben y gysegrfan – ffigwr euraidd o Grist Mewn Gogoniant. Peter Eugene Ball yw'r cerflunydd ac fe'i comisiynwyd i greu'r cerflun ar gyfer yr eglwys ym mlynyddoedd cyntaf y ganrif hon.

A dyma ffordd drawiadol iawn o gyfleu'r hyn fyddwn yn ei ddathlu pan ddaw Sul y Pasg. Yn ei fuddugoliaeth dros farwolaeth mae'r Crist hwn yn arddangos ei gariad eithaf drosom ac yn ein gwahodd i'w ddilyn i'w ogoniant.

**Offeren fisol: Dydd Sul 30 Ebrill** am 4.30 yn Eglwys Teilo Sant, Yr Eglwys Newydd.

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD

**Y Brenin Tlawd**

Yn ystod yr wythnosau'n arwain i fyny at Y Pasg mae Emyr, ein gweinidog, wedi bod yn seilio pregethau'r bore ar frenhiniaeth yr Arglwydd Iesu Grist o dan y pennawd cyffredinol 'Y Brenin Tlawd'. Pwysleisiwyd bod Iesu Grist yn wahanol iawn i frenhinoedd daearol gan sôn am yr hyn bu rhaid iddo fenthyca ar ddiwedd ei fywyd. Er mwyn marchogaeth i mewn i Jeriwsalem ar Sul y Blodau bu rhaid iddo fenthyca asyn ac er mwyn dathlu'r Pasg benthyciodd ystafell. Wrth sôn am fel y bu i Iesu Grist fenthyca croes atgoffwyd ni mai ein croes ni oedd hi mewn gwirionedd ac mai cymryd cosb ein pechod ni wnaeth Iesu Grist ar Galfaria. Y tro nes cawn ein hatgoffa mai bedd fenthyg hefyd gafodd yr Iesu. Dros y Pasg diolchwn am y bedd gwag!

**O'r Bala i Gaerdydd**

Llawenydd mawr yw croesawu Gwydion a Catrin Lewis yn ôl atom ar ôl iddynt dreulio degawd fel wardeiniaid Bryn y Groes yn Y Bala. Bydd Gwydion yn treulio tridiau o'r wythnos yn gweithio i'r eglwys yn ogystal â bod yn henuriad.

Dymunwn bob bendith a hwylustod wrth iddynt gyfarwyddo â bod yn ôl yng nghanol prysurdeb dinas! Bydd yr wyrion yn sicr yn hapus iawn o gael Mam-gu a Tad-cu yn nes.

---

# Pererindod i Soar y Mynydd
## Mehefin 24/25, 2023

**Aros yng Ngwesty'r Castell, Llanymddyfri**

**Sadwrn, Mehefin 24:**
**Gadael Gerddi Soffia am 9.30 bore Sadwrn. Galw ym Mrynaman tua 11.15 am baned a sgwrs fer ar hanes yr ardal. Ymweld â chartref Williams, Pantycelyn. Sgwrs am Meddygon Myddfai ar ôl cinio nos Sadwrn.**

**Bore Sul:**
**Teithio heibio Llyn Brianne i Soar y Mynydd erbyn 2 y pnawn.**

**Cinio am 5 y.h. yng ngwesty enwog y Plough, Rhosmaen, Llandeilo. Cyrraedd Caerdydd tua 9 y.h.**

**Manylion pellach: Gwilym Wyn Roberts.**
**07968 463737 serenagwill@btinternet.com**

---

**Cofio'r Athro Bobi Jones**
*(1929 - 2017)*

Â'i raddau a'i ymroddiad y mynnai
Roi meini ei gariad;
Rhoi â hwyl ei wir alwad,
Rhoi i iaith sylfaen parhad.
*John Emyr*

---


## Siopau lle gwerthir
## *Y Dinesydd*

**CABAN**, Pontcanna
**CAFFI BLOC**, Parc Fictoria
**CAFFI FFLOC**, Heol Ddwyreiniol y Bontfaen
**CANT A MIL**, 100 Whitchurch Rd.
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**GRIFFIN BOOKS**, Penarth
**PAPERWEIGHT**, 22 Wellfield Road
**SIOP FACH CAERDYDD**, Arcêd y Castell
**Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**VICTORIA FEARN GALLERY**, Rhiwbeina

## Cynrychioli Cymru yn India

Bydd tair o ferched Ysgol Glantaf yn treulio 10 diwrnod dros wyliau'r Pasg yn cynrychioli sgwad criced Merched Cymru ar eu taith i Mumbai, India. Bydd Beca Evans, ac Efa Williams (Blwyddyn 12) ac Esther Woolley (blwyddyn 11) yn teithio i'r ddinas enfawr ddiwydiannol, un o gadarn leoedd criced yn India lle mae criced bron yn 'grefydd' i'r brodorion!

Mae'r tair yn cynrychioli Criced Merched Cymru dan 18, ac wedi bod yn aelodau cyson o'r tîm cenedlaethol yn ystod y chwe blynedd diwethaf. Bydd y sgwad yn derbyn hyfforddiant proffesiynol am ddeuddydd, yn chwarae pedair gêm, cael cyfle i brofi diwylliant hollol wahanol a byddant hefyd yn ymweld â rhai o ysgolion y ddinas i hyfforddi plant yno; bu'r tair eisoes wrthi yn hyfforddi chwaraewyr iau yn Ysgol Glantaf. Mae Beca yn troelli llaw dde, a bowlwyr cyflym yw Efa ac Esther, ac wrth gwrs mae'r tair yn batio. Bu'r tair yn rhan o ymgyrch codi arian i dalu am y daith, y gyntaf o'i bath i dîm Merched Cymru ei gwneud i India.


*Esther, Efa a Beca*

## Cynghrair First Lego®
## Cystadleuaeth i ysgolion

Tybed faint ohonoch sydd wedi clywed am gystadleuaeth y gynghrair First Lego® i ddisgyblion ysgol? Mae'n gystadleuaeth fyd-eang gyda phlant ac ieuenctid o gynifer â 110 o wledydd gwahanol yn cymryd rhan. Amcan y gystadleuaeth yw cyflwyno gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg h.y. pynciau STEM, i blant ac ieuenctid rhwng 4 a 16 oed trwy addysg ymarferol. Trwy gyfrwng y tasgau amrywiol anogir y disgyblion i feddwl yn gritigol, i arbrofi, i ddysgu sgiliau codio, i ddylunio a datblygu syniadau ac i gyd-weithio fel rhan o dîm.

Ddiwedd Mawrth yn Stadiwm y Principality bu naw o ysgolion Cymraeg Caerdydd yn cystadlu yn y categori oedran 9 i 16 oed - saith ysgol gynradd a dwy ysgol uwchradd. Thema'r gystadleuaeth eleni oedd Pweru – Egni'r Dyfodol, a bu'r disgyblion yn ystyried ffyrdd gwahanol o ddal, storio, dosbarthu a defnyddio egni yn y modd mwyaf effeithiol a gwyrdd. Roedd pedair rhan i'r gystadleuaeth.


*Ysgol Bro Edern — y Pencampwyr*

Yn y prosiect arloesi roedd angen iddynt ddarganfod ateb i broblem feunyddiol trwy greu model a rhoi cyflwyniad yn esbonio ei datrysiad a sut y byddai'r model yn gweithio. Trafodwyd gwahanol syniadau megis bysys ysgol yn cael eu pweru gan gelloedd ffotofoltäig (Glantaf), pwyntiau pŵer aml-dywydd a fyddai'n trosi egni solar, gwynt a glaw i egni trydanol (Melin Gruffydd) neu wefriwr ffonau symudol a fyddai'n cael ei wefrio ag egni o'r haul (Pwllcoch).

Roedd yr ail ran yn gofyn iddynt ddylunio robot ac ysgrifennu'r côd ar ei gyfer. Eto roedd angen iddynt gyflwyno ac esbonio hyn trwy gyflwyniad proffesiynol. Y drydedd ran oedd profi effeithlonrwydd ei robot wrth i hwnnw gyflawni nifer o dasgau heriol megis trosglwyddo unedau pŵer o un man i fan arall, neu roi batri mewn deinosor tegan neu deledu.

Y bedwaredd ran oedd asesiad o'r modd yr roedd y timau wedi cyd-weithio wrth gynllunio, datblygu eu syniadau a datrys y problemau a oedd wedi codi.

Bu'r pedwar beirniad yn pendroni'n hir cyn penderfynu ar bencampwr gan fod gwaith ardderchog wedi ei gyflwyno gan bob un o'r naw ysgol, ac mae'n amlwg bod darpar beirianwyr y dyfodol yn dysgu eu crefft yn ein hysgolion Cymraeg. Llongyfarchiadau i'r holl ysgolion a gymerodd ran – Bro Edern, Glantaf, Glan Morfa, Gwaelod-y-Garth, Hamadryad, Melin Gruffydd, Mynydd Bychan, Pen-y-groes a Phwllcoch. Eleni y pencampwyr oedd Ysgol Bro Edern a hynny am yr ail flwyddyn yn olynol.

Bydd Bro Edern nawr yn camu ymlaen i'r rownd nesaf yn Harrogate. Pob dymuniad da iddynt.

Diolch i Cerian Angharad ac eraill o staff Gweld Gwyddoniaeth am eu gwaith yn sicrhau bod y diwrnod yn llwyddiant a bod y disgyblion wedi mwynhau y profiad gwerthfawr yma.

*Eirian Dafydd*

# Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd

Ym ystod mis Mawrth a'r gwanwyn ar y gorwel daeth aelodau'r Aelwyd at ei gilydd i drafod arwyddion natur ac ati dros baned.

Ar Fawrth 1af dathlwyd Gŵyl ein Nawddsant â chinio o ddanteithion Cymreig yn y Butchers Arms, Rhiwbeina a drefnwyd gan Beth Killen a Mair Morgan.

Ar Fawrth 15fed un o'r aelodau ffyddlon, Elisabeth Gilpin fu'n diddanu'r gynulleidfa gyda'i hatgofion am un o'i hoff feirdd, I. D. Hooson, a oedd yn byw gyferbvn â hi yn y Rhos. Wrth i'r genedl ddathlu ei fywyd llynedd daeth llu o atgofion melys i'r cof. Cofiai gerdded o Rhosllannerchrugog bob Llungwyn i Langollen heibio i Gastell Dinas Bran - yr ardal ddewisodd I.D. i gael ei lwch wedi ei wasgaru "i ofal ysbryd rhydd y gwynt".

Cwrddodd gyntaf â'r bardd yn 1937. Cofiai am ei mam yn son yn aml am y gyfrol *Cerddi a Baledi* (1936). Rhoddodd fraslun o hanes ei deulu, y tad yn "siopwr a draper", yn benblaenor a Rhyddfrydwr brwd (fel y rhan fwyaf o'r glowyr lleol). Nid oedd I. D. am fod yn siopwr a throdd ei olygon at astudio'r gyfraith, fel ei frawd. Ysgrifenndd y rhan fwyaf o'i gerddi yn y 30au. Rhoddwyd teyrnged iddo fel "Cyfaill i Blant Cymru" ar ei gofeb. Hoffai blant, natur ac anifeiliaid gan gydio yn nychymyg plentyn bob tro, e.e. ei ganeuon Nadolig – 'Y Geni', Y Doethion' ac ati.



***I D Hooson***

Cofiodd Elisabeth iddi berfformio 'Y Fantell Fraith' yn Eisteddfod Rhos 1945 pan gyhoeddodd yr Archdderwydd fod yr Ail Rhyfel Byd ar ben, ac Elfed ddall yn offrymu gweddi ddwys.

Bu farw I.D.Hooson yn 1948 yn 67 oed.

Diolchwyd iddi am rannu ei phrofiad personol a diddorol am y bardd enwog.

*"Mor braf yw rhannu o brofiadau gwiw*
*Ac hamddena yng nghwmni cyfeillion triw".*





## Gŵyl Cerdd Dant Caerdydd 2023

**Cyngerdd y Cyhoeddi**
Wel am noson arbennig gafwyd yng Nghapel Salem Treganna ar gyfer **Cyngerdd Corau Salem yn Cyhoeddi**. Roedd y capel yn llawn i'r ymylon o aelodau'r holl gorau sy'n ymarfer yno'n wythnosol, a chefnogwyr a ddaeth i wylio – ychydig a wydden nhw y byddent hwythau'n cymryd rhan erbyn y diwedd hefyd! Cafwyd rhaglen ddiddorol a llawn amrywiaeth gan yr holl gorau. Ar ben hynny, cafwyd perfformiad o'r Cywydd Croeso gan yr Awdur, Llŷr Gwyn Lewis, wedi'i ddilyn gan gyflwyniad hyfryd ohoni ar Gerdd Dant gan Eiriana Jones Campbell. Yna, daeth y cyfle i bawb ymuno yn yr hwyl. Wel am brofiad yw Cymanfa Cerdd Dant, a hynny heb ymarfer ymlaen llaw. Diolch i Owain Sion am arwain y rhan honno o'r cyngerdd. Diolch hefyd i John Eifion, Trefnydd yr Ŵyl Cerdd Dant am ei gefnogaeth, a diolch yn bennaf i Delyth Medi am drefnu'r cyngerdd.



***Eiriana Jones Campbell***

**Logo**
Fel y gwelwch ar y chwith, dyma logo'r Ŵyl, wedi'i ddylunio gan Aron Evans a'i dad Anthony Evans. Ymddiheuriadau nad ymddangosodd y logo cywir yn rhifyn y mis diwethaf o'r *Dinesydd*. Felly rhwng nawr a mis Tachwedd, dyma'r ddelwedd i chwilio amdano.

**Nwyddau**
A sôn am y logo, cofiwch chwilio am nwyddau'r Ŵyl hefyd. Bydd pob math o bethau o jin i ganhwyllau i sticeri yn cael eu cynhyrchu.

**Digwyddiadau**
Mae llu o ddigwyddiadau wedi'u trefnu, felly cadwch eich llygaid ar agor a dewch i gefnogi Gŵyl Cerdd Dant Caerdydd.

Cofiwch y dyddiad: dydd Sadwrn 11 Tachwedd 2023.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiwn, neu os hoffech chi gynnig syniad, neu os hoffech chi gysylltu â'r Ŵyl mewn unrhyw ffordd, y cyfeiriad e-bost i gysylltu â ni yw **GCDCaerdydd2023@gmail.com**

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Ar nos Lun 20fed Mawrth 2023 cawsom ddarlith ddiddorol, gwahanol i'r arfer ar 'Atgofion Echdoriadol: Eldfell, 1973' gan Rhian Meara o Brifysgol Abertawe. Mae Rhian yn gyn-ddisgybl Ysgol Glantaf; mae ganddi raddau o Gaerlŷr a Chaeredin, ac mae hi nawr yn ddarlithydd yn Adran Ddaearyddiaeth Prifysgol Abertawe. Mae cysylltiad cryf gan Rhian â Gwlad yr Iâ, rhywbeth a ddechreuodd yn ystod gwyliau teuluol yn y 1990au, ac sydd wedi parhau trwy ei phrosiect doethurol ynghyd â llawer o waith ymchwil pellach yn y maes dros y blynyddoedd. Digwyddodd yr echdoriad a oedd yn destun i'w sgwrs cyn i Rhian gael ei geni, ond mae atgofion am Echdoriad llosgfynydd Eldfell yn dal yn fyw iawn i lawer o drigolion Ynysoedd Westman, pwynt mwyaf deheuol Gwlad yr Iâ.

Mae Ynysoedd Westman yn rhan o'r Parth Folcanig Dwyreiniol ac felly yn ardal llosgfynyddoedd actif. Ymddangosodd ynys newydd a enwyd yn Surtsey yn 1963 ac am ddau o'r gloch y bore ar 23ain Ionawr 1973, dechreuodd yr echdoriad a arweiniodd at ffurfio llosgfynydd newydd o'r enw Eldfell ar Ynys Heimaey. Bu'n rhaid symud y rhan fwyaf o'r boblogaeth o 5300 i'r tir mawr, heb golled bywyd, gan adael tua 300 ar ôl i weithredu fel heddlu ac ymladdwyr tân. Ar ôl i'r echdoriad ddod i ben, rhaid oedd symud 2.8 miliwn metr ciwbig o lwch folcanig o'r ynys a mynd ati i adeiladu tai newydd i'r rhai wnaed yn ddigartref.

Daeth y rhan fwyaf o boblogaeth Heimaey yn ôl, ac mae Rhian yn awyddus i ddeall sut y cofir am y digwyddiad pwysig yma yn hanes yr ynys hanner canrif yn ddiweddarach. Fel rhan o'r prosiect rhyngddisgyblaethol hwn, mae wedi holi nifer o drigolion yr ynys ac wedi ymuno â nifer o ddigwyddiadau. Gall ymweld ac amgueddfa'r llosgfynydd yn beri poen emosiynol mawr i rai o'r bobl sydd yn dal i gofio'r digwyddiad hyd heddiw. Caiff plant ysgol y cyfle i ddysgu am y llosgfynydd, er mwyn gwneud yn siŵr nad oes neb yn anghofio am y dyddiau cythryblus hynny yn 1973.

*Rhys Morris*



***Ynys Heimaey***

# Annibyniaeth gydag Irram

Irram ydw i, Cymraes yn byw yng Nghaerdydd. Dw i'n aelod a Chyfarwyddwr YesCymru, mudiad sy'n ymgyrchu dros annibyniaeth. Mae mwy nag un ffurf o annibyniaeth, felly yn y gyfres newydd hon rwy'n gobeithio canolbwyntio ar ffeithiau i ddarllenwyr ac yn barod i rannu mwy o fanylion pe dymunir. Efallai nad yw'r atebion i gyd gennyf ond rwyf wedi cael fy ysbrydoli ers ymuno â'r mudiad yn 2020.


Tyfodd cefnogaeth i annibyniaeth Cymru yn ystod pandemig Covid-19 - edrychodd nifer ohonom yng Nghymru mewn arswyd ar y ddrama yn San Steffan. Beth bynnag fo'ch teimladau am y cyfnod clo roedd pethau'n well yng Nghymru. Dangosodd Prif Weinidogion Cymru a'r Alban arweiniad, caredigrwydd a gonestrwydd. Fel gweithiwr allweddol, yn sicr roeddwn i'n teimlo'n fwy diogel yr ochr yma i'r ffin. Gwelsom yr agweddau annerbyniol yn San Steffan gyda'u partïon yn Rhif 10 a'u hagwedd sarhaus tuag at lywodraeth a phobl Cymru. Roedd gweithredoedd Boris Johnson, Matt Hancock, Dominic Cummings, ac ati yn dangos ei fod yn un rheol iddyn nhw ac un arall i'r gweddill ohonom.

Mae mudiad annibyniaeth yr Alban wedi grymuso ers 2016 a pham na all Cymru ddangos hynny hefyd? Mae gwledydd yn llai na'n rhai ni a adawodd yr Ymerodraeth Brydeinig yn ffynnu. Dydyn ni ddim digon cyfoethog? Bydden ni mewn sefyllfa well tasem ni'n derbyn ein swm teg o arian fel cenedl petai dim ond am yr ynni gwyrdd sydd yn ein meddiant ac osgoi cyfrannu at yr HS2 sydd ymhell o dir Cymru.

Mae gan Gymru gymaint o botensial ond y gwir yw ei bod mewn Undeb o Anghyfartaledd. Mae ein pobl ifanc yn gadael i chwilio am gyfleoedd gwell, a'r henoed yn dod yn fwyafrif yma. Mae gwir angen cynllun gwell ar Gymru - mwy am hynny y tro nesaf!




## Rhif: 232




**Ar draws**
1. Rhoi pwyslais ar ddechrau adroddiad cyfarwydd ehanga'r neges (4)
3. Torri'r cymod â'r golygydd bach cymwynasgar (8)
8. Mae nyrs ddiog ar yn ail yn ddolurus (4)
9. 'Ac mae'r ----- mawr yn atsain ym Mhensarn
Ac yn chwilio am yr ateb bydd ei fam' (HC) (8)
11. '-----, -----
Welai'n perffaith gario'r dydd' (WW) (6,6)
13. 'Boed fy mywyd oll yn ddiolch,
----- ----- diolch yw fy lle' (WW) (3,3,)
14. Llunio arf ar ganol y beudy (6)
17. Papurau tymhorol (12)
20. Cymhlethu tras y pâr o'r dyffrynnoedd (8)
21. 'Er i'n beiau dy bellhau,
----- wyt i drugarhau' (EW) (4)
22. Dau beint yn hanner diferu wrth eu rhannu'n bedwar (8)
23. Gwasgu'r crochenydd i wneud gwaith arall (4)

**I lawr**
1. 'Rwy'n gorwedd efo'r hwyr
----- ----- ----- efo'r wawr' (JCH) (2,2,4)
2. Hanner yr epilog a phwysau ar ymadrodd byr (7)
4. Mae'r un bach hwn yn ddrygionus (1,5)
5. Mae stydi Lowri yn troi'n ddinistriol (10)
6. Ar yn ail mae grŵp lan bach yn llymeitian (5)
7. Yn flin colli cynnwys y ddolen (4)
10. Oedran 12 (6,4)
12. Dyn y seddi yn gwneud lle i un o Gaerdydd (1,7)
15. 2 yn ffrwythlon er colli mil a chael pum deg (7)
16. 'Rhyw noson fel heno, a'r lluwch ar y mynydd,
A'r ----- yn curo ffenestri y fro' (EW) (6)
18. W! Taffi. Diystyra nhw! (5)
19. Ardal crwn (4)



**Enillydd Croesair Rhif 230**
**Rhiannon Evans, Yr Eglwys Newydd**

**Atebion Croesair Rhif 230**
**Ar Draws:** 1. Asia 8. Dirgryniad 9. Gwargrwm 10. Esau 12. Y gwynt 14. Pinacl 15. Barcut 17. Croesi 18. Plas 19. Anial dir 21. Gwirfoddoli 22. Sant
**I Lawr:** 2. Salwch gwael 3. Adar 4. Ararat 5. Ar y map 6. Yn seinio 7. Edau 11. A'r cesair yn 13. Yn cysuro 16. Trafod 17. Crimog 19. Pigo 20. Lois

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Mehefin 2023
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina,
Caerdydd, CF14 6AN
Gwobr: Tocyn llyfr £10

## Urddo'r Athro Sioned Davies yn Gymrawd er Anrhydedd




Llongyfarchiadau mawr i'r Athro Sioned Davies, cyn-Gadeirydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar gael ei hurddo yn Gymrawd er Anrhydedd y Coleg. Mae'n derbyn cydnabyddiaeth am ei chyfraniad dros bron 40 mlynedd i ddysgu ac ymchwilio fel academydd yn Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, gan gynnwys 20 mlynedd yn bennaeth ar yr ysgol hyd ei hymddeoliad yn 2017.

Sioned oedd y fenyw gyntaf erioed i ymgymryd â swydd athro prifysgol ym maes y Gymraeg. Meddai Sioned, sydd hefyd wedi derbyn canmoliaeth ryngwladol am ei chyfieithiad Saesneg o'r Mabinogion,

"Rwy'n ddiolchgar iawn i'r Coleg Cymraeg am yr anrhydedd bersonol. Rwyf wedi bod yn ffodus i gael cyfleoedd arbennig yn ystod fy ngyrfa, a heb gefnogaeth staff Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, byddai wedi bod yn anodd iawn cyflawni unrhyw beth. Edrychaf ymlaen yn fawr at gydweithio â'r Coleg a chyfrannu at y gwaith aruthrol sy'n cael ei wneud ganddynt."

Bydd y gymrodoriaeth yn cydnabod ei blaengaredd academaidd a'i chyfraniad dros flynyddoedd lawer i Gymru, ac addysg cyfrwng Cymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd a thu hwnt.

# Menter Caerdydd
# Gweithgareddau'r Pasg

Gyda'r diwrnodau'n ymestyn a'r tywydd yn gwella, mae criw Menter Caerdydd a Menter Iaith Bro Morgannwg wrthi'n trefnu gweithgareddau gwyliau'r Pasg. Dros fisoedd yr haf, byddwn hefyd yn cynnal mwy o sesiynau i oedolion yn yr awyr agored - 'Cerdded a Chlonc' a theithiau cerdded misol – yn ogystal â'r dosbarthiadau ffitrwydd arferol i rieni newydd.

**Gweithgareddau i blant yn ystod gwyliau'r Pasg**
Bydd Menter Caerdydd yn trefnu cynllun Gofal dros y Pasg yn Ysgol Treganna ac Ysgol Melin Gruffydd. Y gost yw £28 y dydd a rhaid cofrestru o flaen llaw. Bydd sesiynau Bwrlwm yn cael eu cynnal, yn rhad ac am ddim, mewn lleoliadau amrywiol yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Maen nhw'n agored i bawb, o'r dosbarth derbyn hyd flwyddyn 6, a does dim angen cofrestru cyn dod. Cewch hyd i'r manylion llawn ar wefannau'r Mentrau.

Oes plentyn rhwng 10 a 13 oed yn eich teulu chi? Mae cyfle gwych iddynt ymuno â Miss O'Hare ar gyfer Gweithdy Rapio ym Mhrifysgol De Cymru ar ddydd Mercher, 12 Ebrill. Am £15, cânt gyfle i greu rap a'i recordio mewn stiwdio!




**Tymor newydd o weithgareddau i blant.**
Byddwn ni'n lansio cyfres o glybiau codio newydd ar ôl y Pasg i blant ym mlynyddoedd 3 i 6. Dyma bartneriaeth ar y cyd gyda Technocamps a'r sesiynau'n cael eu cynnal ar brynhawniau Llun yn yr Atrium – yn rhad ac am ddim! Ewch i'r wefan i gofrestru.

Bydd y **Gweithdy Gwyddoniaeth** misol yng nghwmni SparkLab yn symud i'r Berllan Deg ar gyfer y tri mis nesaf. Prynhawn Llun, 17 Ebrill yw dyddiad y sesiwn nesaf a'r gost yw £11 y plentyn.

Draw yn y Fro, bydd SparkLab yn cynnal Gweithdy Gwyddoniaeth i blant bach, 2-4 oed, yn Neuadd Cwrt y Vil, Penarth ar ddydd Mawrth Mai. Cost y sesiwn yw £6 a gellir cofrestru ar wefan Menter Iaith Bro Morgannwg.

**Sgwrs y Mis (Zoom)**
Dr Jane Aaron fydd yn trafod ei chyfrol newydd, Cranogwen, yn Sgwrs y Mis, nos Lun, 24 Ebrill. Mae'r gyfrol, a gyhoeddir ym mis Ebrill gan Wasg Prifysgol Cymru, yn olrhain hanes Sarah Jane Rees (1839-1916) o Langrannog, ac yn ceisio esbonio sut a pham y daeth menyw ddibriod o gefndir gwerinol mor adnabyddus ymhlith Cymry ei hoes. (I gofrestru: rachel@mentercaerdydd.cymru)

**Mewn Tiwn**
Bore Llun, 24 Ebrill yw dyddiad ein cyngerdd gymunedol nesaf yng nghwmni cerddorion Live Music Now. Yn ymuno â ni am 11.30 yng Nghanolfan Beulah, Rhiwbeina bydd y delynores Delyth Jenkins a'i merch, Angharad Jenkins, ar y ffidil. Dewch ychydig yn gynt i fwynhau paned a sgwrs cyn y gyngerdd!

**Siaradwyr Newydd**
Cofiwch gofrestru ar gyfer cyfarfod cyntaf Cerdded a Chlonc, fore Iau, 6 Ebrill ym Mharc Bute. Mae croeso i siaradwyr rhugl yn ogystal â'r rhai sy'n dysgu Cymraeg. Gwenllian fydd yn cynnal y Bore Coffi Misol ar Zoom ar ddydd Gwener ola'r mis felly beth am ymuno i gael sgwrs?

**Gig Steve Eaves**
Beth am ymuno â ni am noson o ganu, dawnsio a hel atgofion yng nghwmni Steve Eaves, nos Sadwrn, 27 Mai yn yr Eglwys Norwyaidd? Mae tocynnau ar gael am £15 ar wefan yr Eglwys - https://www.norwegianchurchcardiff.com/

**Plant Bach a Theuluoedd**
Ar ôl hoe dros y Pasg, bydd yr arlwy yn ail-ddechrau mewn lleoliadau amrywiol yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg ar ddydd Llun, 17 Ebrill.

**Cysylltu:**
Gwefan: mentercaerdydd.cymru / menterbromorgannwg.org
Facebook: @m.caerdydd / @MIBroMorgannwg
https://www.instagram.com/mentercaerdydd/ https://www.instagram.com/menterbromorgannwg/
E-bost / Ffôn: post@mentercaerdydd.cymru / 029 2068 9888